**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

***10.30AM, DYDD IAU, 23 MAI, 2013**
***10.30AM, THURSDAY, 23 MAY, 2013**

*(*Cynhelir cyfarfod rhagarweiniol i'r aelodau am 10.00am / *A pre-meeting will be held for members at 10.00am).*

Lleoliad / Location

**YSTAFELL DWYRYD**
**CANOLFAN GYSWLLT / CONTACT CENTRE**
**UNED 2 / UNIT 2**
**PARC BUSNES ERYRI / ERYRI BUSINESS CENTRE**
**MINFFORDD**
**PENRHYNDEUDRAETH**

*(*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue)*

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 15/05/13)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Dafydd Meurig |
| Aled Evans | Michael Sol Owen |
| Selwyn Griffiths | Mair Rowlands |
| Charles Wyn Jones | Gareth Thomas |
| Dyfrig Jones | |

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Eryl Jones-Williams |
| Trevor Edwards | Eirwyn Williams |

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Gweno Glyn | Jason Humphreys |
| Simon Glyn | |

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)

Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Eraill a wahoddir / Others invited

Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet / Cabinet Member (eitem / item 7)

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2013/14.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2013/14.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur glas).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**7. CYNLLUNIO ARGYFWNG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer (copi yma – papur eog).

*10.40am – 11.40am*

**8. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**

Cyflwyno briff drafft (copi yma – papur melyn).

*11.40am – 11.55am*

**9. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Cyflwyno’r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi yma – papur lelog).

*11.55am*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 7.03.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (etholwyd i gadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Aled Evans, Jason Humphreys, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Nicola Day (Rheolwr Caffael Corfforaethol), Ann Roberts (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Gweno Glyn, Simon Glyn, Charles W.Jones a Dyfrig Jones.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen, rhannau (b) ac (ch), oherwydd bod ei gwmni, TJB Cymru Cyf., wedi cyflawni gwaith i Menter a Busnes a Blaenau Ymlaen.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2013 fel rhai cywir.

**3. POLISI CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth:-

(a) Yr Athro Dermot Cahill, Cyfarwyddwr Prosiect Ennill Mewn Tendro, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.
(b) Carys Griffiths, Rheolwr Tendro, Busnes Cymru.
(c) Dafydd Jones, Dinas Contracting Cyf., Penrhyndeudraeth.
(ch) Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Prosiect Adfywio Blaenau Ffestiniog.

Yn ystod ei gyflwyniad, ymhelaethodd yr Athro Dermot Cahill ar ei waith a'i ymwneud â'r Cyngor yn nhermau'r Prosiect Ennill Mewn Tendro. Eglurodd Carys Griffiths rôl Busnes Cymru o safbwynt darparu cymorth ymarferol i fusnesau bach a chanolig i ennill cytundebau yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus a rhoddodd David Jones amlinelliad o'r sefyllfa o bersbectif contractwr. Yna rhoddodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies fraslun o gefndir ac amcanion Prosiect Adfywio Blaenau Ffestiniog gan egluro sut y bu i'r cynllun hwn gynorthwyo busnesau'r dref a chreu cyfleoedd gwaith.

Ar ddiwedd bob cyflwyniad, rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

Nodwyd y dylid:-

- Cyfleu diolch i swyddogion y gwasanaeth caffael ar y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda gweithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy.
- Cynnal gwaith ar fyrder i symleiddio'n sylweddol y dogfennau tendro cyfredol gan sicrhau bod y ddogfennaeth yn addas i bwrpas ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth ddiangen nac yn gofyn am wybodaeth ddiangen.
- Parhau gyda'r gwaith o addasu'r SQUID i gymryd i ystyriaeth y lefelau risg priodol a chymesur o safbwynt trothwyon trosiant ac yswiriant.
- Datblygu trefniadau caffael canolog / corfforaethol ymhellach gan sicrhau adnoddau digonol i gyflawni.
- Sicrhau bod adborth llawn a phriodol yn cael ei ddarparu i gwmnïau sydd wedi methu ennill tendr(au).
- Sicrhau bod cymal yn cael ei gynnwys yn y tendr a'r cytundeb sy'n nodi bod angen i'r cwmni llwyddiannus dalu isgontractwyr yn gyflymach.
- Lobïo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno'r elfen yma yn gyffredinol ar draws Cymru.
- Cynnal gwaith manwl i asesu'r niferoedd, sefyllfaoedd a'r rhesymau pam bod cwmnïau sy'n ennill cytundebau yn tueddu i roi is-gontractau yn hytrach na chyflogi, gan anelu i gynyddu nifer y swyddi sy'n cael eu creu.
- Trafod gyda Llywodraeth Cymru i weld sut y gellir cynyddu ymwybyddiaeth busnesau o'r potensial o dderbyn canran uwch o'r Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru.
- Hyrwyddo'n sylweddol ac arwain darpar gleientiaid i lenwi'r SQUID yn electronig rhag gorfodi cwmnïau i dreulio amser hir yn wastraffus yn ail-lenwi gwybodaeth ar gyfer tendrau gwahanol.
- Yn dilyn llwyddiant y gwaith o gydweithio i lunio tendrau ar y cyd â phartneriaethau'n lleol ym Mlaenau Ffestiniog, datblygu'r drefn yma gyda phartneriaethau lleol pan fo cyfleoedd yn codi.

Nodwyd hefyd:-

- Y gresynid na chaniateir i Fusnes Cymru hysbysebu eu gwasanaeth cymorth i dendro yn uniongyrchol. Gofynnwyd i'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon manylion cyswllt Carys Griffiths at yr aelodau ac awgrymwyd cynnwys cyfeiriad at y gwasanaeth o dan yr adran 'Caffael' ar wefan y Cyngor.
- Mynegwyd pryder nad yw Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog wedi ymuno ag Unllais Cymru gan fod hynny'n golygu nad yw gweddill Meirionnydd yn ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen yn y dref. Hefyd, 'roedd y ffaith nad oedd yna gynrychiolydd o Flaenau Ffestiniog ar Grŵp Mynediad Meirionnydd yn golygu bod aelodau o lefydd eraill wedi gorfod mynd i'r dref i roi eu barn ar y cynlluniau adfywio. Cytunodd y Cynghorydd Many Williams-Davies i fynd â'r negeseuon hyn yn ôl i'r Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD llunio cyfres o argymhellion drafft i'r Aelod Cabinet, ar sail casgliadau'r drafodaeth uchod, a'u cyflwyno i'r Cyfarfod Paratoi nesaf i'w cymeradwyo.**

**4. AGENDA GWLEDIG – TREFOL**
**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Cyflwynwyd
(a) adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn gofyn i'r pwyllgor gytuno'r briff ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu – Agenda Gwledig - Trefol.
(b) Nodiadau cyfarfod anffurfiol o'r Grŵp Ymchwil Craffu – Agenda Wledig a gynhaliwyd ar 20 Chwefror, 2013.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Y dylai'r ymchwiliad edrych yn bennaf ar y gwasanaethau a ddarperir ar draws y Cyngor a sut maent yn cael eu darparu yn yr ardaloedd mwyaf trefol a gwledig.
- Y dylid edrych ar y system drafnidiaeth gan fod rhaid i'r sawl sy'n byw mewn ardal wledig deithio i gyrraedd y gwasanaethau.
- Gan fod trafnidiaeth gyhoeddus fwy neu lai allan o ddwylo'r Cyngor bellach, dylid edrych oes yna ffyrdd gwell o ddarparu'r gwasanaeth, e.e. cludiant cymunedol yn cael ei ddarparu gan y trydydd sector, o bosib'.
- Bod gan bob ardal broblemau gwahanol a gall pawb ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- Bod gan ardaloedd gwledig a threfol broblemau sy'n gyffredin hefyd, e.e. byddai cludiant cymunedol yn ddefnyddiol yn y trefi yn ogystal ag yng nghefn gwlad.
- Na ddylai'r ymchwiliad greu sefyllfa 'ni a 'nhw' a'i bod yn hynod bwysig bod pawb yn cydweithio er budd holl drigolion y sir.
- Bod adroddiad Gritten Management ar Astudiaeth o Ddefnyddio Ynni yn Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog ac Enlli yn crynhoi holl broblemau cefn gwlad, h.y. costau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol – mwyafrif mewn tlodi tanwydd a thrafnidiaeth; tai a systemau gwresogi aneffeithlon, gorfod defnyddio ceir; dibyniaeth ar danwyddau mwy costus a thalu mwy amdanynt – diffyg cystadleuaeth ymhlith darparwyr yn yr ardaloedd gwledig; dibyniaeth ar drafnidiaeth ddrud i ddelio ag anghenion sylfaenol.

Nodwyd bod angen cywiro pwynt 4 ar waelod y dudalen gyntaf o nodiadau cyfarfod y grŵp i ddarllen fel a ganlyn:-

*"4. Unigedd Cymdeithasol – nodwyd bod llawer yn digwydd yn y maes yma drwy Wynedd yn barod."*

Gan gyfeirio at y sylw yn y nodiadau bod yna raglen waith Broadband yn bodoli ar draws Gwynedd, nodwyd nad oedd datganiadau'r Cyngor i'r wasg yn cyfeirio at y ffaith y byddai'r Broadband yn ehangu i'r pentrefi.

**PENDERFYNWYD nodi bod trafodaeth cyfarfod anffurfiol y Grŵp Ymchwil Craffu – Agenda Wledig wedi bod yn sail i gychwyn y gwaith o edrych ar wasanaethau'r Cyngor, a'r opsiynau a ffyrdd eraill o'u darparu a chytuno â'r cyfeiriad a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:-**
**(i) Defnyddio gwybodaeth o'r Cyfrifiad diweddaraf fel sail i'r ymchwiliad.**
**(ii) Trafod gydag Arweinydd y Cyngor, Mantell Gwynedd, ac eraill.**
**(iii) Cynnal cyfarfodydd y Grŵp Ymchwil Craffu ym Mhenrhyndeudraeth.**

## 5. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

Gan gyfeirio at eitem 7 ar y rhaglen waith - Caffael Cynaliadwy a phenderfyniad y pwyllgor hwn ar 31 Ionawr i drafod yn y cyfarfod hwn y math o weithgor fyddai'n dderbyniol i edrych ar y maes, nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu fod angen i'r gweithgor fod naill ai'n weithgor i gefnogi gwaith yr Aelod Cabinet neu'n ymchwiliad craffu.

Gan fod y pwyllgor hwn wedi sefydlu ymchwiliad craffu arall eisoes, ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Strategol a Gwella, awgrymid sefydlu ymchwiliad craffu i'r maes caffael, ond bod hynny i ddigwydd ymhellach ymlaen yn ystod y flwyddyn, oherwydd yr ymrwymiad sydd ei angen o ran amser ac adnoddau. 'Roedd gwaith cychwynnol defnyddiol iawn wedi'i wneud yn y cyfarfod hwn a'r bwriad fyddai datblygu hynny ar gyfer y cyfnod o Fehefin ymlaen gan osod eitem ar raglen cyfarfod 25 Ebrill i gytuno'r briff.

Nodwyd nad oedd yr aelodau bellach yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i ddenu busnesau a chyflogaeth i'r sir ac awgrymwyd ychwanegu hyn fel eitem ar y rhaglen waith.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gosod Caffael Cynaliadwy ar raglen cyfarfod 25 Ebrill.**

**(b) Ychwanegu eitem ar y rhaglen waith i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i ddenu busnesau a chyflogaeth i'r sir.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, nodwyd bod Ystafell Dwyryd yn lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal sesiynau craffu a gofynnwyd i'r swyddogion drefnu'r cyfarfod nesaf yno hefyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.15pm a daeth i ben am 4.50pm.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **23 MAI 2013** |
| **TEITL** | **CYNLLUNIO ARGYFWNG** |
| **AWDUR** | **Gwenan Parry**<br>**Pennaeth Gofal Cwsmer** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Ioan Thomas** |
| | |
| **PWRPAS** | **Egluro cyfrifoldebau y Cyngor o safbwynt Cynllunio Argyfwng ac adrodd ar weithgaredd y ddwy flynedd ddiwethaf** |

## 1. Cyd-destun

1.1 **Y Ddeddf Argyfyngau Sifil**

Yn dilyn nifer o argyfyngau cenedlaethol o gwmpas troad y ganrif, (tanwydd, a'r llifogydd difrifol yn 2000 a'r achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001,) cyhoeddwyd y byddai'r trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng yn cael eu hadolygu. Arweiniodd hyn at **Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004**.

1.2 **Beth yw 'argyfwng'?**

**Mae'r Ddeddf yn diffinio argyfwng fel a ganlyn:**

(a) digwyddiad neu sefyllfa a all achosi niwed difrifol i les pobl;

(b) digwyddiad neu sefyllfa a all achosi niwed difrifol i'r amgylchedd; neu

(c) ryfel neu derfysgaeth, a all achosi niwed difrifol i ddiogelwch y Deyrnas Gyfunol.

Mae dyletswydd i asesu effaith argyfwng, cynllunio a pharatoi ar gyfer ymateb a chynghori yn berthnasol pan fod yr argyfwng yn debygol o rwystro'n ddifrifol y Cyngor wrth berfformio'i swyddogaethau.

1.3 **Pwy sydd yn gyfrifol?**

Mae'r Ddeddf yn dosbarthu'r ymatebwyr yn ddau gategori yn ôl graddau eu cyfraniad i waith diogelwch sifil ac mae'n rhoi cyfres o ddyletswyddau ar y naill gategori a'r llall.

1.3.1 Ymatebwyr Categori 1:

Dyma'r sefydliadau sydd wrth wraidd yr ymateb i'r argyfwng sef Gwasanaethau Brys; Cyrff Iechyd; Asiantaethau'r Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol.

Mae'n ofynnol i ymatebwyr Categori 1 gyflawni'r gyfres lawn o ddyletswyddau:

- Asesu’r risg y gallai argyfyngau ddigwydd a defnyddio hynny i helpu i gynllunio ar gyfer argyfwng;
- Rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- Rhoi trefniadau rheoli parhad gwasanaeth ar waith;
- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau fod gwybodaeth yn cyrraedd y cyhoedd am faterion diogelwch sifil a bod â threfniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori’r cyhoedd mewn argyfwng;
- Rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr lleol eraill er mwyn cydlynu a rheoli’r gwaith yn well;
- Cydweithredu gydag ymatebwyr eraill i fod yn fwy cydlynus ac effeithlon; a
- Cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i roi cyngor a chymorth i fusnesau a mudiadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes

Wrth ymateb i argyfyngau, mae’r Cyngor yn aml yn cefnogi’r gwasanaethau brys, (e.e. cau ffyrdd a dargyfeirio traffig); yn darparu canolfan gorffwys os oes ei angen; yn casglu a dosbarthu gwybodaeth; ac yn arwain yr adferiad. Mae’n ymarfer da i gynnwys asiantaethau gwirfoddol hefyd er nad yw hynny’n ddyletswydd.

1.3.2 Ymatebwyr Categori 2:
Fel arfer nid yw’r cyrff yma yn ganolog i’r gwaith ar gynllunio i ymateb i argyfwng ond fe allent fod yn chwarae rhan wrth ymateb i argyfwng. Sefydliadau megis cyfleustodau, dosbarthwyr trydan a nwy, darparwyr gwasanaethau ffôn, cwmnïau a sefydliadau trafnidiaeth ac asiantaethau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## 2. Sut mae’r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau:

### 2.1 Y Tîm Cynllunio Argyfwng

Mae gan y Cyngor dim o dri - rheolwr a dau swyddog - sy’n gyfrifol am y gwaith o gynllunio ar gyfer argyfyngau. Eu cyfrifoldeb nhw ydy sicrhau bod swyddogion ar draws y Cyngor yn ymwybodol ac yn deall eu cyfrifoldebau, ac yna eu hannog a’u cefnogi i roi trefniadau mewn lle i fod yn delio ag argyfyngau a’u hoblygiadau. Mewn sefyllfa o argyfwng mae ganddynt gyfrifoldebau i fod yn cyd-gordio ymateb y Cyngor.

### 2.2 Asesu Risgiau

Mae y gwaith yma yn cychwyn ar y cyd gyda chynghorau ac asiantaethau eraill yng Ngogledd Cymru ac ar sail tystiolaeth a mewnbwn arbenigol mae’r Gofrestr Risg Gymunedol yn cael ei llunio. Rydyn ni wedyn yn ystyried y materion hyn yn lleol ac yn canolbwyntio ar y risgiau uchaf i’r sir sef :

2.2.1 Llifogydd – Mae'r Ddeddf Llifogydd a Rheolaeth Dwr 2010 yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar y Cyngor o ran rheoli llifogydd. Yr Adran Ymgynghoriaeth sydd yn arwain ar y gwaith yma yng Ngwynedd ac mae yn faes sydd wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Strategol Newydd (*cael diffiniad o'r prosiect o'r adroddiad aeth i'r Cyngor Strategaeth Leol i Reoli Perygl Llifogydd Cyngor Gwynedd : Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet 20130426, dyddiedig 20/3/2013*). Elfen o'r gwaith yma ydy paratoi cynlluniau ac ymgyfarwyddo â threfniadau ar gyfer ymateb i lifogydd.

2.2.3 Stormydd, gwyntoedd cryfion, eira a thywydd oer iawn;

2.2.4 Llygredd ar raddfa eang;
Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn arwain yn y maes. Cyfrifoldebau reoleiddio Gwarchod y Cyhoedd i fonitro a rheoli llygredd ac i reoli heintiau.

2.2.5 Afiechyd sy'n debyg i ffliw (pandemig);

2.2.6 Effaith gweithredu diwydiannol e.e. streic tanwydd;

2.2.7 Methiant isadeiledd allweddol e.e. colli cyflenwad dŵr neu drydan;

2.2.8 Damwain ffordd lle mae'r oblygiadau yn bell gyrhaeddol.

2.3 Paratoi **Cynlluniau** sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu.

2.3.1 Y **Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr** ydy'r prif gynllun sydd yn nodi y trefniadau ar gyfer ymateb i unrhyw ddigwyddiad argyfyngus. Mae'n nodi y drefn ar gyfer datgan argyfwng, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ac yn ganllaw ar gyfer llywio ymateb y Cyngor. Fel arfer os mai digwyddiad ydy'r argyfwng mae'r Cyngor yn cefnogi y gwasanaethau brys ar safle'r argyfwng (gweithwyr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gwneud hyn fel arfer); agor a chynnal canolfan orffwys ar gyfer pobl sydd angen lloches yn sgil yr argyfwng a threfnu cludiant i bobl gyrraedd y ganolfan (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn arwain yr elfen yma); darparu gwybodaeth i'r cyhoedd (drwy yr Adran Gofal Cwsmer gan ganolbwyntio ar ddefnyddio Galw Gwynedd; cyfryngau cymdeithasol a'r wasg).

2.3.2 I gefnogi y Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr mae cyfres o gynlluniau yn ymdrin â sefyllfaoedd penodol sef Polisi Tywydd Garw; Cynllun Llifogydd Cyngor Gwynedd ac is-gynlluniau ardaloedd penodol; Trefniadau Sefydlu Canolfan Orffwys; Cynllun Pandemig Ffliw a Chanllaw Clirio Safle.

2.3.3 Her fawr i'r Cyngor ydy cynnal gwasanaethau dydd i ddydd allweddol drwy gyfnod o argyfwng a dyna paham bod gan bob gwasanaeth eu **Cynllun Parhad Gwasanaeth** sydd yn nodi pa elfennau o wasanaeth sydd yn rhaid eu cynnal er gwaethaf yr argyfwng ac yn amlinellu sut y byddant yn gwneud hyn.

2.3.4 **Cynllun Adferiad** yr Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am arwain adferiad, sef y broses o ail-adeiladu'r gymuned a chefnogi'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt. Mae'n cwmpasu'r effaith ar bobl, isadeiledd a'r amgylchedd. Mae profiad ardaloedd eraill wedi dangos ei bod yn bwysig cychwyn cynllunio ar gyfer adferiad yn fuan iawn ac y dylai fod yn cyd-redeg â'r gwaith o ymateb i'r argyfwng ei hun. Gall adferiad fod yn parhau am fisoedd neu hyd yn oed blynyddoedd.

## 2.4 **Hyfforddiant**

2.4.1 Ers Ionawr 2011 mae 136 aelod o staff wedi mynychu 31 sesiwn hyfforddiant. Mae'r rhain wedi amrywio o sesiynau ar gyfer uwch-reolwyr y Cyngor fyddai yn arwain ymateb neu yn cynrychioli'r Cyngor mewn canolfannau amlasiantaethol yn ystod argyfwng, i hyfforddiant ar gofnodi a logio gwybodaeth yn ystod argyfwng.

## 2.5 **Ymarferion** ers Ionawr 2011

2.5.1 Cynhaliwyd tri Ymarferiad Corfforaethol (Mawrth a Thachwedd 2011 a Hydref 2012). Roedd yr ymarferion yma yn canolbwyntio ar ddilyn y drefn sydd wedi ei gosod allan yn y Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr i ymateb i sefyllfa benodol oedd yn cael ei chyflwyno ar y dydd. Bu oddeutu 50 o swyddogion yn cymryd rhan ym mhob ymarferiad (gan gynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid). Mewn dau ymarferiad agorwyd Canolfan Orffwys ac roedd gwirfoddolwyr o'r Groes Goch yn cymryd rhan yn yr ymarferiadau hynny.

2.5.2 Ymarferiadau ar y cyd ag asiantaethau eraill
Mawrth 2013 - roedd y gwasanaethau brys yn arwain ymarferiad mawr yn y Bala a bu i'r Cyngor fanteisio ar y cyfle yma i fod yn ymarfer ein trefniadau ni ar gyfer agor canolfan orffwys, lle darparwyd llety i dros 100 oedd yn cymryd rhan yn yr ymarferiad. Yn ogystal roedd cynrychiolwyr yn bresennol yn y canolfannau rheoli ar gyfer yr argyfwng.
Hydref 2011 - Ymarferiad amlasiantaethol i fynd drwy drefniadau cau Pont Britannia adeg gwyntoedd mawr.
Mehefin a Thachwedd 2011 - Ymarferion pen-desg ar y cyd ag asiantaethau eraill i fynd drwy drefniadau ar gyfer digwyddiad mawr - ymarferiad yn cael ei arwain gan drefnwyr y digwyddiad.

2.5.5 Yn ogystal cynhaliwyd ymarferion bychain yn canolbwyntio ar agweddau penodol o ymateb sef sefydlu canolfan orffwys ac ymateb i sefyllfa o fethu defnyddio adeilad swyddfa.

## 3. Digwyddiadau

Yn ystod yr un cyfnod bu'n rhaid ymateb i ddigwyddiadau argyfyngus :

3.1 Eira Rhagfyr 2010/ Ionawr 2011 - Sefydlwyd y Grŵp Ymateb i Argyfwng er mwyn cyd-gordio trefniadau a pharatoi ar gyfer cyfnod y gwyliau Nadolig.

3.2 Bygythiad o Streic Tanwydd Mawrth-Ebrill 2012 – Digwyddodd llawer o'r gwaith cynllunio ar y cyd ag asiantaethau eraill, a gwnaed gwaith i geisio sefydlu anghenion tanwydd a sut y byddem yn blaenoriaethu cyflenwadau y Cyngor ei hun.

3.3 Bygythiad bod cronfa ddŵr ym Mhennal am orlifo Mehefin 2012 yn dilyn glaw trwm a thirlithriad.

3.4 Glaw a Stormydd Gorffennaf 2012 – Galwyd cyfarfod buan o'r ganolfan rheoli rhanbarthol fu yn fuddiol o ran cyd-gordio trefniadau rhwng asiantaethau.

3.5 Llifogydd Llanberis a'r A55 Tachwedd 2012 - Sefydlwyd Grŵp Ymateb i Argyfwng y Cyngor ac agorwyd dwy ganolfan orffwys.

3.6 Eira Ionawr 2013 – Cafwyd eira trwm ar y dydd Gwener a thros y penwythnos. Fel arfer roedd swyddogion Priffyrdd a Bwrdeistrefol allan yn delio â'r sefyllfa ond hefyd rhoddwyd pwyslais mawr ar gyfathrebu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddosbarthu gwybodaeth dros y penwythnos. Bu cyd-weithio da rhwng adrannau i fod yn defnyddio cerbydau 4x4 y Cyngor i gael staff allweddol i'w gwaith (e.e. sicrhau bod staff gofal yn gallu cyrraedd eu gwaith a chludo gweithwyr i ac o Galw Gwynedd).

3.7 Ar y 21 o Fawrth bu toriad i'r cyflenwad trydan ym Mhenrhyndeudraeth ac o ganlyniad doedd dim trydan yn Galw Gwynedd. Gweithredwyd y Cynllun Parhad Gwasanaeth a sefydlwyd canolfan dros dro yng Nghaernarfon a llwyddwyd i gynnal gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gydol y cyfnod heb drydan.

## 4. Gwersi

4.1. Yn dilyn eira 2010/2011 mabwysiadwyd **Polisi Tywydd Garw** ffurfiol er mwyn cael eglurder ynglŷn â phryd y byddai swyddfeydd/sefydliadau yn gorfod cau; cryfhawyd trefniadau o ran cyfrifoldebau am swyddfeydd a rhoddwyd trefn mewn lle i allu arallgyfeirio cerbydau 4x4 y Cyngor i

gludo staff allweddol mewn cyfnod o argyfwng. Dilynwyd y drefn yma adeg yr eira eleni. Ers 2010 mae trefniadau ar gyfer gallu storio mwy o halen.

4.2. Adeg y llifogydd 2011 roedd teimlad nad oeddem wedi bod yn darparu digon o **wybodaeth**. Adolygwyd y trefniadau ac adeg yr eira ddechrau'r flwyddyn, cafwyd un person i weithredu fel cydlynydd gwybodaeth a gwnaed defnydd effeithiol o'r wefan a chyfryngau cymdeithasol i wneud hyn. Ond mae lle eto i fod yn ffurfioli'r trefniadau yma ac yn datblygu trefniadau i gael gwybodaeth yn gyflym o'r rheng flaen i'r Ganolfan Ymateb ac allan i'r cyhoedd.

4.3. Yn yr ymarferion rydym wedi dilyn y drefn sydd wedi ei dogfennu yn y Cynllun Argyfwng Mawr o ran sefydlu **Canolfan Argyfwng** ac aelodaeth y **Grŵp Ymateb i Argyfwng –** wrth ymateb i'r digwyddiadau mae'r trefniadau wedi bod ychydig yn wahanol a theimlad gan rai bod y trefniadau yma wedi bod yn well. Mae y drefn sydd yn y Cynllun Argyfwng Mawr yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

4.4. Roedd dosbarthu gwybodaeth yn y Ganolfan Ymateb i Argyfwng yn broblem yn yr ymarferion cyntaf. Erbyn yr ymarferiad diwethaf roedd y trefniadau yma wedi gwella drwy ddatblygu trefniadau logio, cofnodi a defnyddio technoleg i rannu gwybodaeth ond mae lle i ddatblygu'r trefniadau yma ymhellach.

4.5. Mae pryderon am allu'r Cyngor i gynnal ymateb dros gyfnod hir o amser - mae amryw o'r timau sydd yn allweddol wrth arwain yr ymateb yn dimau bychain heb ddigon o bobl i fod yn gweithredu yn ddi-dor am gyfnod hir. Mae angen gwaith i adnabod pa swyddogion eraill sydd ar gael i gefnogi'r timau a darparu hyfforddiant ar eu cyfer.

4.6. Mae cyfathrebu rhwng asiantaethau wedi bod yn her yn ystod y digwyddiadau: yn achos Pennal roedd dau heddlu a dau gyngor (Powys a Gwynedd) yn rhan o'r ymateb ar y cychwyn. Mae hwn yn fater sydd wedi cael sylw yn y cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Gwasanaethau Brys ac wedi ei gofnodi yn ffurfiol fel mater sydd angen sylw.

4.7. Gwnaed sylwadau ynglŷn â'r defnydd ac argaeledd bagiau tywod adeg y llifogydd. Bydd hwn yn fater sydd yn cael sylw o fewn y gwaith ar lifogydd sydd wedi cael sylw yn y Cynllun Strategol.

4.8. Cychwynnwyd edrych ar faterion Adferiad yn union wedi'r llifogydd ym mis Tachwedd 2012 ond wedi'r wythnos gyntaf gadawyd y trefniadau i adrannau unigol. Fe ddylid bod wedi cadw trosolwg o'r sefyllfa.

## 5. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Argyfyngau Sifil yng Nghymru (Rhagfyr 2012)

5.1 Ni fu swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngwynedd yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad ac mae ei chynnwys wedi ei herio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n dadlau ei bod wedi ei seilio ar ddata a chynlluniau o 2010 ac nad ydyw wedi cymryd sylw o brofiadau mwy diweddar o ran ymateb i argyfyngau a chynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr, ac felly nad ydy'r argymhellion yn berthnasol i'r gwir sefyllfa yng Nghymru heddiw.

5.2 Pwyntiau gweithredu i Gyngor Gwynedd yn deillio o'r adroddiad :

5.2.1 Perchnogaeth o berfformiad a bod angen trefn ffurfiol o gyflwyno adroddiadau o wersi a ddysgwyd wedi digwyddiad i'r Grŵp Rheoli ac i'r Aelod Cabinet.

5.2.2 Angen cael rhaglen fwy ffurfiol yn ei lle ar gyfer adolygu a chymeradwyo ein cynlluniau a dogfennu ac yn erbyn pa feini prawf fyddwn ni yn eu hadolygu e.e. profiad ymarferion/digwyddiadau, canllawiau Swyddfa Gartref.

5.2.3 Datblygu Cofrestr Risg leol i Wynedd – Cofrestr Risg Rhanbarthol sy'n bodoli ar hyn o bryd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cofrestr benodol i Wynedd.

## 6. Cydweithio

6.1 Yn ei gyfarfod ar y 9 Ebrill 2013 penderfynodd Cabinet y Cyngor i fabwysiadu achos busnes ar gyfer creu un gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol. Bydd hyn yn golygu newid i'r dull o ddarparu y Gwasanaeth yma a bydd y gwaith o sefydlu y gwasanaeth newydd yma yn cychwyn yn fuan.

## 7. Mesur effeithlonrwydd y Gwasanaeth

7.1 Fel rhan o fesur effeithlonrwydd cynllunio argyfwng o fewn y Cyngor holwyd unigolion fu'n rhan o'r ymarferion i gael eu barn ynglŷn â pha mor barod ydy'r Cyngor i allu ymateb a holwyd uwch-swyddogion sydd â rôl allweddol i'w chwarae pa mor barod y mae nhw yn teimlo i allu cyflawni eu rôl. Roedd teimlad cyffredinol bod pethau wedi symud ymlaen yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bod y profiad o'r ymarferion ac ymateb i'r digwyddiadau wedi bod yn fuddiol iawn.

## 8. Rhaglen Waith Cynllunio Argyfwng 2013-14

a. Cyfrannu at y gwaith o sefydlu y gwasanaeth cynllunio argyfwng rhanbarthol;
b. Cynnal ymarferion;
c. Sefydlu cofrestr risg cynllunio argyfwng Cyngor Gwynedd;
d. Sefydlu cronfa wybodaeth ar gyfer y swyddi hynny o fewn y Cyngor sydd yn allweddol o ran ymateb i argyfwng ac adnabod trefniadau dirprwyo;
e. Adolygu cyfansoddiad y Grŵp Ymateb i Argyfwng a'r trefniadau ar gyfer sefydlu canolfan ymateb;
f. Datblygu trefniadau cyfathrebu o ran cael gwybodaeth o'r rheng flaen ac o ran dosbarthu gwybodaeth ymysg yr ymatebwyr;
g. Datblygu'r trefniadau ymateb i lifogydd.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

6 Rhagfyr 2012
www.wao.gov.uk

# Argyfyngau Sifil yng Nghymru



Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys John Weston, Alastair McQuaid, Helen Keatley, Stephen Lisle, Susan Morgan ac Andy Phillips o dan arweiniad Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhiad i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Rhagfyr 2012



80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


Crynodeb 6

Argymhellion 15

1 Mae llawer o'r trefniadau i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn gweithio'n dda ond mae rôl Llywodraeth Cymru yn aneglur ac mae cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon wrth gyflawni'n lleol 18

Nid yw trefniadau arwain cymhleth wedi atal Llywodraeth Cymru rhag rhoi cymorth effeithiol i'r partneriaid sy'n cyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 18

Mae gormod o grwpiau cynllunio at argyfwng ac atebolrwydd aneglur yn ychwanegu aneffeithlonrwydd at fframwaith cydnerthu sydd eisoes yn gymhleth 26

2 Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru am yr adnoddau y mae'n eu neilltuo i sicrhau cydnerthedd ond mae cwmpas clir i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd 37

Ni chaiff arian ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng ei flaenoriaethu'n ddigonol i'r meysydd â'r risg fwyaf, ac mae graddau'r costau a'r gwerth am arian yn aneglur 37

Efallai nad y defnydd presennol o adnoddau dynol fydd y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau 44

Heb drosolwg cenedlaethol o effeithiolrwydd asedau ffisegol ar gyfer ymateb i argyfwng, ni ellir gwarantu eu hargaeledd, eu cynnal a'u cadw na'u gweithredu 46

Nid yw ymatebwyr Categori Un yn gyson o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau a gynigir gan y sector gwirfoddol i feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau 47

3 Mae’r camau a gymerir gan ymatebwyr Categori Un i weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn anghyson ac nid yw ymatebwyr yn monitro eu gweithgareddau’n effeithiol 50

Mae’r ffordd y caiff risg ei hasesu ledled Cymru yn anghyson, sy’n golygu ei bod yn anodd gwneud cymhariaeth 50

Mae gan ymatebwyr Categori Un gynlluniau argyfwng ond nid yw gweithdrefnau yn gyson ac mae’r ansawdd yn amrywio, a gallai hyn effeithio ar eu gwerth mewn argyfwng 54

Ceir enghreifftiau da o ymarferion a hyfforddiant er nad yw cam adfer argyfyngau wedi’i brofi i raddau helaeth ac mae pwysau ariannol yn debygol o effeithio ar y graddau y cynhelir profion yn y dyfodol 55

Ar y cyfan, mae’r gwaith o graffu ar weithgarwch cydnerthedd a rheoli perfformiad yn y maes hwnnw yn aneffeithiol 59

## Atodiadau

Sefydliadau yng Nghymru sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 64

Disgwyliadau a dangosyddion arfer da ar gyfer ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau 65

Rôl fforymau lleol Cymru gydnerth 66

Methodoleg 68

# Crynodeb

1 Gall argyfyngau sifil fod yn ddigwyddiadau trychinebus sy'n arwain at farwolaethau ac yn achosi difrod difrifol a chost sylweddol i'r economi. Dengys Arddangosyn 1 rai argyfyngau sifil diweddar yn y Deyrnas Unedig a rhai o'u heffeithiau.

2 Mae'n anochel y bydd argyfyngau sifil yn digwydd yn y dyfodol. Mae llifogydd yn enghraifft o argyfwng sy'n debygol o ddigwydd yn amlach a dod yn fwy difrifol. Enghraifft arall o argyfwng sifil sy'n dod yn fwy cyffredin yw'r ymosodiad seibr[4], y mae ei effaith yn cynyddu wrth i gymdeithas ryng-gysylltu fwyfwy a dod yn fwy dibynnol ar systemau cyfathrebu modern. Mae terfysgaeth ac anhrefn sifil hefyd yn parhau i fod yn fygythiad cyson i fywyd a byd masnach.

**Arddangosyn 1 – Enghreifftiau o argyfyngau sifil diweddar yn y Deyrnas Unedig**

| Digwyddiad | Effeithiau |
|---|---|
| Prinder tanwydd (2000) | Amcangyfrifir i hyn gostio £1 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig.[1] |
| Argyfwng clwy'r traed a'r genau (2001) | Costiodd hwn dros £8 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig.[2] |
| Ymgyrch fomio Llundain ar 7/7 (2005) | Cafodd 55 o bobl eu lladd o ganlyniad i'r ymgyrch fomio hon ac anafwyd llawer mwy. |
| Llifogydd yn Lloegr (2007) | Costiodd hyn dros £3 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig[3] gyda llawer o bobl yn methu â dychwelyd i'w cartrefi am gyfnodau hir. |
| Tywydd garw yn y Deyrnas Unedig (gaeaf 2010-11) | Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn amcangyfrif i hyn gostio cyfanswm o £650 miliwn i'r Deyrnas Unedig. |

*Ffynhonnell: Crynodeb a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru*

1 http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/928701.stm
2 Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Hysbysiad i'r Wasg Rhif 5 o Sesiwn 2002-03
3 *Learning the Lessons from the 2007 Floods*, adroddiad Syr Michael Pitt ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Mehefin 2008
4 Mae ymosodiadau seibr yn cynnwys ymosodiadau ar y rhyngrwyd, rhwydweithiau telathrebu ehangach a systemau cyfrifiadurol eraill. Yn ei Chofrestr Risg Genedlaethol, mae'r Llywodraeth yn nodi bod ymosodiad seibr yn risg â blaenoriaeth uchel.



3 Daeth Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i rym yng Nghymru a Lloegr yn 2005, gan ddisodli Deddf Amddiffyn Sifil 1948[5] a deddfwriaeth gysylltiedig arall yn llwyr. Nod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yw sicrhau bod pobl yn fwy parod am unrhyw ddigwyddiad neu argyfwng difrifol, sy'n amharu arnynt a bod yr ymateb iddynt yn well. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn diffinio argyfwng fel a ganlyn:

- **a** digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol yn y Deyrnas Unedig;
- **b** digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth difrod difrifol i amgylchedd lle yn y Deyrnas Unedig; neu
- **c** ryfel, neu derfysgaeth, sy'n bygwth tanseilio diogelwch y Deyrnas Unedig yn ddifrifol.

4 Yn ôl Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, set ddiffiniedig o sefydliadau rheng flaen a elwir yn 'ymatebwyr' sy'n atebol am argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn rhestru'r sefydliadau hyn a'u dyletswyddau, sy'n ymestyn y tu hwnt i gynllunio at argyfwng ac yn cwmpasu dyletswyddau llawer ehangach o ran sicrhau 'cydnerthedd'. Mae Arddangosyn 2 yn egluro'r gydberthynas rhwng cydnerthedd a chynllunio at argyfwng.

**Arddangosyn 2 – Y gydberthynas rhwng cydnerthedd a chynllunio at argyfwng**

| |
|---|
| Mae cydnerthedd yn derm cyffredinol sy'n crynhoi'r ffordd y dylai sefydliadau baratoi er mwyn sicrhau bod argyfwng yn tarfu arnynt cyn lleied â phosibl. Mae gan sefydliadau cydnerth gynlluniau a gweithdrefnau ar waith sy'n golygu eu bod yn barod am argyfyngau a chânt lai o effaith. Mae sefydliadau cydnerth hefyd yn ailafael ynddi'n gyflym fel bod cyn lleied o darfu â phosibl ar ddarparu gwasanaethau. Mae cynllunio at argyfwng yn rhan o'r broses ehangach hon o gydnerthedd ac mae'n un o'r saith dyletswydd allweddol yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Dengys Arddangosyn 3 y dyletswyddau hyn. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

5 Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn diffinio dau gategori o sefydliad sy'n ymateb i argyfyngau[6]:

- **a** Mae ymatebwyr Categori Un yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, awdurdodau lleol, y sector iechyd, ac asiantaethau eraill megis Asiantaeth yr Amgylchedd[7]. Mae'r sefydliadau hollbwysig hyn yn rheoli argyfyngau ac yn gwneud y penderfyniadau ac yn cymryd y camau sydd eu hangen yn ystod digwyddiad ac wrth adfer y sefyllfa wedyn.
- **b** Mae ymatebwyr Categori Dau yn cynnwys y cwmnïau cyfleustodau, rheilffyrdd a thelathrebu, ynghyd â sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth sicrhau parhad systemau, gwasanaethau a chyfryngau cyfathrebu.

6 Dengys Arddangosyn 3 brif ddyletswyddau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar gyfer ymatebwyr Categori Un.

---

5 Roedd Deddf Amddiffyn Sifil 1948 yn canolbwyntio ar ymosodiad gwrthwynebus ar y Deyrnas Unedig ac nid oedd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i gwmpas llawer ehangach argyfyngau sifil modern.

6 Dengys Atodiad 1 y categorïau o sefydliad sy'n ymateb i argyfyngau.

7 Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ei disodli gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru o 1 Ebrill 2013.

**Arddangosyn 3 – Prif ddyletswyddau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar gyfer ymatebwyr Categori Un**

| Dyletswydd | Gofyniad cryno |
|---|---|
| **Asesiad risg** | Asesu risgiau a llunio cofrestr risg gymunedol |
| **Rheoli parhad busnes** | Cynllun i barhau i gyflawni swyddogaethau mewn argyfwng |
| **Cynllunio at argyfwng** | Cynllun i atal argyfyngau a lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfyngau |
| **Cydweithredu** | Defnyddio fforwm lleol Cymru gydnerth fel y prif gyfrwng i gydweithredu â phob ymatebydd a sefydliad arall |
| **Rhannu gwybodaeth** | Rhannu gwybodaeth, bod yn ymwybodol o'r cynlluniau diweddaraf ac ateb ceisiadau am wybodaeth |
| **Rhybuddio a hysbysu'r cyhoedd** | Gwneud aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r risg o argyfyngau a'u rhybuddio am argyfyngau |
| **Cynghori a chynorthwyo'r sectorau masnachol a gwirfoddol** | Ymatebwyr awdurdodau lleol i roi cyngor parhad busnes i fusnesau a'r sector gwirfoddol |

*Ffynhonnell: Emergency Preparedness; statutory guidance for part 1 of the Civil Contingencies Act 2004*

7 Mae rheoliadau[8] yn ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr gydweithredu â'i gilydd mewn fforymau lleol Cymru gydnerth. Ceir pedwar fforwm lleol Cymru gydnerth sy'n seiliedig ar ardaloedd heddlu Cymru[9]. Hefyd, mae Fforwm Cymru Gydnerth yn gorff anstatudol sy'n bwynt ffocws i brif swyddogion ymatebwyr Categori Un drafod materion strategol paratoi at argyfwng â Gweinidogion Cymru. Mae Swyddfa'r Cabinet yn aelod o Fforwm Cymru Gydnerth, ac mae ganddi ran i'w chwarae i sicrhau bod polisi a gweithrediadau argyfyngau sifil yng Nghymru yn cael eu datblygu, eu cydgysylltu a'u gweithredu'n effeithiol[10].

8 Mae rôl Llywodraeth Cymru mewn argyfyngau sifil posibl yn gymhleth. Gan nad oes gan Gymru bwerau datganoledig o ran argyfyngau sifil posibl, nid yw Llywodraeth Cymru yn atebol am weithredu na gorfodi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru rôl, drwy ei Thîm Cydnerthu, yn y meysydd canlynol:

a cefnogi gweithgareddau fforymau lleol Cymru gydnerth;

b arwain gwaith cydgysylltu ar lefel Cymru gyfan;

c bod yn gyswllt rhwng fforymau lleol Cymru gydnerth; a

ch cysylltu â Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig.[11]

8 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio wrth Gefn) 2005

9 Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent

10 Sefydlwyd Rhaglen Wella'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl gan Swyddfa'r Cabinet. Roedd cam cyntaf yr adolygiad hwn, a gwblhawyd ym mis Hydref 2009, yn canolbwyntio ar wella safonau a chysondeb. Arweiniodd yr ail gam, a gwblhawyd yn 2012, at fân newidiadau i'r rheoliadau a diwygio'r canllawiau statudol Emergency Preparedness.

11 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness*, Pennod 13; *Support and challenge*, Tudalen 14, paragraff 13.29, Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012



9 Mae Adolygiad Simpson o ddarpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru[12] yn cynnwys adran fer ar argyfyngau sifil. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod y gwaith o gyflawni swyddogaethau cynllunio at argyfwng wedi'i ledaenu'n rhy denau ar draws sefydliadau niferus ac y dylai gael ei ailstrwythuro i lefel ranbarthol. Hefyd, argymhellodd Simpson y dylai'r ad-drefnu hwn gynnwys awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub.

10 Ym mis Rhagfyr 2011, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion Adolygiad Simpson. Mae compact ar gyfer newid yn ymrwymo Cymru i ddarparu gwasanaethau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol ymhen dwy flynedd, a lle y bo'n ymarferol, i gynnwys partneriaid eraill ymhen pedair blynedd.[13] Mae'r amserlen hon ar y trywydd cywir ac erbyn mis Tachwedd 2012, mae pob fforwm lleol Cymru gydnerth yn anelu at fod wedi llunio achos busnes sy'n amlinellu sut y gallai gyflawni'r ymrwymiad i ranbartholi yn y ffordd fwyaf priodol.

11 Ystyriodd ein hastudiaeth p'un a yw Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi arwain at drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio at argyfwng a chydnerthedd mewn cymunedau sy'n diogelu'r cyhoedd yng Nghymru yn ddigonol. Roedd ein hastudiaeth yn cwmpasu Rhan 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 sy'n canolbwyntio ar sefydlu fframwaith statudol o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymatebwyr lleol, meithrin cydnerthedd i baratoi cymunedau a threfniadau lleol ar gyfer mesurau amddiffyn sifil. Ni wnaethom ystyried Rhan 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 am ei bod yn canolbwyntio ar y darpariaethau sydd ar gael i'w defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol ac argyfyngau cenedlaethol, sydd y tu hwnt i gylch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.[14]

12 Daethom i'r casgliad fod y trefniadau ar gyfer cynllunio at argyfwng a chydnerthedd yn amddiffyn y cyhoedd ond mae ein canfyddiadau'n golygu na allwn fod yn siŵr bod trefniadau'n effeithlon, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau nac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

## Mae llawer o'r trefniadau i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn gweithio'n dda ond mae rôl Llywodraeth Cymru yn aneglur ac mae cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon wrth gyflawni'n lleol

13 **Nid yw trefniadau arwain cymhleth wedi atal Llywodraeth Cymru rhag rhoi cymorth effeithiol i'r partneriaid sy'n cyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.** Mae'r amryw heriau a ddeilliodd o rai argyfyngau mawr diweddar wedi dangos gallu Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i ddarparu ymateb effeithiol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datganoli deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl i Gymru, ac nid yw'n ystyried Llywodraeth Cymru yn sefydliad ymatebydd Categori Un sy'n atebol am gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Er yr ymddengys fod canllawiau gan Swyddfa'r Cabinet yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am arwain gweithgarwch cydnerthu arferol, yn ein barn ni mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni peth o'r swyddogaeth hon. Mae natur y setliad datganoli[15] i Gymru yn golygu bod rôl Llywodraeth Cymru o ran argyfyngau sifil posibl yn gymhleth. Rydym wedi dod i'r casgliad, ac mae Llywodraeth Cymru yn

12 *Local, Regional, National: What services are best delivered where?* Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dwyn yr enw 'Adolygiad Simpson', Canolfan Arwain Llywodraeth Leol, Mawrth 2011

13 http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/110812compactcy.pdf

14 Disgrifiwn ein methodoleg yn Atodiad 4.

15 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn nodi'r setliad datganoli cychwynnol, a sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 yn dilyn y bleidlais Ie yn 1997. O dan ddeddf 1998, cafodd llawer o bwerau blaenorol Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu trosglwyddo i'r Cynulliad newydd.

cytuno, fod ei rôl o ran argyfyngau sifil posibl yn gymhleth. Mae partneriaid Llywodraeth Cymru yn dehongli'r rôl arwain a chydgysylltu y mae wedi'i datblygu'n wahanol, sef sefyllfa sydd wedi arwain at ddiffyg eglurder ynghylch cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

14 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ei helpu i gydgysylltu gwaith argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod diffyg eglurder yn y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch rolau a disgwyliadau arwain a chydgysylltu. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fframwaith cydnerthu o bartneriaethau agos ag ymatebwyr Categori Un. Mae Llywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n awgrymu nad yw'r ffaith nad oes pwerau datganoledig ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn rhwystr, er ei fod yn golygu bod trefniadau yn fwy cymhleth.

15 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ganddi rôl gydgysylltu a chefnogi. Daethom i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru, yn ei hanfod, yn cefnogi ei phartneriaid ac yn ceisio cyfleoedd i ychwanegu gwerth at yr ymateb i argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Y prif bartneriaethau ar gyfer argyfyngau sifil posibl yw Fforwm Cymru Gydnerth, pedwar fforwm lleol Cymru gydnerth, Tîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd.

16 Mae'r fframwaith o grwpiau a phartneriaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i'w ddatblygu, ac y mae bellach yn ei gefnogi, wedi helpu sefydliadau Categori Un a Chategori Dau i wella eu gweithgarwch argyfyngau sifil posibl. Fodd bynnag, mae gwaith cydgysylltu arferol Llywodraeth Cymru o ran gweithgareddau nad ydynt yn argyfwng yn fwy cyfyngedig ac yn amlygu bwlch rhwng y disgwyliadau ar gyfer rolau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer argyfyngau sifil posibl. Yn arbennig, ystyriwn fod bwlch o ran goruchwylio gweithgarwch argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Gwerthfawrogwn y ffaith mai ar ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau y mae atebolrwydd yn canolbwyntio yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a bod y ddeddfwriaeth hon wedi'i drafftio mewn ffordd nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gael goruchwyliaeth hierarchaidd glir. Ond mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ceisio egluro rolau a chyfrifoldebau, sicrhau mwy o gysondeb a strwythur, a phennu sail gadarn i reoli perfformiad ar lefel leol. Yn ôl ein hastudiaeth ni chaiff y nodau hyn eu cyflawni'n ddigonol am fod bylchau o ran arwain gweithgareddau argyfyngau sifil posibl a'u cydgysylltu a'u rheoli ar lefel uwch.

17 **Mae gormod o grwpiau cynllunio at argyfwng ac atebolrwydd aneglur yn ychwanegu aneffeithlonrwydd at fframwaith cydnerthu sydd eisoes yn gymhleth.** Mae'r strwythur cydnerthu presennol yn debyg i'r strwythur yn Lloegr, gyda fforymau lleol Cymru gydnerth yn seiliedig ar ffiniau heddluoedd a phob ymatebydd Categori Un â'i alluoedd cynllunio at argyfwng ei hun[16]. Yn ein barn ni, mae'r strwythur presennol yn arwain at aneffeithlonrwydd yn lleol, cymhlethdod diangen ac atebolrwydd aneglur, ac mae'n fframwaith aneffeithiol ar gyfer cydnerthedd yng Nghymru. Cytunwn hefyd ag Adolygiad Simpson, sef bod angen dybryd i gynnal adolygiad sylfaenol o wasanaethau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol.

16 Ar hyn o bryd, mae tri thîm cynllunio at argyfwng awdurdod lleol ar y cyd yng Nghymru: Cynghorau Abertawe/Castell-nedd Port Talbot; Rhondda Cynon Taf/Merthyr Tudful a Sir y Fflint/Sir Ddinbych.



18 Mae trefniadau adrodd cymhleth yn arwain at ddryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau a sefydliadau cynllunio at argyfwng niferus. Mae'r cymhlethdod hwn yn peri'r risg o wahanu gweithgarwch cydnerthu gyda gorgyffwrdd neu fylchau posibl mewn trefniadau cydnerthu.

19 Mae gormod o dimau cynllunio at argyfwng[17] islaw lefel fforymau lleol Cymru gydnerth ac, yn arbennig yn achos awdurdodau lleol, gadewir i lawer o dimau cynllunio at argyfwng wneud beth bynnag a fynnont heb fawr ddim canllawiau corfforaethol. Mae Adolygiad Simpson yn darparu catalydd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac yn arbennig Llywodraeth Cymru, adolygu a rhesymoli'r trefniadau sefydliadol ar gyfer cynllunio at argyfwng. Mae diwylliannau gwahanol yn golygu na fydd y broses bontio yn hawdd, ond mae eisoes enghreifftiau o ad-drefnu tebyg yn digwydd yng Ngogledd Cymru ac mewn sawl ardal o Loegr, yn cynnwys Swydd Lincoln.

20 Mae gan rai fforymau lleol Cymru gydnerth nifer fawr o is-grwpiau o hyd a gwelsom fod gan bob grŵp amcanion, allbynnau a threfniadau rheoli perfformiad gwahanol. Credwn hefyd y gall y ffaith bod llawer o swyddogion cynllunio at argyfwng ar wahân i arweinyddiaeth arferol a strategol gyfrannu at aneffeithlonrwydd a dulliau gweithredu anghyson sydd i'w gweld o fewn awdurdodau lleol ac yng ngweithgareddau'r is-grwpiau sy'n gwasanaethu fforymau lleol Cymru gydnerth.

## Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru am yr adnoddau y mae'n eu neilltuo i sicrhau cydnerthedd ond mae cwmpas clir i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

21 **Ni chaiff arian ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng ei flaenoriaethu'n ddigonol i'r meysydd â'r risg fwyaf, ac mae graddau'r costau a'r gwerth am arian yn aneglur.** Dim ond un rhan o ddatblygu cydnerthedd yw cynllunio at argyfwng ond bob blwyddyn mae cynllunio at argyfwng yn unig yn costio tua £4 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru. I'r sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth ddatblygu cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau, gall fod yn anodd gwahaniaethu'r gost. Er enghraifft, mae gwasanaethau brys yn honni bod datblygu cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau yn cynnwys eu holl weithgareddau. Gyda chyn lleied o wybodaeth am wariant, mae'n anodd pennu a gaiff gwerth am arian ei gyflawni, neu gael y sicrwydd angenrheidiol bod arian yn cael ei wario'n ddoeth.

22 Mae awdurdodau lleol yn ariannu eu gwasanaethau cynllunio at argyfwng drwy'r Grant Cymorth Refeniw, sef grant sy'n seiliedig ar boblogaeth breswyl. Fodd bynnag, pan fydd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu sut maent yn defnyddio'r arian grant hwn er mwyn cynllunio at argyfwng ni roddir digon o ystyriaeth i debygolrwydd a chanlyniadau risgiau a wynebir o naill ai ffynonellau lleol, megis diwydiant, neu effeithiau lleol argyfyngau cenedlaethol megis clwy'r traed a'r genau.

23 Mae'r angen am arbedion effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus yn debygol o effeithio ar gynllunio at argyfwng a chydnerthedd. Nid yw awdurdodau lleol yn neilltuo arian ar gyfer cynllunio at argyfwng sy'n golygu y gallent ddefnyddio'r arian hwn mewn meysydd

17 Cydnabyddwn nad oes gan lawer o awdurdodau lleol 'dîm' cynllunio at argyfwng ond mae ganddynt adnoddau cyfyngedig iawn a ddarperir gan unigolyn, neu cyflawnir y swyddogaeth hon fel rhan o sawl swydd.

gwasanaeth eraill. Gwnaethom hefyd ddod i'r casgliad bod cyfyngiadau cyllidebol yn golygu ei bod yn dod yn fwyfwy anodd i ymatebwyr sicrhau lefel gynaliadwy o arian ar gyfer gweithgareddau cyd-nerthu ar y cyd. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys hyfforddiant ac ymarferion, ac maent yn dibynnu ar gytundebau anffurfiol ar gyfer arian rhwng sefydliadau.

24 **Efallai nad y defnydd presennol o adnoddau dynol fydd y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau.** Mae bron pob ymatebydd Categori Un yn gweithredu tîm cynllunio at argyfwng. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwyllo bod adnoddau dynol wedi'u lleoli yn y man cywir, eu bod ar gael yn y niferoedd cywir, eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir, a'u bod wedi'u grymuso i gyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau a ddisgwylir ganddynt. Mae amheuaeth hefyd ynghylch y trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar sgiliau hanfodol neu feithrin y sgiliau a'r galluoedd hynny o fewn llwybr gyrfa y gellir ei nodi. Mae'r canllawiau ar gymhwysedd swyddogion cynllunio at argyfwng a lefel yr adnoddau dynol sydd eu hangen yn anffurfiol ac nis rhoddir ar waith ledled Cymru. Yn gryno, ni allwn ddweud yn hyderus bod y sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni cydnerthedd effeithiol ar gael yn hawdd.

25 Rhannwn y pryder a fynegwyd yn Adolygiad Simpson ynghylch y diffyg màs critigol ar gyfer cynllunio at argyfwng. Down i'r casgliad, oherwydd bylchau a gorgyffwrdd posibl, na allwn fod yn hyderus y caiff adnoddau dynol eu defnyddio'n effeithlon neu eu bod yn cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau. Hefyd, ymddengys fod trefniadau presennol ar gyfer rheoli gwybodaeth yn anffurfiol ac yn dibynnu i raddau helaeth ar gysylltiadau lleol a rhwydweithio lleol yn hytrach na manteisio i'r eithaf ar dechnoleg gyfathrebu fodern.

26 **Heb drosolwg cenedlaethol o effeithiolrwydd asedau ffisegol ar gyfer ymateb i argyfwng, ni ellir gwarantu eu hargaeledd, eu cynnal a'u cadw na'u gweithredu.** O'n trosolwg o'r trefniadau, ni allem ddod o hyd i ddull cyson o reoli asedau. Mae pob ymatebydd Categori Un yn gyfrifol am gynnal a chadw a gweithredu eu hasedau, megis cyfarpar diogelu personol, a'r hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni gweithgarwch argyfwng gyda chyfarpar megis cyfarpar anadlu. Nid oes darlun cenedlaethol[18] yng Nghymru o leoliad, argaeledd, na chynnal a chadw'r rhain nac asedau eraill.

27 Gwnaethom hefyd nodi nad oedd tybiaethau ynghylch asedau ffisegol a chyfathrebu, a welir mewn cynlluniau argyfwng ac y dibynnir arnynt mewn argyfwng, wedi'u profi. Dengys profiad yn dilyn adolygiadau ôl-ddigwyddiad fod diffyg mynediad i seilwaith, megis canolfannau rheoli digwyddiadau neu ganolfannau gorffwys dynodedig, yn eithaf cyffredin ond nid oedd llawer o gynlluniau'n cydnabod y risg hon. Hefyd, bydd rhai rheolwyr nad ydynt yn ymwybodol bod cynlluniau argyfwng yn nodi eu cyfleusterau fel canolfannau gorffwys ac nid ydynt yn barod am yr amharu a achosir gan y defnydd hwn. O ganlyniad, mae rhai cynlluniau argyfwng yn hen ac yn annibynadwy.

28 **Nid yw ymatebwyr Categori Un yn gyson o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau a gynigir gan y sector gwirfoddol i feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau.** Ar hyn o bryd, nid yw'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan ffurfiol yn Fforwm Cymru Gydnerth, er bod y sector yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Cymunedol Cymru Gydnerth. Mae'r graddau y mae'r sector

18 Mae lleoliad ac argaeledd cyfarpar 'Dimensiwn Newydd' o fewn gwasanaethau tân ac achub yn eithriad yn hyn o beth.



gwirfoddol yn ymgysylltu ar lefel ranbarthol hefyd yn amrywio ond ceir rhai enghreifftiau o ymgysylltu mewn fforymau lleol Cymru gydnerth ac ar lefel awdurdod lleol unigol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o'r fath ac mae'r graddau y mae ymatebwyr yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn ddarniog. Mae cyfraniad posibl sefydliadau'r sector gwirfoddol yn sylweddol, ac maent am weld mwy o gysondeb o ran y rhan y maent yn ei chwarae mewn argyfwng. Mae sefydliadau'r sector gwirfoddol o'r farn mai prin yw dealltwriaeth rhai ymatebwyr Categori Un o'u cyfraniad posibl, sy'n golygu y gallant fod yn adnodd nas defnyddir yn effeithlon.

## Mae'r ffordd y mae ymatebwyr Categori Un yn mynd ati i weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn anghyson ac nid yw ymatebwyr yn monitro eu gweithgareddau'n effeithiol

29 **Mae'r ffordd y caiff risg ei hasesu ledled Cymru yn anghyson, sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud cymhariaeth.** Mae pob fforwm lleol Cymru gydnerth yn llunio cofrestr risg gymunedol sy'n asesiad o'r risg allanol yn ei ardal. Er gwaethaf canllawiau yn Rhaglen Wella'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl,[19] nid ymddengys fod un ffordd gyffredin o gynnal asesiad risg. Byddai mwy o gysondeb rhwng asesiadau risg lleol yn galluogi Fforwm Cymru Gydnerth i feddu ar drosolwg mwy hyddysg, gan asesu anghenion o ran adnoddau yn fwy cywir yn erbyn capasiti presennol. Fodd bynnag, nid oes gan Fforwm Cymru Gydnerth yr awdurdod statudol i arfer y trosolwg hwn nac i weithredu.

30 Mae perchenogaeth gymunedol o risgiau yn hanfodol i lwyddiant cynllunio cydnerthedd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gall cofrestrau risg cymunedol fod yn anodd eu deall, gan greu rhwystr i helpu i feithrin gwybodaeth y cyhoedd. Yn hytrach na rhestru risgiau unigol o fewn cofrestrau risg cymunedol, gallai dulliau gwahanol o reoli risgiau megis 'cynllunio canlyniadau' ar sail sefyllfa greu ymateb mwy integredig i ganlyniadau argyfwng, sy'n aml yn amrywiol.

31 Mae Fforwm Cymru Gydnerth wedi llunio cynllun busnes ond dim ond trosolwg ac asesiad risg lefel uchel iawn a ddarperir ganddo. Nid yw'r ddogfen yn cynnig unrhyw asesiad lleol nac yn ceisio gwella ansawdd na chysondeb cofrestrau risg lleol.

32 **Mae gan ymatebwyr Categori Un gynlluniau argyfwng ond nid yw gweithdrefnau yn gyson ac mae'r ansawdd yn amrywio, a gallai hyn effeithio ar eu gwerth mewn argyfwng.** Dangosodd ein hadolygiad nad yw'r rhan fwyaf o gynlluniau argyfwng yn cydymffurfio'n llawn â'r cynnwys gofynnol a nodir mewn canllawiau statudol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau'n rhy gymhleth ac maent yn cynnwys hen wybodaeth gan gynnwys cyfeiriadau at ddeddfau seneddol a rheoliadau sydd eisoes wedi'u diddymu. Hefyd, nid yw cynlluniau argyfwng yn defnyddio systemau gwibnegeseua, megis Twitter, a all ddosbarthu gwybodaeth yn gyflym mewn argyfwng. Ni wnaethom lwyddo i ddod o hyd i dystiolaeth o broses gadarn a rheolaidd a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd, cyflawnrwydd a chysondeb mewn cynlluniau argyfwng.

33 **Ceir enghreifftiau da o ymarferion a hyfforddiant er nad yw cam adfer argyfyngau wedi'i brofi i raddau helaeth ac mae pwysau ariannol yn debygol o effeithio ar y graddau y cynhelir profion yn y dyfodol.** Ceir enghreifftiau da o ymarferion a hyfforddiant lleol a chenedlaethol ledled Cymru. Fodd bynnag, yn 2009, nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, ledled Cymru a Lloegr, fod dros 40 y cant o gynlluniau argyfwng heddluoedd heb gael eu profi gan ymarferion, a dim ond 50 y cant o heddluoedd sydd wedi ail-werthuso eu

19 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness*, Pennod 4: *Local responder risk assessment duty*, Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012

cynlluniau yn dilyn ymgyrchoedd amser real. Mae ein hadolygiad yn tynnu sylw at fwlch penodol wrth brofi cam adfer argyfyngau.

34 Gall ymarferion fod yn ddrud yn aml ac mae'r broses o'u hariannu yn debygol o ddod yn anos wrth i sefydliadau ledled Cymru wynebu'r angen i wario llai. Mae Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru yn bwriadu cydamseru hyfforddiant ac ymarferion ar draws fforymau lleol Cymru gydnerth yng Nghymru, a thrwy hynny leihau costau. Gallai'r broses genedlaethol o gynnal hyfforddiant ac ymarferion, fel yr awgrymwyd yn Adolygiad Simpson, fod yn fwy effeithlon, costeffeithiol ac yn fwy cydnaws â'r risgiau a nodwyd yng Nghymru.

35 **Ar y cyfan, mae'r gwaith o graffu ar weithgarwch cydnerthu a rheoli perfformiad yn y maes hwnnw yn aneffeithiol.** Gan nad oes un sefydliad yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yng Nghymru, prin y caiff y broses weithredu ei hadolygu a'i goruchwylio mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'r broses o graffu ar drefniadau yn lleol yn amrywio'n eang. Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau ddefnyddio ei set disgwyliadau[20] i'w helpu i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain. Mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet hefyd yn nodi y dylai holl ymatebwyr Categori Un, fel aelodau o fforwm lleol Cymru gydnerth, gymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain.[21] Defnydd bach iawn a welwyd o'r set disgwyliadau, gyda rhai ymatebwyr ddim yn adnabod y ddogfen neu ddim o'r farn bod hunanasesiad yn rhan o'u cylch gwaith.

36 Nid yw'r fframwaith rheoli perfformiad yng Nghymru yn ddigon cadarn am nad oes fawr ddim craffu na hunanasesu i werthuso effaith a chanlyniadau gweithgarwch cydnerthu ledled Cymru. O ganlyniad, nid yw llawer o'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth gynllunio at argyfwng a meithrin cydnerthedd yn cyflawni eu holl gyfrifoldebau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

37 Cyfyngir gwybodaeth am y graddau y mae ymatebwyr wedi paratoi i fframwaith gwirfoddol o hunanasesu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd llawer o ymatebwyr Categori Un yn cyflawni'r lefel o hunanasesu a chraffu a ddisgwylir yn y canllawiau sy'n ategu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Gallai newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dynladdiad corfforaethol ac iechyd a diogelwch roi ymatebwyr Categori Un a Dau mewn mwy o berygl o gael eu herlyn os nad ydynt yn sicrhau eu hunain y gallant fodloni disgwyliadau o ran eu perfformiad yn ystod argyfyngau.

20 *Expectations and Indicators of Good Practice Set for Category 1 and 2 Responders,* Swyddfa'r Cabinet, Rhagfyr 2010

21 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 13*: Support and challenge,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012



# Argymhellion

38 Ym mis Rhagfyr 2011, ymrwymodd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ranbartholi gwasanaethau cynllunio at argyfwng ymhen dwy flynedd a, lle y bo'n ymarferol, i gynnwys y partneriaid eraill ar sail amlasiantaethol ymhen pedair blynedd. Cytunwn â hyn ac nid ailadroddir yr argymhelliad yma, ond nodwn yr angen i wneud mwy o gynnydd ac i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub chwarae mwy o ran.

39 Pan fo angen, mae trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl wedi gweithio'n foddhaol hyd yma. Fodd bynnag, mae ein hastudiaeth wedi nodi cryn gwmpas o fewn y trefniadau hyn am well eglurder, cysondeb ac ansawdd. O ystyried y canfyddiadau hyn, nid ydym yn hyderus bod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi sefydlu fframwaith digon cryf, effeithlon ac effeithiol i wella cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau.

40 Mae cyfyngiadau deddfwriaeth nad yw'n ddatganoledig yn cyfyngu ar yr argymhellion y gallwn eu gwneud. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet yn aelodau o Fforwm Cymru Gydnerth, sy'n lle delfrydol o fewn y strwythur cydnerthu i fwrw trosolwg ar weithgareddau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru.

41 Yn ein barn ni, byddai cyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn cael budd o weld Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Swyddfa'r Cabinet i atgyfnerthu'r gwaith strategol o oruchwylio trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl ledled Cymru. Dylai'r fath oruchwylio gynnwys hwyluso trefniadau rheoli perfformiad cryfach a mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd.

**A1 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Swyddfa'r Cabinet i gytuno ar sut i atgyfnerthu'r gwaith strategol o oruchwylio'r broses o gyflawni deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Dylai hyn gwmpasu:**

- asesu'r gwaith o gynllunio cydnerthedd o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gyda'r amcan o sicrhau gwell effeithlonrwydd, cysondeb ac ansawdd;
- monitro safonau cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer swyddogion cynllunio at argyfwng;
- tawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd yng Nghymru o ran gwaith paratoi effeithiol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, ynghyd â'u rheoli ac adfer y sefyllfa wedyn;
- parhau i: wella mynediad i wybodaeth i ymatebwyr; hyrwyddo'r broses o rannu a defnyddio arfer da a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gyflawni deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl; a threfnu a chydgysylltu hyfforddiant, ymarferion ac ymchwil.

42 Gydag ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau yn atebol am gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet *Emergency Preparedness*[22] yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r sefydliadau hyn gymryd perchenogaeth o'u perfformiad a bod yn gyfrifol amdano. Yn arbennig, mae'r canllawiau yn disgwyl i ymatebwyr Categori Un ddefnyddio arfer da presennol ym maes rheoli perfformiad a chynnal adolygiadau ac archwiliadau i asesu perfformiad. Dylai ymatebwyr Categori Un dawelu meddyliau bod eu systemau, cynlluniau a phrosesau yn addas at y diben. Fodd bynnag, gwelsom fod arfer da presennol ym maes rheoli perfformiad yn cael ei weithredu'n anghyson a phrin y defnyddiwyd yr adnoddau craffu neu hunanasesu perfformiad a ddarparwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Roedd ein canfyddiadau o ran rheoli perfformiad yn cyfeirio'n gryf at ein

22 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 13*: Support and challenge,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012

casgliad na allwn fod yn siŵr bod trefniadau'n effeithlon, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau nac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

**A2** **Argymhellwn y dylai pob ymatebwr Categori Un gymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb am ei berfformiad yn unol â gofynion canllawiau statudol Swyddfa'r Cabinet, *Emergency Preparedness.***

Wrth fodloni'r gofynion hyn, disgwyliwn i holl ymatebwyr Categori Un allu dangos, gan gynnwys drwy hunanasesu, craffu ac adolygu allanol, fod eu trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn effeithlon, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn dangos cydymffurfiaeth lawn â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

43 Mae ein hastudiaeth wedi nodi anghysondebau yn y cynlluniau argyfwng a luniwyd gan ymatebwyr Categori Un. Nifer fechan iawn o gynlluniau a oedd yn cyrraedd y safonau gofynnol a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac roedd cynlluniau yn wan o ran egluro rolau mewn argyfwng, er enghraifft, i aelodau etholedig, y crwner a'r sector gwirfoddol. Nid oedd ymarferion a hyfforddiant yn ategu nac yn profi llawer o gynlluniau argyfwng. Er na ddylai pob cynllun argyfwng fod yr un peth, oherwydd amrywiadau lleol a risgiau gwahanol, mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet, Emergency Preparedness, yn darparu fframwaith i sicrhau bod cynlluniau argyfwng yn cyrraedd y safonau gofynnol a'u bod yn addas at y diben.

**A3** **Argymhellwn y dylai ymatebwyr Categori Un sefydlu cylch adolygu ar gyfer pob cynllun argyfwng er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson, yn cael ei brofi'n gadarn yn erbyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet ac yn addas at y diben. Yn arbennig, dylai cynlluniau argyfwng:**

- gael eu gwerthuso'n rheolaidd yn erbyn set disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet;
- gael eu hategu gan hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys ar gyfer y cam adfer ac effeithiau tymor hwy digwyddiadau mawr;
- bod yn destun craffu ac adolygu allanol, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

44 Nodwyd gennym nad yw rhai cofrestrau risg cymunedol yn galluogi'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth am holl ganlyniadau'r risgiau a all effeithio arnynt yn hawdd. Ceir enghreifftiau o gofrestrau risg cymunedol a luniwyd gan rai fforymau lleol Lloegr gydnerth sydd wedi'u cynllunio i roi gwybodaeth glir i'r cyhoedd am y camau y mae ymatebwyr yn debygol o'u cymryd mewn argyfwng. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn egluro'r camau y gall aelodau'r cyhoedd eu cymryd i wella eu cydnerthedd eu hunain.

**A4** **Argymhellwn y dylai ymatebwyr Categori Un, drwy eu fforymau lleol Cymru gydnerth, sicrhau bod eu cofrestrau risg gymunedol yn nodi'n glir holl ganlyniadau pob un o'r risgiau a nodwyd. Yn arbennig, dylai cofrestrau risg cymunedol:**

- fod yn seiliedig ar ganllawiau ac arfer da;
- bod yn hawdd eu deall;
- rhoi cyngor syml ar y camau y gall y cyhoedd eu cymryd i amddiffyn eu hunain.



45 Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau ariannu ar gyfer fforymau lleol Cymru gydnerth yn anffurfiol ac yn dibynnu ar gyfraniad gwirfoddol aelod sefydliadau. Gall hyn arwain at bwysau ariannol, yn arbennig o ran cynllunio gwaith ar gyfer hyfforddiant, meithrin adnoddau a'r ymarferion sydd eu hangen i brofi cynlluniau argyfwng. Mae Tîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd wedi datblygu methodoleg fwy ffurfiol er mwyn helpu fforymau lleol Cymru gydnerth i bennu eu cyllid gan ymatebwyr, ond darniog yw'r defnydd o'r canllawiau hyn.

**A5 Argymhellwn y dylai ymatebwyr Categori Un ddefnyddio'r canllawiau ariannu mwy ffurfiol a luniwyd gan Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer fforymau lleol Cymru gydnerth.**

46 Daw'r rhan fwyaf o'r arian a gaiff awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio at argyfwng o Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, wrth ddyrannu'r grant hwn, y prif benderfynydd wrth gyfrifo lefel yr arian yw'r boblogaeth breswyl. Gallai ad-drefnu gwaith cynllunio at argyfwng fod yn gyfle i ymatebwyr Categori Un ystyried tebygolrwydd a chanlyniadau posibl risgiau a wynebir ganddynt wrth flaenoriaethu'r defnydd o'r arian hwn.

**A6 Argymhellwn y dylai ymatebwyr Categori Un ystyried tebygolrwydd a chanlyniadau posibl risgiau a wynebir yn eu hardaloedd wrth flaenoriaethu'r defnydd o adnoddau ar gyfer cynllunio at argyfwng.**

47 Nododd ein hastudiaeth hefyd rai sefydliadau, megis yr Heddlu Niwclear Sifil ac asiantaethau iechyd anifeiliaid, sydd â rôl glir ym maes cydnerthedd ond nad ydynt yn ymatebwyr Categori Un na Chategori Dau. Hefyd, nid yw rhai ymatebwyr Categori Dau cydnabyddedig, gan gynnwys sefydliadau trafnidiaeth megis asiantaethau cefnffyrdd, gweithredwyr trenau, gweithredwyr meysydd awyr ac awdurdodau harbwr wedi'u cynnwys yn y fframwaith argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Yn ein barn ni, mae'n bwysig i Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth ymgysylltu â'r sefydliadau hyn a'u cynnwys mewn partneriaethau cydnerthu.

**A7 Argymhellwn y dylai ymatebwyr Categori Un, drwy Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth, sicrhau bod digon o gynrychiolaeth gan yr holl sefydliadau sy'n chwarae rhan sylweddol ym maes cydnerthu neu wrth ymateb i argyfwng ac y cyfathrebir â hwy.**

48 Gall y sector gwirfoddol wneud cyfraniad mwy sylweddol at y gwaith o reoli argyfyngau'n llwyddiannus. Hefyd, nid yw'r sector gwirfoddol yn rhan o Fforwm Cymru Gydnerth, ac mae cyfranogiad grwpiau a sefydliadau o'r sector gwirfoddol mewn fforymau lleol Cymru gydnerth yn amrywio ledled Cymru. Mae'n bosibl bod y sector gwirfoddol yn adnodd nas defnyddir yn ddigonol, a byddai'r gwaith o reoli argyfyngau yn cael budd o gyfranogiad mwy ffurfiol a chydgysylltiedig sefydliadau gwirfoddol.

**A8 Argymhellwn y dylai'r sefydliadau sy'n meithrin cydnerthedd ac yn rheoli argyfyngau gydnabod yn ffurfiol gyfraniad posibl y sector gwirfoddol, ac y dylai'r sector gwirfoddol ddod yn rhan integredig o'r cynlluniau argyfwng a gaiff eu llunio gan ymatebwyr Categori Un.**

# Rhan 1 – Mae llawer o'r trefniadau i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn gweithio'n dda ond mae rôl Llywodraeth Cymru yn aneglur ac mae cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon wrth gyflawni'n lleol

**1.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn trafod y pwerau a'r strwythurau sy'n pennu'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynllunio at argyfwng. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn ystyried rolau ac atebolrwydd, arweinyddiaeth, a chysondeb ac effeithlonrwydd y camau gweithredu a gymerir.

## Nid yw trefniadau arwain cymhleth wedi atal Llywodraeth Cymru rhag rhoi cymorth effeithiol i'r partneriaid sy'n cyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

### Mae trefniadau i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi gweithio'n dda wrth ymateb i rai argyfyngau mawr diweddar

**1.2** Gwelsom enghreifftiau lle mae cydweithredu agos rhwng sefydliadau sy'n gyfrifol am Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi arwain at ymateb hynod effeithiol i argyfyngau mawr diweddar yng Nghymru. Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r sefydliadau sydd wedi ymateb mewn argyfwng wedi dangos yn glir eu gallu i gydweithredu wrth gynllunio at argyfwng ac ymateb yn effeithiol.

**1.3** Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymateb effeithiol a medrus iawn gan y bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau mawr. Yn arbennig, nodwn ymateb cymwys iawn Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i ystod eang o argyfyngau, gan gynnwys:

**a** Trychineb Glofa'r Tarenni Gleision yng Nghwm Tawe ym mis Medi 2011, lle cafwyd llifogydd mewn rhan o'r gloddfa ddrifft fechan hon ar ôl i wal gwympo. Mewn ymateb amlasiantaethol mawr a gafodd sylw'r wasg ar draws y byd, achubwyd sawl un o'r glowyr ond bu farw pedwar ohonynt er mawr tristwch. Roedd yr ymateb arbenigol yn cynnwys y Gwasanaeth Achub Mwyngloddiau Cyfyngedig a glowyr o gymunedau cyfagos.

**b** Y llong gargo MV Carrier a aeth ar lawr yn Llanddulas, ger Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru mewn dyfroedd stormus ym mis Ebrill 2012. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gydag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub er mwyn awyrgludo saith aelod o'r criw ac atal olew nwy morol rhag dianc i'r cynefinoedd gwerthfawr yn y rhan hon o ardal gwarchodaeth arbennig Bae Lerpwl.

**c** Ffrwydrad ym mhurfa olew Chevron yn Sir Benfro ym mis Mehefin 2011 a wnaeth hefyd ladd pedwar, ond hefyd beryglu llawer mwy o fywydau. Ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r sefydliadau eraill a wnaeth ymateb, gan gynnwys timau tân ac achub arbenigol o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chevron, yn effeithiol â'r ddamwain ddiwydiannol ddifrifol hon.



**1.4** Ceir hefyd rai enghreifftiau nodedig eraill o ymateb effeithiol i argyfwng, gan gynnwys yr amodau tywydd andwyol yn ystod gaeafau garw 2009-10 a 2010-11, a'r llifogydd yng Nghanolbarth Cymru yn ystod haf 2012. Mae'r tân yn y depo gwastraff teiars yn Abertawe ym mis Mehefin 2011 a'r cerbydau a aeth ar dân yn nhwnnel Brynglas ar yr M4 (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) yn enghreifftiau pellach o natur amrywiol argyfyngau. Mae natur yr argyfyngau gwahanol iawn hyn a'r camau a oedd eu hangen er mwyn eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol yn dangos yr amryw ymatebion y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner ddarparu ar eu cyfer. Gyda'i gilydd, rhydd yr enghreifftiau hyn dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau sydd wedi ymateb wedi bod yn fedrus iawn o ran cymryd yr holl gamau a oedd eu hangen i ymateb yn effeithiol i argyfyngau mawr yng Nghymru.

## Mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar rai agweddau ar argyfyngau sifil posibl sy'n ymddangos fel petai'n mynd yn groes i'w rôl statudol

**1.5** Nid oes gan Gymru bwerau datganoledig o ran argyfyngau sifil posibl ac nid yw Llywodraeth Cymru yn sefydliad ymateb Categori Un, felly nid yw'n atebol am weithredu na gorfodi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi ein hysbysu ei bod o'r farn bod deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl yn glir; nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl benodol, er yn ymarferol, ac yn ei chanllawiau, mae'n cydnabod rôl i Lywodraeth Cymru. Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol o ran goruchwylio argyfyngau sifil posibl nac o ran rheoli unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad sy'n codi gydag ymatebwyr. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gyfrifoldebau swyddogaethol cyffredinol am weithgareddau awdurdodau lleol, cyrff iechyd a'r gwasanaeth tân ac achub, ond nid yw'r cyfrifoldebau hyn yn cwmpasu'n benodol weithgareddau argyfyngau sifil posibl y sefydliadau hyn.

**1.6** Yn ôl canllawiau gan Swyddfa'r Cabinet, rôl ei Hysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl[23] yw goruchwylio gweithgarwch cydnerthu a'i gydgysylltu'n drawsbynciol ar lefel genedlaethol [hynny yw y Deyrnas Unedig][24]. Serch hynny, mae dogfen gyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet *Emergency Preparedness*[25] hefyd yn nodi disgwyliad i Lywodraeth Cymru ymwneud ag agweddau ar waith amddiffyn sifil ac, o ganlyniad, chwarae rhan gydgysylltu bwysig.[26] Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd yn disgwyl i Dîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru arwain y gwaith cydgysylltu ar lefel Cymru gyfan er mwyn gweithredu fel cyswllt â Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill Whitehall a hwyluso grwpiau galluoedd Cymru gyfan[27]. Fodd bynnag, ymddengys fod Cynllun Busnes Fforwm Cymru Gydnerth 2010-11, a drafodir yn fanylach yn Rhan 3, yn gwrthddweud hyn, gan nodi bod rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio at argyfwng yn cynnwys trosolwg llawn o sefyllfaoedd bregus a risgiau posibl sy'n bygwth cymdeithas. Mae'r rhybudd cenedlaethol diwethaf ynghylch ffliw yn 2010 yn enghraifft diweddar lle derbyniodd Llywodraeth Cymru y rôl drosolwg hon.

**1.7** Mae disgwyliad rhesymol ymhlith y sector cyhoeddus a dinasyddion mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain yn ystod argyfyngau mawr sy'n effeithio ar Gymru. Un enghraifft lle mae hyn eisoes wedi digwydd yw rôl Llywodraeth Cymru ac ymyrraeth arweiniol y

23 Mae'r Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl yn adran o Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

24 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness*, Pennod 13; *Support and challenge*, Adran 13.33 ar rôl yr haen genedlaethol wrth gefnogi cynlluniau argyfyngau cenedlaethol, Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012

25 *Emergency Preparedness* – Canllawiau ar Ran 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ei Rheoliadau cysylltiedig a threfniadau anstatudol.

26 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 11: *Wales*, Canllaw ar Ran 1 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Swyddfa'r Cabinet, Hydref 2011

27 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 13*; Support and challenge,* Tudalen 14, Paragraff 13.29, Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012. Mae Partneriaeth Cymru Gydnerth yn hwyluso'r Rhaglen Alluoedd yng Nghymru.

Prif Weinidog adeg argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. Roedd disgwyliad eang hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ganolog ac arweiniol mewn argyfyngau cynnal a chadw yn ystod y gaeaf a phrinder tanwydd mwy diweddar. Yn y ddau achos, gwnaeth Llywodraeth Cymru arwain a chydgysylltu'n strategol ymateb effeithiol y sector cyhoeddus i'r argyfyngau hyn.

**1.8** Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod ganddi rôl i ddarparu arweinyddiaeth reolaidd a goruchwyliaeth strategol na rheoli perfformiad ymatebwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn dehongli ei rôl o ran argyfyngau sifil posibl fel un sy'n cefnogi ymatebwyr, drwy gydgysylltu grwpiau a phartneriaethau ymatebwyr. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llofnodi cytundeb i ranbartholi'r gwaith o gynllunio at argyfwng. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu arweinyddiaeth yn hytrach na rôl gefnogol. Yn hyn o beth, credwn fod Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni rôl arwain effeithiol ar gyfer rhai materion nad ydynt yn argyfwng.

**1.9** Rydym wedi dod i'r casgliad, pan y'u hystyrir gyda'i gilydd, nad yw'r ddeddfwriaeth na chanllawiau a disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet yn adlewyrchiad cywir o rôl bresennol Llywodraeth Cymru ym maes argyfyngau sifil posibl. Mae cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer arweinyddiaeth arferol a chydgysylltu argyfyngau sifil posibl yn arbennig o aneglur. Hefyd, mae'r disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu peth arweinyddiaeth arferol i'r sefydliadau sy'n atebol am argyfyngau sifil posibl yn ddryslyd o bosibl, am nad yw'n ymddangos bod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn grymuso Llywodraeth Cymru yn y ffordd hon.

## Mae diffyg eglurder o ran y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**1.10** Dywed Swyddfa'r Cabinet y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddatblygu polisi amddiffyn sifil. Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol, yn cydweithredu wrth gyflawni'r fframwaith argyfyngau sifil posibl, yn rhoi cyngor ar hynny neu'n cymryd cyfrifoldeb amdano ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig.[28]

**1.11** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar goncordat[29] â Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n egluro rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru mewn argyfwng. Mae'r concordat yn nodi'n glir, mewn meysydd â phwerau datganoledig, y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan arweiniol wrth ymateb i argyfyngau mawr[30]. Fodd bynnag, nid yw'r concordat yn gymwys i drefniadau amddiffyn sifil lleol o dan Ran 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, sydd a wnelo â'r gwaith mwy cyffredin o gydgysylltu gweithgareddau nad ydynt yn argyfwng yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym pan mae wedi arwain y blaen ar adeg nad oedd yn argyfwng mawr, gwnaed hyn am fod angen i rywun ddangos arweinyddiaeth, yn hytrach nag oherwydd unrhyw hawl sydd ganddi i'r rôl hon.

28 *Emergency Preparedness (Wales)*, Fersiwn Diwygiedig Hydref 2011

29 *Concordat rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004* (nid oes dyddiad i'r ddogfen). Nid yw'r concordat hwn yn cwmpasu Rhan 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

30 *Concordat rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004*, paragraff 11 ar ddefnydd Llywodraeth (Cynulliad) Cymru o bwerau argyfwng.



**1.12** Cawn ein hannog bod Llywodraeth Cymru wedi dehongli ei rôl mewn perthynas ag argyfyngau sifil arferol a chydnerthedd fel un rhagweithiol, wrth ymgysylltu a hyrwyddo a chefnogi cydnerthedd. Yn arbennig, mae Tîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru wedi bod yn fentor effeithiol ac yn gyfaill hollbwysig i ymatebwyr Categori Un ac ymatebwyr eraill fel rhan o ymgyrch ehangach i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**1.13** Fodd bynnag, ymddengys i ni mai dim ond rhoi cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w wneud, yn hytrach na chydgysylltu gweithgareddau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru fel mater o drefn. I ni, mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru a'i Thîm Cydnerthu yn cynnig lefel amrywiol o gefnogaeth i'r sefydliadau sy'n gorfod cynllunio at argyfwng ac ymateb iddo. Mae'r fath gymorth yn amrywio o gefnogaeth oddefol i waith cydgysylltu mwy gweithredol a, lle y bo angen, arweinyddiaeth glir. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud iawn am ddiffyg pwerau datganoledig a ffocws atebolrwydd sydd ar lefel ymatebwyr yn unig.

**1.14** Heb rywfaint o eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, mae'r llinellau cyfathrebu o fewn y fframwaith cydnerthu a'r rhwydwaith o bartneriaethau hefyd yn dod yn fwyfwy darniog ac o bosibl yn fwy dryslyd. Felly, mae'r sefydliadau gwahanol niferus sydd ynghlwm wrth reoli argyfyngau sifil posibl yn troi at amrywiaeth o gyrff llywodraethol am arweinyddiaeth, cyngor a chanllawiau, sy'n cymhlethu pethau, yn enwedig ar adeg ddwys o argyfwng.

**1.15** Un enghraifft o ohebiaeth ddryslyd yw bod Llywodraeth Cymru yn cael canllawiau gan Swyddfa'r Cabinet drwy Fwletin Porth Cydnerthu, yn ychwanegu unrhyw ddimensiwn Cymreig angenrheidiol ac yn rhoi hyn i ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau. Mae'r bwletin hwn yn cynnwys deunydd 'er gwybodaeth yn unig' yn ogystal â materion lle mae angen 'gweithredu' neu a gaiff eu categoreiddio'n faterion 'brys'. Hefyd, caiff ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau wybodaeth a chanllawiau ar argyfyngau sifil posibl yn uniongyrchol oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil wrth Gefn o fewn Swyddfa'r Cabinet drwy'r Allrwyd Cydnerthu Cenedlaethol. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru hefyd yn cael cyngor a chanllawiau gan y Swyddfa Gartref.

**1.16** Mae canllawiau ychwanegol a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl Swyddfa'r Cabinet[31] yn cadarnhau mai nod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yw darparu fframwaith cyffredin ar gyfer gwaith diogelu sifil yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain'. Mae Deddf Argyfyngau Sifil 2004 yn anelu at wneud y canlynol:

- **a** pennu set glir o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymatebwyr lleol;
- **b** rhoi mwy o strwythur a chysondeb i weithgareddau amddiffyn sifil lleol;
- **c** pennu sail gadarn i waith rheoli perfformiad yn lleol.

**1.17** Ar hyn o bryd, mae ymatebwyr Categori Un yn asesu eu perfformiad eu hunain ac nid oes unrhyw fframwaith ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd gan Swyddfa'r Cabinet nac adrannau goruchwylio eraill o'r llywodraeth. Mae'r dull hwn o gyflawni polisi yn adlewyrchu'r diffyg hierarchaeth a'r nod o weithredu ar lefel 'leol' yn Lloegr.

31 *Civil Contingencies Act 2004: a short guide (revised),* Swyddfa'r Cabinet, Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl (nid oes dyddiad i'r ddogfen).

1.18 Mae'r cyhoedd a'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth gynllunio at argyfwng ac ymateb iddo yn disgwyl i Lywodraeth Cymru arwain, er y dylai'r disgwyliadau hyn gael eu cyfeirio at Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Deallwn gyfyngiadau ymarferol gweinyddu deddfwriaeth nad yw'n ddatganoledig, ond yn ein barn ni dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Swyddfa'r Cabinet er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn. Yn arbennig, ystyriwn y dylai Llywodraeth Cymru helpu Swyddfa'r Cabinet drwy wella goruchwyliaeth strategol Swyddfa'r Cabinet o'r gwaith o gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yng Nghymru.

## Mae Llywodraeth Cymru yn bodloni disgwyliadau o ran creu partneriaethau a darparu canllawiau ac adnoddau i hyrwyddo cydnerthedd

1.19 Mae Senedd yr Alban wedi datganoli awdurdod yn llawn i gyflawni dyletswyddau o dan Ran 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004[32], gan roi mwy o bŵer a chwmpas i'r Alban lywio gwaith ar gydnerthedd. Mae hyn yn golygu y gall yr Alban benderfynu ar ei chymorth a'i hyfforddiant ei hun a rhoi canllawiau, arian ac arweinyddiaeth uniongyrchol i'w hwyth grŵp cydgysylltu strategol a'r partneriaid sydd ynghlwm wrth argyfyngau sifil posibl. Nododd adroddiad Audit Scotland[33] sef *Improving civil contingencies planning* fod Scottish Resilience, y rhan o Lywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am argyfyngau sifil posibl, wedi cyflawni llawer o weithgarwch i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, ar lefel ganolog ac ar lefel leol.

1.20 Mae'r Is-adran Cydnerthu ac Argyfyngau, sy'n rhan o'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn cynnig cymorth a chanllawiau 'cyfaill beirniadol' i fforymau lleol Lloegr gydnerth. Mae rheoliadau[34], ynghyd â chanllawiau[35] a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yn cadarnhau y bydd gan Gymru strwythur tebyg i drefniadau rhanbarthol Lloegr, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth cyffredinol i bedwar fforwm lleol Cymru gydnerth.

1.21 Mae Fforwm Cymru Gydnerth yn bartneriaeth lefel uchel sy'n helpu Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ymatebwyr. Cylch gwaith y fforwm hwn yw hyrwyddo dulliau da o gyfathrebu a gwella cydnerthedd asiantaethau a gwasanaethau yng Nghymru. Mae Arddangosyn 4 yn amlinellu cylch gorchwyl Fforwm Cymru Gydnerth. Y Prif Weinidog sy'n cadeirio Fforwm Cymru Gydnerth, gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ddirprwy gadeirydd, sy'n gyfle am ymyriadau ac arweinyddiaeth wleidyddol lefel uchel.

1.22 Dengys Arddangosyn 5 y prif sefydliadau sy'n rhan o'r fframwaith ar gyfer cadernid yng Nghymru.

32 The Civil Contingencies Act 2004 (Contingency Planning) (Scotland) Regulations 2005

33 *Improving civil contingencies planning*, Audit Scotland, 2009

34 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (Cynllunio wrth Gefn) 2005, Adran 4: Swyddogaeth i gadw at gynlluniau

35 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 2*: Co-operation,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012




## Arddangosyn 4 – Cylch Gorchwyl Fforwm Cymru Gydnerth

- creu fforwm ar gyfer canllawiau strategol ar faterion cydnerthedd sy'n effeithio ar Gymru;
- ystyried arweiniad polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig/Llywodraeth Cymru a chynghori ar ei weithredu yng Nghymru, lle y bo'n briodol;
- hwyluso trefniadau cydgymorth a chydweithio;
- rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol i Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a'i is-grwpiau;
- mapio cydnerthedd ar lefel Cymru gyfan, nodi bylchau a hwyluso gweithgarwch paratoi;
- codi, ystyried a thrafod materion cydnerthedd yng Nghymru â Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- cefnogi gwaith trawsffiniol a rhannu gwybodaeth.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Gwefan Cymru Gydnerth*

## Arddangosyn 5 – Strwythur grwpiau a fforymau Cymru gydnerth




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**1.23** Mae Fforwm Cymru Gydnerth yn rhoi cymorth i fforymau lleol Cymru gydnerth ac mae ganddo gysylltiadau â'r canlynol:

- **a** **y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd,** sy'n fforwm i brif swyddogion gwasanaethau brys Cymru ac yn cydgysylltu gweithgarwch â Fforwm Cymru Gydnerth;
- **b** **Tîm Partneriaeth Cymru Gydnerth**, sy'n cael ei gyfeiriad strategol gan Fforwm Cymru Gydnerth o ran cyflawni nodau, amcanion a thargedau penodol ym maes gwaith cydnerthu ledled Cymru.

**1.24** Mae datblygu tair canolfan gydgysylltu strategol ranbarthol ac un genedlaethol yn enghraifft o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud defnydd da o adnoddau i gynorthwyo'r partneriaethau sydd ynghlwm wrth wella cydnerthedd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru yng Nghaerdydd, sy'n fodd i reoli a chydgysylltu ymateb mawr i argyfwng cenedlaethol. Mae'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau yn cysylltu â thair canolfan gydgysylltu strategol ddynodedig a leolir ym Mae Colwyn, Caerdydd a Chaerfyrddin (gweler Astudiaeth Achos 1), y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu[36] £10.4 miliwn ar eu cyfer.

### Astudiaeth Achos 1 – Canolfannau cydgysylltu strategol gorchmynion aur

Un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Syr Michael Pitt ar y llifogydd yn Lloegr yn 2007 oedd y dylai fod gan bob ardal ganolfan gydgysylltu bwrpasol i'w defnyddio mewn argyfwng. Atgyfnerthodd y gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i ffliw adar yng Nghymru yn 2009 yr angen hwn. Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, creodd prosiect ar y cyd rhwng heddluoedd Cymru a Llywodraeth Cymru dair canolfan gydgysylltu strategol yng Nghymru.

Roedd y prosiect yn cynnwys: ailwampio'r Ganolfan Argyfyngau Leol ym Mae Colwyn; prynu a pharatoi adeilad yng Nghaerdydd a brydleswyd gan Heddlu De Cymru, y bydd yn ei rannu â Heddlu Gwent; a chanolfan ar gyfer rhanbarth Dyfed Powys yng Nghaerfyrddin (gweler Ffotograff 1). Gan agor ym mis Medi 2011, costiodd y canolfannau hyn gyfanswm o £14.3 miliwn, a ariannwyd ar y cyd gan y tri heddlu dan sylw a Llywodraeth Cymru.

Mae'r canolfannau wedi'u rhyng-gysylltu'n llawn â chyfarpar gwybodaeth a chyfathrebu modern ac maent yn darparu llety a'r dechnoleg angenrheidiol er mwyn i'r gwasanaethau brys, llywodraeth leol ac unrhyw ymatebwyr eraill gydgysylltu eu hymatebion i argyfyngau. Mae'r canolfannau cydgysylltu strategol hefyd yn cysylltu â Chanolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru yn Llywodraeth Cymru.

Y canolfannau cydgysylltu strategol yw'r prif leoliad ar gyfer ymateb strategol i unrhyw argyfwng yng Nghymru ac maent yn gwasanaethu fel canolfannau hyfforddi a chyfleusterau cymorth i fforymau lleol Cymru gydnerth.

Mae prif fanteision y canolfannau fel a ganlyn:

- maent yn gwella gallu ymatebwyr i gydgysylltu camau gweithredu mewn argyfwng yn sylweddol;
- darparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer argyfwng yn y De, y Gogledd a'r Canolbarth;
- darparu cyfleusterau hyfforddi amlasiantaethol dynodedig;
- darparu canolfan ar gyfer fforymau lleol Cymru gydnerth a'u his-grwpiau.

36 Roedd arian Llywodraeth Cymru yn cynnwys £10 miliwn o'r Gronfa Fuddsoddi a Chyfalaf Strategol ynghyd â £399,000 o'r Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.



**Ffotograff 1 – Mae Llywodraeth Cymru a Heddlu Dyfed Powys wedi adeiladu Canolfan Gydgysylltu Strategol bwrpasol newydd yng Nghaerfyrddin, sy'n un o dair canolfan o'r fath yng Nghymru.**

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**1.25** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu £20,000 y flwyddyn ar gyfer ymarferion cenedlaethol sy'n profi ymateb Cymru gyfan i argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymarferion Cymru gyfan a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a ystyrir yn fanylach yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

**1.26** Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi, er nad yw argyfyngau sifil posibl wedi'u datganoli yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran yr agweddau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd ar y seilwaith cenedlaethol critigol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu'n galed i ymgysylltu â'r gymuned gydnerth er mwyn sefydlu partneriaethau a rhoi cymorth, arweiniad ac arbenigedd lle y bo angen. Mae Tîm Cydnerthu dynodedig o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Fforwm Cymru Gydnerth a'i is-grwpiau ac yn rhoi cymorth ysgrifenyddiaeth iddynt, ynghyd â chefnogi ymgysylltiad y gwasanaethau brys drwy'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu pob un o fforymau lleol Cymru gydnerth er mwyn cynnal y cyswllt pwysig ag ymatebwyr Categori Un unigol a'u fforymau lleol Cymru gydnerth.

1.27 Nid yw'r ffaith nad oes ganddynt bwerau datganoledig wedi atal Llywodraeth Cymru rhag sefydlu partneriaethau cynhyrchiol ag ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau. Un enghraifft o waith partneriaeth effeithiol a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw gwaith Fforwm Cymru Gydnerth, lle mae amrywiaeth o weithgorau yn cefnogi'r fforwm. Fodd bynnag, nid yw rhai sefydliadau â rôl gydnerthu glir yn ymatebwyr Categori Un na Chategori Dau. Yn ein barn ni, mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â'r sefydliadau hyn a'u cynnwys mewn partneriaethau cydnerthu. Mae'r Heddlu Niwclear Sifil yn enghraifft o'r fath sefydliad, sy'n darparu ymateb arfog a gwasanaeth plismona i'r diwydiant niwclear. Hefyd, nid yw rhai ymatebwyr Categori Dau cydnabyddedig, gan gynnwys sefydliadau trafnidiaeth megis asiantaethau cefnffyrdd, gweithredwyr trenau, gweithredwyr meysydd awyr ac awdurdodau harbwr wedi'u cynnwys yn y fframwaith argyfyngau sifil posibl yng Nghymru.

## Mae gormod o grwpiau cynllunio at argyfwng ac atebolrwydd aneglur yn ychwanegu aneffeithlonrwydd at fframwaith cydnerthu sydd eisoes yn gymhleth

### Mae strwythurau adrodd cymhleth yn arwain at ddryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau a sefydliadau cynllunio at argyfwng niferus


1.28 Mae gan bob ymatebydd Categori Un ei adnoddau cynllunio at argyfwng ei hun. Ym mhob achos bron, lle ceir trefniadau cydweithredu lleol, megis yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych ac yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae gan awdurdodau lleol dimau cynllunio at argyfwng dynodedig. Fodd bynnag, mae'r strwythur sy'n darparu cymorth a chydgysylltu ar gyfer gweithgareddau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru wedi esblygu dros amser, yn hytrach na fod yn rhan o drefniadau mwy strategol.

1.29 Dengys Arddangosyn 6 drefniant cymhleth sefydliadau sydd ynghlwm wrth waith argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Caiff sefydliadau ymateb Categori Un a Chategori Dau eu cynrychioli ar fforymau lleol Cymru gydnerth a'u his-grwpiau. Mae Fforwm Cymru Gydnerth yn rhoi arweiniad ac arweinyddiaeth strategol i fforymau lleol Cymru gydnerth, ac mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y cyd. Mae Swyddfa'r Cabinet wrth wraidd y trefniadau i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil 2004 yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r timau cynllunio at argyfwng a weithredir gan ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau ond yn atebol i'w sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn golygu bod tîm cynllunio at argyfwng awdurdod lleol ond yn atebol i brif swyddog



gweithredol yr awdurdod lleol. Ac eithrio fforymau lleol Cymru gydnerth ac ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau, mae holl elfennau eraill y fframwaith cydnerthu wedi datblygu'n anffurfiol ac yn drefniadau sy'n anelu at wella gwaith argyfyngau sifil posibl. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn anelu at hyrwyddo trefniadau anffurfiol o'r fath.

**Arddangosyn 6 – Trefniant cymhleth sefydliadau sydd ynghlwm wrth waith argyfyngau sifil posibl yng Nghymru**




Noder: Mae FfLlCG yn golygu fforwm lleol Cymru gydnerth

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.30** Yn ogystal â'r atebolrwydd lleol am argyfyngau sifil posibl, mae gofyniad i ymatebwyr Categori Un adrodd ar weithgareddau swyddogaethol eu holl wasanaethau. Mae gan y tri gwasanaeth brys 'golau glas' linellau adrodd swyddogaethol i dair adran wahanol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru:

- **a** mae'r heddlu yn adrodd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r Swyddfa Gartref;
- **b** mae'r gwasanaethau tân ac achub yn adrodd i Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru a'u priod awdurdodau tân[37];
- **c** mae gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru linellau adrodd swyddogaethol i Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru.

**1.31** Nid yw'r 22 awdurdod lleol yn atebol i Lywodraeth Cymru ond mae ganddynt linell adrodd am eu gweithgareddau swyddogaethol i'r Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae ymatebwyr Categori Un pwysig eraill sy'n berthnasol i Gymru yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n adrodd i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig[38] yn Lloegr, ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau sy'n un o asiantaethau gweithredol yr Adran Drafnidiaeth.

**1.32** Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd yn disgwyl i bob ymatebydd yng Nghymru a Lloegr feddu ar linell adrodd i adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n arwain ar ffrydiau gwaith penodol, ond ni ddisgwylir iddynt fod yn atebol iddynt. Enghraifft o hyn yw'r rhan arweiniol y mae'r Adran Iechyd yn ei chwarae wrth ddatblygu cydnerthedd a chynllunio at argyfwng posibl mewn perthynas â ffliw pandemig.

**1.33** Ar y cyfan, mae ymatebwyr Categori Dau yn gwmnïau preifat a gaiff eu monitro gan eu rheoleiddwyr eu hunain yn hytrach nag unrhyw adran benodol o'r llywodraeth. Mae rhai rheoleiddwyr yn cadarnhau cydymffurfiaeth â Deddf Argyfyngau Sifil 2004 fel rhan o'u cyfundrefnau arolygu ond nid ydynt yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth.

**1.34** Gan fod llawer o strwythurau adrodd yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth, ni ellir osgoi cryn dipyn o'r cymhlethdod hwn. Fodd bynnag, gall y fath gymhlethdod beri dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau o fewn y fframwaith cydnerthu sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r cymhlethdod hwn hefyd yn golygu bod y gallu i wneud gwaith effeithlon ac effeithiol ar argyfyngau sifil posibl yn ddarniog, gyda'r risg o orgyffwrdd, neu yn waeth byth, fylchau yn y trefniadau cydnerthu.

**1.35** Mae cylch gorchwyl Fforwm Cymru Gydnerth yn cynnwys hwyluso trefniadau cymorth ar y cyd a chydweithio, a rhoi arweiniad ac arweinyddiaeth strategol ar draws y fframwaith cydnerthu. Er bod ein hastudiaeth yn amlygu ac yn canmol Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid am y camau a gymerwyd i wella cydnerthedd, erys cymhlethdod ynghylch y strwythur presennol ac atebolrwydd.

## Mae'r strwythur presennol o dimau cynllunio at argyfwng bach a niferus yn arwain at aneffeithlonrwydd a byddai system resymoli o fudd

**1.36** Mae'r camau a gymerir i gydgysylltu gwaith cydnerthu a chynllunio at argyfwng yn ganolog yng Nghymru yn debyg i'r hyn a wneir yn yr Alban. Yn yr Alban, mae wyth grŵp cydgysylltu

37 Mae awdurdodau tân yn cynnwys aelodau etholedig a benodwyd gan awdurdodau lleol cyfansoddol a'r nod yw darparu gwasanaethau tân ac achub mewn modd agored, tryloyw a chosteffeithiol.

38 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhanbarth o Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n atebol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ond sydd â Llythyr Cylch Gwaith sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran y defnydd o arian a ddarperir yng Nghymru. O fis Ebrill 2013, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn dod yn rhan o Gorff Adnoddau Naturiol newydd Cymru. Bydd y corff newydd hwn yn ymatebydd Categori Un sy'n adrodd i Swyddfa'r Cabinet drwy Lywodraeth Cymru.



strategol, sydd yn fras yn cyfateb i fforymau lleol Cymru gydnerth, yn bwynt ffocws i waith cynllunio amlasiantaethol. Nodwyd, er bod y strwythur presennol yng Nghymru wedi dangos ei heffeithiolrwydd o ran ymdrin â digwyddiadau diweddar, megis bygythiadau ffliw pandemig, tywydd garw difrifol, a llifogydd lleol, mae'n debygol y bydd meysydd lle y gallai strwythur mwy syml ac effeithlon fod o fudd ychwanegol. Er enghraifft, byddai timau amlasiantaethol mwy o faint yn cynnig y cyfle i feithrin arbenigeddau a hwyluso defnydd haws a throsglwyddo'r sgiliau hyn. Credwn hefyd y byddai'n fuddiol egluro'r prif rolau ac atebolrwydd mewn adolygiad o'r strwythur sefydliadol ar gyfer cydnerthedd a chynllunio at argyfwng.

**1.37** Rydym yn ymwybodol bod y trefniadau presennol ar gyfer cydnerthedd wedi gweithio'n dda hyd yma a bod Llywodraeth Cymru a rhai ymatebwyr Categori Un yn awyddus i gydnabod y llwyddiant hwn. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau yn tynnu sylw at gyfyngiadau'r fframwaith presennol ar gyfer cydnerthedd ac yn awgrymu, gyda'r pwysau y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu nas gwelwyd o'r blaen, nid yw'n debygol mai'r fframwaith fydd y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o sicrhau bod gwaith ar argyfyngau sifil posibl yn cael ei wneud yn y dyfodol agos. Mae ein canfyddiadau yn cadarnhau casgliadau Adolygiad Simpson bod angen cynnal adolygiad sylfaenol o waith cynllunio at argyfwng yng Nghymru ac y dylai ddigwydd ar fyrder. Mae Adolygiad Simpson hefyd yn nodi, o ystyried yr ystod eang o ymatebwyr Categori Un yng Nghymru a maint cymharol fach llawer o dimau, ei bod yn annhebygol y bydd gan unrhyw awdurdod unigol ddigon o fàs critigol i ymgysylltu adrannau eraill; trosglwyddo sgiliau gwerthfawr a phrin yn ehangach a nodi a rhannu arfer gorau yn effeithiol. O ganlyniad, argymhellodd Adolygiad Simpson y dylai gwaith cynllunio at argyfwng gael ei drefnu ar sail ranbarthol a thraws-sectoraidd gan gynnwys awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu a'r gwasanaethau tân. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i dderbyn yr argymhelliad hwn a gweithredu arno yn golygu y caiff y gwaith o gynllunio at argyfwng ei ranbartholi, o bosibl[39] timau cynllunio at argyfwng rhanbarthol eu sefydlu sy'n anelu at wneud defnydd gwell o adnoddau a'u rhannu.

**1.38** Gallai'r penderfyniad i symud at fframwaith traws-sector, rhanbarthol ar gyfer cynllunio at argyfwng wneud trefniadau cydnerthedd yng Nghymru yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae symud i waith traws-sector, rhanbarthol hefyd yn cynnig y cyfle i ymatebwyr Categori Un roi trefniadau cadarn a thryloyw ar waith ym maes llywodraethu ac atebolrwydd. Yn Rhannau 2 a 3 o'r adroddiad hwn, byddwn yn trafod y defnydd o adnoddau yn fanylach, ynghyd â'r angen am fwy o gysondeb ac atebolrwydd. Fodd bynnag, gallai fframwaith cydnerthu rhanbarthol gynnwys y buddiannau canlynol:

- **a** arbedion effeithlonrwydd o well defnydd o adnoddau, rheoli gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu;
- **b** gweithgarwch cydnerthu mwy cyson ledled Cymru, gyda chynlluniau argyfwng a pharhad busnes mwy cyson;
- **c** mwy o adnoddau i gasglu a rhannu arfer da mewn meysydd unigol;
- **ch** rolau mwy eglur, yn enwedig os yw strwythur timau rhanbarthol yr un peth;
- **d** ffyrdd mwy cyson o gynllunio busnes, meithrin sgiliau a monitro;

39 Bydd pob fforwm lleol Cymru gydnerth yn cyflwyno ei gynlluniau ar gyfer rhanbartholi gwasanaethau cynllunio at argyfwng i Grŵp Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Simpson Llywodraeth Cymru yn ystod mis Tachwedd 2012. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch y trefniadau sefydliadol ar gyfer pob ardal fforwm lleol Cymru gydnerth unigol.

**dd** cyfleoedd i wella gwaith rheoli perfformiad, gan gynnwys drwy hunanasesiadau mwy cydgysylltiedig, adolygiadau cymheiriaid a chraffu.

**1.39** Byddai gwaith ailstrwythuro yn gyfle i fynd i'r afael â rhai anghysondebau mewn trefniadau partneriaeth a symleiddio trefniadau swyddogaethol. Er enghraifft, nid oes is-grŵp ar gyfer ymatebwyr Categori Dau mewn perthynas â thrafnidiaeth ac nid yw strwythurau presennol yn cydnabod rôl flaenllaw asiantaethau cefnffyrdd mewn argyfwng difrifol sy'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd.

**1.40** Cafodd Adolygiad Simpson mai prin y mae argyfyngau yn effeithio ar un maes gweinyddol yn unig. Mae gwahaniaethau yn ffiniau gweinyddol[40] y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaethau crwner[41] ac awdurdodau lleol yn ei gwneud yn anos cyflawni gwaith cydgysylltu effeithiol. Roedd gwella effeithlonrwydd a chydgysylltu argyfyngau mewn ffordd fwy effeithiol yn ddiau yn ffactorau allweddol yn argymhelliad Adolygiad Simpson.

**1.41** Yn ein barn ni, mae gormod o dimau cynllunio at argyfwng islaw lefel fforymau lleol Cymru gydnerth ac maent yn rhy fach, a gellir gwella cyflawniadau, effeithlonrwydd a gwerth am arian gweithredol drwy resymoli. Mae hyn yn arbennig o wir ers i dechnoleg well leihau'r risg o gyfathrebu gwannach dros ardal ehangach. Gall y penderfyniad i resymoli gwaith cynllunio at argyfwng hefyd olygu y bydd llai o dimau mwy o faint ac y gallant fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

**1.42** Mae Adolygiad Simpson wedi darparu catalydd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru adolygu a rhesymoli'r trefniadau sefydliadol ar gyfer cynllunio at argyfwng. Yn arbennig, mae Adolygiad Simpson wedi bod yn gyfle i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy leihau dyblygu, ond hefyd i nodi a llenwi bylchau a fydd yn sicrhau bod y trefniadau yng Nghymru yn cynnig mwy o gydnerthedd.

**1.43** Mae risgiau sylweddol a rhwystrau diwylliannol i'w goresgyn wrth resymoli trefniadau cynllunio at argyfwng. Mae'r rhwystrau allweddol posibl i'w goresgyn wrth weithredu'r argymhelliad ar gyfer timau traws-sector rhanbarthol cynllunio at argyfwng yn cynnwys:

**a** Cynnal atebolrwydd democrataidd a chorfforaethol ar gyfer pob ymatebydd Categori Un ac, yn arbennig, rôl pob prif weithredwr awdurdod lleol ac ar gyfer pob aelod etholedig mewn argyfwng.

**b** Safoni arferion, gweithdrefnau gweithredu a strwythurau rheoli mewn argyfwng i'r graddau angenrheidiol.

**c** Yr angen i gynnal cydberthnasau rhwng ymarferwyr lleol, cymunedau lleol, arweinwyr cymunedol lleol a chadw gwybodaeth leol.

**ch** Osgoi 'un ateb i bawb'.

**d** Darparu llety mwy o faint i dimau cynllunio at argyfwng rhanbarthol. Dengys Astudiaeth Achos 2 yr hyn a wneir yng Ngogledd Cymru, sef gadael timau lleol yn eu hardaloedd awdurdod lleol er mwyn osgoi gwanedu gwybodaeth leol. Mae Astudiaeth Achos 2 hefyd yn cynnwys rhai enghreifftiau eraill lle mae rhanbartholi gwaith cynllunio at argyfwng eisoes wedi bod yn llwyddiannus. Yn arbennig, mae ymatebwyr Categori Un yn Suffolk yn cwrdd yn rheolaidd i gydweithio[42] fel Fforwm Suffolk Gydnerth, a dangosodd

40 *Local, Regional, National: What services are best delivered where?* Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dwyn yr enw 'Adolygiad Simpson', Canolfan Arwain Llywodraeth Leol, Mawrth 2011

41 Ym ymwneud â'r Crwner neu Swyddfa'r Crwner.

42 Ceir hefyd enghreifftiau tebyg o'r math hwn o weithio: mae gan Fforymau Lleol Lloegr Gydnerth Dyfnaint, Cernyw ac Ynysoedd Scilly drefniadau 'cwrdd bob dydd Iau', hefyd Swydd Gaerloyw sef 'Gweithio ar Ddydd Iau'.



Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd ledled Cymru fuddiannau dwyn ynghyd bartneriaid o sawl asiantaeth. Fel y gwelir yn Astudiaeth Achos 3, cymerodd Cyngor Sir Swydd Lincoln gamau i'r gwrthwyneb gan ystyried bod cydleoli mwy parhaol yn agwedd bwysig ar reoli argyfyngau'n effeithiol.

**dd** Nid yw ffiniau rhai ymatebwyr Categori Un yn cyfateb i ffiniau fforymau lleol Cymru gydnerth. Er enghraifft, mae ffiniau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cwmpasu dau fforwm lleol Cymru gydnerth, gan olygu bod angen i'r ymatebwyr Categori Un hyn gael cynrychiolaeth ar y ddau fforwm.

**e** Darparu ar gyfer gwahanol ddiwylliannau, gwahanol delerau ac amodau cyflogaeth a graddfeydd cyflog.

## Astudiaeth Achos 2 – Enghreifftiau o waith cynllunio at argyfwng ar lefel ranbarthol

**Mae'r gwaith o ad-drefnu timau cynllunio at argyfwng yng Ngogledd Cymru yn anelu at wella cydnerthedd a gwneud defnydd gwell o adnoddau**

Ceir chwe awdurdod lleol yn Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru, gyda phob un â'i dîm cynllunio at argyfwng bach ei hun. Tra bod gan Sir y Fflint a Sir Ddinbych dîm ar y cyd, mae'r cynghorau eraill yn gweithredu ar wahân.

Cyn Adolygiad Simpson, roedd y chwe awdurdod lleol eisoes wedi mynegi diddordeb mewn gwasanaeth rhanbarthol a chynhaliwyd adolygiad o'u timau cynllunio at argyfwng gyda'r nod o wneud gwell defnydd o adnoddau dynol er mwyn gwella gwaith cydgysylltu cyffredinol a chydnerthedd ledled ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru.

Ar ôl ystyried amrywiaeth o opsiynau, y dewis opsiwn oedd sefydlu gwasanaeth unigol yn seiliedig ar ddwy 'ganolfan' cynllunio at argyfwng â rhaniad dwyreiniol-gorllewinol. Disgwylir i'r ardal orllewinol gynnwys Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, tra y bydd Sir Ddinbych a Sir y Fflint gyda Wrecsam yn ffurfio'r ardal ddwyreiniol efallai. Byddai un o'r ddau reolwr canolfan yn rheoli'r ddwy uned cynllunio at argyfwng yn strategol gyda'r rheolwr arall yn ddirprwy. Er mwyn cynnal gwybodaeth a chymorth lleol, byddai pob canolfan yn defnyddio'r staff presennol o'r awdurdodau cyfagos fel swyddogion cyswllt i'r priod awdurdodau, gan ddefnyddio gweithio ystwyth i'r graddau gorau posibl.

Prif fuddiannau'r trefniadau hyn yw:

- gwella effeithiolrwydd cydnerthedd i awdurdodau lleol partner oherwydd maint y tîm;
- gwella effeithlonrwydd a ffocws yr adnodd sydd ar gael drwy rannu cymorth arbenigol a thasgau cyffredin;
- sicrhau gwell effeithiolrwydd drwy ymateb cyson a rhannu arfer gorau ymhlith awdurdodau lleol;
- gwella effeithiolrwydd cyfryngau cyfathrebu rhwng fforymau lleol Cymru gydnerth ac awdurdodau lleol unigol.

Bydd Prif Weithredwyr o bob awdurdod lleol yn asesu'r achos busnes amlinellol yn ystod 2012 a bydd effaith Adolygiad Simpson a'r compact y cytunwyd arno rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei ystyried. Os bydd y chwe awdurdod lleol yn mabwysiadu'r cynnig erbyn diwedd 2012, disgwylir i'r system newydd o ddarparu gwasanaethau ddod i rym yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol.

**Un Fflam, Un Daith, Un Genedl: Dull Cymru gyfan o reoli Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd**

Cynhaliwyd Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd yng Nghymru dros gyfnod o bum diwrnod pan ddaeth chwarter poblogaeth Cymru i'w gweld. Aeth Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd drwy 22 awdurdod lleol, pedair ardal heddlu a phedair ardal gwasanaeth tân ac achub ynghyd ag ardaloedd amrywiaeth o asiantaethau 'cydnerthu' eraill. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, sefydlodd y prif asiantaethau cydnerthu strwythur cynllunio a gorchymyn a ddefnyddiodd adnoddau o bob cwr o'r wlad. Drwy'r strwythur cynllunio a gorchymyn hwn, bu modd llunio a gweithredu un cynllun cynhwysfawr, gan sicrhau bod y risgiau a'r bygythiadau a oedd yn gynhenid yn y digwyddiad yn cael eu rheoli i safon gyson uchel waeth pa adnoddau lleol oedd ar gael. Hefyd, sicrhaodd hyn fod manteision system gyflawni dactegol leol yn cyfuno â buddiannau gwaith cydgysylltu strategol cenedlaethol. Cafodd y daith gyfan ei rheoli gan ganolfan orchymyn Aur amlasiantaethol unigol a staffiwyd yn barhaol. Cydnabu Awdurdod Diogelwch y Gemau Olympaidd fod y fethodoleg a fabwysiadwyd gan Gymru yn arfer da. Cymerodd rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig y camau llwyddiannus hyn a mabwysiadwyd strwythur cynllunio a gorchymyn unigol tebyg i reoli Taith Gyfnewid y Ffagl Olympaidd.

**Fforwm Suffolk Gydnerth yn dwyn ynghyd bartneriaid ar gyfer 'Working Wednesdays'**

Yn sgil llwyth gwaith cynyddol, pwysau cyllidebol ac adnoddau prin, penderfynodd Fforwm Suffolk Gydnerth adolygu'r ffordd yr oedd yn rheoli gwaith partneriaeth amlasiantaethol. Ers 2009, mae cynllunwyr argyfyngau posibl Categori Un yn Suffolk wedi bod yn cyfarfod bob dydd Mercher i gwblhau gwaith cydnerthu rheolaidd megis cynllunio ac adolygu, rhannu gwybodaeth, a chynllunio ymarferion a hyfforddiant. O ganlyniad i hyn, mae wedi bod yn bosibl rheoli adnoddau yn well, gwneud gwaith cynllunio yn llai darniog a gwella cadernid gweithrediad arferol Fforwm Suffolk Gydnerth[43].

43 Mae Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys hefyd yn gweithredu trefniant tebyg i Fforwm Lleol Lloegr Gydnerth Suffolk.



**1.44** Yn Lloegr, ceir enghreifftiau[44] lle mae gwasanaethau cynllunio at argyfwng eisoes wedi cael eu had-drefnu ar lefel sir a fforwm lleol Lloegr gydnerth. Gallai gwersi o'r profiad hwn fod yn ddefnyddiol i Gymru. Dengys Astudiaeth Achos 3 sut mae'r gwasanaethau brys yng Nghyngor Sir Swydd Lincoln wedi dod at ei gilydd i sefydlu Gwasanaeth Rheoli Argyfyngau ar y Cyd.

**Astudiaeth Achos 3 – Gwasanaeth Rheoli Argyfyngau ar y Cyd Swydd Lincoln**

Ym mis Medi 2011, daeth y gwasanaethau brys yn ardal Swydd Lincoln at ei gilydd i sefydlu Gwasanaeth Rheoli Argyfyngau ar y Cyd. Mae'r ymatebwyr Categori Un dan sylw yn cynnwys Cyngor Sir Swydd Lincoln, saith cyngor dosbarth a chyngor bwrdeistref Swydd Lincoln, Heddlu Swydd Lincoln, Gwasanaeth Iechyd Gwladol Swydd Lincoln, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Lincoln, ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd eu cynllunwyr argyfwng bellach yn cydweithio, o'r un adeilad, fel rhan o dîm amlasiantaethol, sef y cyntaf o'i fath yn Lloegr.

Prif fuddiannau gwneud hyn yw:

- osgoi dyblygu gwaith;
- gwell effeithlonrwydd;
- cydgysylltu gweithgarwch staff yn well o blith amrywiaeth o ymatebwyr Categori Un;
- gwell dealltwriaeth o anghenion a chynlluniau'r naill a'r llall;
- datblygu nodau a rennir;
- ailorfodi gwaith ar y cyd wrth gynllunio at argyfwng.

**1.45** Fel y mae'r enghreifftiau o Swydd Lincoln a Gogledd Cymru yn awgrymu, gall cydweithio'n agosach esgor ar welliannau mesuradwy. Ymhlith y buddiannau cyffredin tebygol o uno timau cynllunio at argyfwng mae:

**a** Gwell gwerth am arian a mwy o effeithlonrwydd.

**b** Timau cynllunio at argyfwng mwy o faint gyda'r cyfle i arbenigo mewn meysydd penodol o gynllunio at argyfwng, er enghraifft gweithdrefnau gwagio.

**c** Proffil uwch i waith cynllunio at argyfwng o fewn ymatebwyr Categori Un, gyda threfniadau llywodraethu a chraffu cliriach.

**ch** Mwy o gydnerthedd am fod y tîm yn fwy o faint. Ar hyn o bryd, dim ond un neu ddau swyddog cynllunio at argyfwng sydd gan rai ymatebwyr Categori Un ac ni allant fod ar ddyletswydd 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos heb gytundebau cymorth ar y cyd ag ymatebwyr Categori Un eraill.

**d** Llai o ddyblygu ymdrech rhwng ymatebwyr Categori Un gan gydgysylltu hyfforddiant yn well a gwell dysgu o ddigwyddiadau. Bydd hyn yn helpu ymatebwyr Categori Un i gydweithio'n well a rhannu adnoddau o fewn timau mwy.


**dd** Bydd timau mwy o faint a chydgysylltu gweithgarwch cydnerthu yn well rhwng ymatebwyr Categori Un yn cynnig cyfleoedd i secondio swyddogion i wahanol feysydd gwasanaeth, gan gynyddu'r cyfleoedd i drosglwyddo sgiliau a meithrin adnoddau cydnerthu.

44 Yn ogystal â Swydd Lincoln, mae'r pedwar tîm cynllunio at argyfwng lleol yn Cleveland wedi uno a chydleoli â'r heddlu, y gwasanaeth tân a rhai rhannau o Wasanaeth Ambiwlans Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r sefydliad sydd wedi uno hefyd wedi gweithio gyda'r ymddiriedolaeth gofal sylfaenol lleol. Mae Cleveland wedi bod yn gweithio fel hyn ers sawl blwyddyn a phum mlynedd yn ôl cafodd Wobr Beacon am arloesedd a rhagoriaeth ym maes llywodraeth leol.

1.46 Bydd y buddiannau uchod, os cânt eu gwireddu'n llawn a'u sefydlu ar sail gyffredin, yn arwain at ddull mwy cyson o gynnal gweithgarwch cydnerthu ym mhob agwedd ledled Cymru a rhwng sefydliadau.

1.47 Wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth awdurdodau lleol yn gyffredinol, cynigiodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru[45] ffiniau ar gyfer grwpiau rhanbarthol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cydweithredol a rhanbarthol a gaiff eu darparu ar wahân ar hyn o bryd gan bob awdurdod lleol. Y grŵp rhanbarthol hwn sy'n sail i'r Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gydweithredu a sbarduno gwelliant cyflymach mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dengys Arddangosyn 7 y ffiniau cydweithredol arfaethedig.

**Arddangosyn 7 – Yr ardaloedd cydweithredol ar gyfer y Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus**




45 Mae'r ffiniau hyn yn seiliedig ar 'ôl-troed cydweithredu gwasanaethau cyhoeddus' a gyhoeddwyd mewn datganiad Gweinidogol ym mis Gorffennaf 2011 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol. Cefnogodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y ffiniau hyn yn eu Compact cydweithredu.



**1.48** Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu, lle y bo modd, y dylai ffiniau cydweithredol rhanbarthol ddilyn y saith[46] bwrdd iechyd lleol a/neu bedwar awdurdod yr heddlu. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'n arwydd o'i bwriad i symud i gysoni trefniadau cydweithredol, gan adeiladu ar strwythurau'r bwrdd iechyd lleol a'r heddlu. Cysonir ffiniau byrddau iechyd lleol a'r heddlu eisoes, ac felly hefyd fforymau lleol Cymru gydnerth. Fodd bynnag, fel y soniwyd ym mharagraff 1.43(dd), nid oes cysylltiad mor agos â ffiniau Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Hefyd, ar y cam hwn, nid oes sicrwydd y bydd yr ymrwymiad i ad-drefnu argyfyngau sifil posibl yn arwain at bedwar rhanbarth.

## Mae creu is-grwpiau niferus yn arwain at ymdrin â chydnerthedd mewn ffyrdd anghyson

**1.49** Mae rheoliadau[47] yn pennu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ond gadewir manylion ymarferol i'w pennu gan gytundeb lleol. O ganlyniad, mae pedwar fforwm lleol Cymru gydnerth wedi creu nifer fawr o is-grwpiau. Er enghraifft, mae gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys 16 o is-grwpiau ac mae tua 50 o sefydliadau ar wahân ynghlwm wrth yr is-grwpiau hyn. Gwelir sefyllfa debyg ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Diben y grwpiau yw ymdrin â pheryglon a nodwyd yn y gofrestr risg gymunedol ac mae'r nifer fawr o is-grwpiau yn adlewyrchu'r nifer fawr o sefydliadau y mae fforymau lleol Cymru gydnerth o'r farn bod angen eu cynnwys. Fodd bynnag, mae cyfansoddiad ac amcanion yr is-grwpiau hyn yn amrywio, gyda phob fforwm lleol Cymru gydnerth yn llunio ei asesiad ei hun o nifer yr is-grwpiau sydd eu hangen a'r mathau o is-grwpiau sydd eu hangen. Nodwyd bod rhai fforymau lleol Cymru gydnerth wedi cydnabod bod gormod o is-grwpiau a'u bod wedi dechrau rhesymoli eu strwythur. Yn ddiweddar, mae Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru wedi cyflwyno Grŵp Llywio Strategol i reoli'r rhaglen waith gyffredinol ac mae wedi lleihau nifer yr is-grwpiau i chwech. Mae'r is-grwpiau hyn yn canolbwyntio ar ffliw pandemig a llifogydd, sef y ddwy risg fwyaf a nodwyd gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru.

**1.50** Gwnaethom adolygu sampl o wefannau fforymau lleol Cymru gydnerth am gylch gwaith a chyfansoddiad yr is-grwpiau a restrwyd, a nodwyd nifer o anghysondebau. Yn arbennig, o'n hadolygiad o wefannau fforymau lleol Cymru gydnerth, nodwyd nad oedd gan lawer o is-grwpiau drefniadau rheoli perfformiad digonol i sicrhau eu bod wedi sefydlu cynlluniau gweithredu, yn monitro'r broses o'u cyflawni neu yn atebol i'w fforwm lleol Cymru gydnerth. Hefyd, roedd anghysondeb o ran y camau a gymerwyd gan yr is-grwpiau hyn ac nid oedd gan rai gylch gorchwyl cytûn nac amcanion diffiniedig clir.

## Mae arweinyddiaeth strategol ar gyfer cydnerthedd o fewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn rhy ynysig yn aml

**1.51** Mae arweinyddiaeth yn bwysig er mwyn llywio gwelliannau i weithgarwch cydnerthedd o fewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o ystyried mai pob ymatebydd Categori Un a Chategori Dau unigol sy'n atebol am Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Ymddengys yn aml fod cysylltiad agos rhwng timau cynllunio at argyfwng a'u prif swyddog gweithredol, yn enwedig adeg digwyddiadau mawr. Fodd bynnag, mewn gwirionedd gall y gwaith o arwain a rheoli gweithgareddau swyddogaethol arferol fod yn fwy pell. Mae gan swyddogion cynllunio at argyfwng rôl bwysig mewn awdurdodau lleol ond mae eu swyddi'n aml ar lefel isel ac maent yn gymharol bell o reolwyr strategol.

46 Mae ffin ardal gydweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys dau fwrdd iechyd lleol - Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

47 *Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio wrth Gefn) 2005* a chanllawiau ar ran 1 o'r ddeddf.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o swyddogion cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd dylanwadu ar y lefel gwneud penderfyniadau uwch ac ar y cyfan gadewir iddynt drefnu eu gweithgareddau eu hunain.

**1.52** Gall y ffaith bod swyddogion cynllunio at argyfwng yn gweithredu ar wahân a diffyg arweinyddiaeth strategol gyfrannu at aneffeithlonrwydd a dulliau gweithredu anghyson, o fewn awdurdodau lleol ac wrth weithredu'r is-grwpiau sy'n gwasanaethu fforymau lleol Cymru gydnerth. Pan fo hefyd yn ofynnol i swyddogion cynllunio at argyfwng wneud ystod ehangach o waith cydnerthu, megis cynllunio parhad busnes, gwelir diffyg arweinyddiaeth strategol hyd yn oed yn fwy.

# Rhan 2 – Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru am yr adnoddau y mae'n eu neilltuo i sicrhau cydnerthedd ond mae cwmpas clir i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn trafod y gwahanol fathau a symiau o adnoddau, a'u defnydd yng Nghymru i wella cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau.

## Ni chaiff arian ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng ei flaenoriaethu'n ddigonol i'r meysydd â'r risg fwyaf, ac mae graddau'r costau a'r gwerth am arian yn aneglur

### Mae anawsterau i bennu costau gweithgarwch cydnerthedd yn golygu ei bod yn amhosibl barnu gwerth am arian ar hyn o bryd

2.2 Yn syml, mae meithrin cydnerthedd yn tawelu meddyliau y gall ymatebwyr ymateb i ddigwyddiad mawr mewn ffordd ddibynadwy ac effeithlon. Dim ond pan fo digwyddiad y daw gwerth dull effeithiol o ymdrin â chydnerthedd yn amlwg. Hyd yn oed wedyn, mae'n anodd asesu gwerth gwirioneddol y cyfraniad hwn gan mai mewn costau a gaiff eu hosgoi y mae'r gwerth - cost yr hyn a fyddai wedi digwydd os na fyddai'r trefniadau cydnerthedd wedi gweithio'n effeithiol.

2.3 Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn nodi ystod eang o ddyletswyddau y mae angen i ymatebwyr Categori Un eu cyflawni o dan fantell 'cydnerthedd'. Caiff y dyletswyddau hyn eu crynhoi yn Arddangosyn 3. Cynllunio at argyfwng yw un o'r dyletswyddau hyn ac, yn 2010-11, dyrannodd awdurdodau lleol yng Nghymru bron £3.2 miliwn ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng.

2.4 Mae awdurdodau lleol yn nodi gwaith cynllunio at argyfwng ar wahân yn eu penawdau cyllidebol. Yn ystod 2010-11, Cyngor Caerdydd a ddyrannodd y gyllideb fwyaf sef £317,160, darparodd llawer o awdurdodau lleol tua £150,000 a Chyngor Sir Ynys Môn a ddarparodd y swm lleiaf, sef £80,530. Nid yw ymatebwyr Categori Un eraill, megis y gwasanaethau brys, yn nodi gwaith cynllunio at argyfwng ar wahân yn eu penawdau cyllidebol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd asesu gwerth am arian eu gweithgarwch cydnerthedd. Mae sefydliadau o'r fath yn dadlau, fel gwasanaethau brys, fod a wnelo eu holl gyllidebau â chynllunio at argyfwng, naill ai wrth ymateb i ddigwyddiadau mawr neu wrth gyflawni gweithgareddau atal a chydnerthu.

2.5 Dim ond un elfen o gydnerthedd yw cynllunio at argyfwng. Mae'r costau eraill sy'n gysylltiedig ag ymgorffori cydnerthedd yn anodd iawn eu mesur am eu bod yn dod o dan swyddogaethau cyffredinol ymatebwyr Categori Un, er enghraifft, y dyletswyddau i ddatblygu cynlluniau parhad busnes a chydweithredu rhyngasiantaethol. Felly, nid oes modd barnu a yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni gwerth am arian wrth weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Dyma hefyd oedd casgliad Audit Scotland yn ei adolygiad o weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn yr Alban yn 2009.[48]


48 *Improving Civil Contingencies Planning*, Audit Scotland, Awst 2009

**Ni chaiff arian ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng ei flaenoriaethu'n ddigonol i'r meysydd â'r risg fwyaf**

**2.6** Ers 2008-09, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys arian ar gyfer gwasanaethau cynllunio at argyfwng yn y Grant Cymorth Refeniw a ddyrennir i helpu awdurdodau lleol i ddarparu eu gwasanaethau. Cyn hyn, roedd grant penodol ar gyfer argyfyngau sifil posibl gan y Swyddfa Gartref. Y boblogaeth breswyl ym mhob ardal awdurdod lleol yw'r prif benderfynydd wrth gyfrifo'r Cymorth Refeniw. Ar gyfer gwasanaethau cynllunio at argyfwng, mae hyn yn golygu mai'r awdurdodau lleol â'r boblogaeth breswyl fwyaf, yn hytrach na'r rhai â'r nifer fwyaf a'r lefel uchaf o risgiau, a gaiff y swm mwyaf o arian. Hefyd, nid yw'r dull hwn o ddyrannu arian yn ystyried amrywiadau tymhorol nac amrywiadau darfodedig eraill yn y boblogaeth, sy'n ffactor a all gynyddu'n sylweddol nifer y bobl sydd mewn perygl o wynebu argyfwng mewn rhai awdurdodau lleol.

**2.7** Gwnaethom gymharu'r gyllideb a ddyrannwyd gan bob awdurdod lleol i argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng fesul pen o'r boblogaeth breswyl yn ystod 2010-11. Dyrannodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol tua £1.20 y pen o'r boblogaeth breswyl, ond roedd y swm a ddyrannwyd yn amrywio o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar £2.16, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ar £0.55 yn unig. Dengys Arddangosyn 8 y gyllideb a ddyrannwyd y pen o'r boblogaeth ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng mewn awdurdodau lleol yn ystod 2010-11. Ni allem bennu'r rhesymau pam y gwnaeth awdurdodau lleol ddyrannu cyllidebau mor wahanol.

**Arddangosyn 8 – Y gyllideb a ddyrannwyd gan awdurdodau lleol yn ystod 2010-11 ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng, y pen o'r boblogaeth**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*



**2.8** Gall ystyried cynlluniau cyllidebol ar gyfer y sefydliadau sy'n gyfrifol am argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng fod yn gamarweiniol. Er mai'r prif faes o wariant rheolaidd yw costau staff sy'n rhagweladwy, gall fod cryn gostau nas cynlluniwyd, yn enwedig wrth reoli argyfyngau. Yn 2010-11, nodwyd bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwario[49] tua £4 miliwn yn uniongyrchol ar waith cynllunio at argyfwng, tua 25 y cant yn fwy na chyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd. Gwariodd 11 o'r 21 o awdurdodau lleol a adolygwyd fwy na'u cyllidebau yn ystod y cyfnod hwn.

**2.9** Mae Arddangosyn 9 yn dadansoddi gwariant refeniw pob awdurdod lleol ar gyfer argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng y pen o'r boblogaeth breswyl yn ystod 2010-11. Mae'r graff hwn yn dangos yr amrywiad mewn gwariant refeniw ar gynllunio at argyfwng mewn awdurdodau unedol y pen o'r boblogaeth ar gyfer 2010-11. Yn arbennig, roedd gwariant yng Nghyngor Sir Powys yn £4.75 y pen o'r boblogaeth breswyl gan adlewyrchu'r ffaith i'r awdurdod lleol wario £625,907 ar argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng yn ystod 2010-11, er mai £222,760 a ddyrannwyd. Ond nid perfformiad gwael na rheoli perfformiad gwael oedd wrth wraidd hyn, gan fod yr awdurdod lleol wedi mynd i gostau cyfreithiol yn bennaf nas cynlluniwyd o tua £442,000 wrth reoli effaith digwyddiad mawr o lygredd yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafwyd sefyllfa debyg ym mis Mehefin 2011 pan fu'n rhaid symud a gwaredu gwastraff teiars yn dilyn tân mewn warws yn Abertawe (gweler Ffotograff 2) a wnaeth gostio tua £1.5 miliwn i'r awdurdod lleol a'r gwasanaethau brys. Mewn achosion o'r fath, defnyddir yr arian a ddyrannwyd yn gyflym ac mae'r sefydliadau sy'n ymateb i ddigwyddiadau yn troi at eu cronfeydd ariannol wrth gefn eu hunain neu, ar gyfer argyfyngau mawr, at Lywodraeth Cymru am arian ychwanegol[50].

49 Yn 2010-11, gwariwyd cyfanswm o £4,001,774 mewn arian refeniw ar argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng.

50 Mae'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys yn gynllun dewisol a gaiff ei weithredu gan Lywodraeth Cymru sy'n bodoli i roi cymorth ariannol arbennig i awdurdodau lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub a fyddai, fel arall, yn wynebu baich ariannol diangen o ganlyniad i gynnig cymorth a gwneud gwaith uniongyrchol mewn ymateb i argyfwng mawr.




**Ffotograff 2 – Arweiniodd tân mewn depo yn Abertawe ym mis Mehefin 2011 lle'r oedd gwastraff teiars yn cael ei storio at ddigwyddiad mawr a barodd am sawl wythnos, gan fygwth troi miloedd o drigolion cyfagos allan o'u cartrefi a chostio tua £1.5 miliwn i'r awdurdod lleol a'r gwasanaethau brys.**

*Ffynhonnell: Ddinas a Sir Abertawe*



**Arddangosyn 9 – Gwariant refeniw ar gynllunio at argyfwng mewn awdurdodau unedol yn 2010-11 y pen o'r boblogaeth breswyl**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**2.10** Mae Canllawiau Asesu Risg Lleol[51] ar gael i fforymau lleol Cymru gydnerth fel templed ar gyfer asesu risg. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod angen i asesiadau risg ystyried mwy na dim ond y risgiau i'r boblogaeth leol. Mae hefyd angen i asesiadau gynnwys yr effeithiau posibl ar fasnach, gwerth amgylcheddol, treftadaeth a diogelwch. Mae hyn yn gwneud synnwyr oherwydd bu sawl enghraifft o ddigwyddiadau mawr sydd wedi digwydd i ffwrdd o ganol poblogaethau ond sydd wedi cael effaith bellgyrhaeddol. Er enghraifft, pan aeth llong olew Sea Empress ar lawr oddi ar Aberdaugleddau yn 1996, roedd effaith bosibl llygredd yn eang ac nid dim ond yn gyfyngedig i Sir Benfro. Enghraifft arall lle'r oedd effaith argyfwng yn bellgyrhaeddol iawn oedd argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001.

**2.11** Dylai asesiadau risg yn seiliedig ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet helpu ymatebwyr Categori Un i bennu'r arian y maent yn ei ddyrannu i waith cynllunio at argyfwng a chydnerthedd. Mae'r trefniadau cynllunio at argyfwng rhanbarthol newydd yn gyfle i ystyried tebygolrwydd a chanlyniadau risgiau yn y ffordd y caiff arian ei flaenoriaethu. Gellid blaenoriaethu arian mewn ffordd wahanol iawn os yw'n seiliedig ar asesiad o risgiau strategol ar gyfer pob awdurdod lleol yn ogystal ag ar boblogaeth breswyl a darfodedig.

51 Local Risk Assessment Guidance, Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl Swyddfa'r Cabinet, http://www.cabinetoffice.gov.uk/content/risk-assessment

**Mae'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd yn debygol o effeithio ar gynllunio at argyfwng a chydnerthedd**

**2.12** Ni chaiff arian ar gyfer gwasanaethau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol o fewn y Grant Cymorth Refeniw ei neilltuo. Felly, fel meysydd gwasanaeth eraill, gall fod angen i wasanaethau cynllunio at argyfwng wneud arbedion effeithlonrwydd.

**2.13** Mae'r pwysau economaidd presennol a chyfyngiadau cysylltiedig ar adnoddau yn golygu bod ymatebwyr Categori Un yn debygol o'i chael hi'n anos gweithredu'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd o ymarferion. Dengys Arddangosyn 10 y ffordd y mae'r heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub wedi cynllunio i wneud arbedion effeithlonrwydd mawr o dan y pwysau economaidd presennol. Er nad yw effaith bosibl yr arbedion hyn ar waith rheng flaen yn glir, bydd angen i'r gwasanaethau brys weithio'n fwy effeithlon.

**Arddangosyn 10 – Arbedion effeithlonrwydd arfaethedig gan yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub rhwng 2011-12 a 2014-15 (mae'r unedau mewn £ miliynau ac mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)**

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 1.2 | 0.3 | 0.7 | 1.0 | 3.2 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 1.1 | 3.3 | 4.1 | 1.0 | 9.5 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 0.8 | 0.8 | 0.8 | I'w gadarnhau | 2.4 |
| **Cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub** | **3.1** | **4.4** | **5.6** | **2.0** | **15.1** |
| | | | | | |
| Heddlu Dyfed Powys | 5.1 | 4.2 | 1.5 | 1.4 | 12.2 |
| Heddlu Gwent | 7.9 | 5.7 | 5.0 | 3.8 | 22.4 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 4.7 | 5.0 | 2.7 | 2.4 | 14.8 |
| Heddlu De Cymru | 14.8 | 7.7 | 8.9 | 4.5 | 35.8 |
| **Cyfanswm ar gyfer yr heddlu** | **32.5** | **22.6** | **18.1** | **12.1** | **85.2** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm (£ miliynau)** | **35.6** | **27.0** | **23.7** | **14.1** | **100.3** |

*Ffynonellau: Cynlluniau gwella blynyddol ar gyfer y tri gwasanaeth tân ac achub (Ionawr 2012) a Cyflawni Gwasanaeth Heddlu ar ei Newydd Wedd, adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (Ebrill 2012)*



## Mae'n dod yn fwyfwy anodd sicrhau lefel gynaliadwy o arian ar gyfer gweithgareddau cydnerthu ar y cyd

**2.14** Gall cydweithio fod yn ffordd o gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac mae'n rhywbeth a gaiff ei ystyried ar draws y sector cyhoeddus bellach. O ran ymateb i argyfwng, cydnabu Adolygiad Simpson ei bod yn amhosibl i bob ymatebydd Categori Un feddu ar bob adnodd y gall fod ei angen arno, gan olygu bod cydweithio agosach o bosibl yn ffordd well o reoli adnoddau, darparu gwerth am arian a gwella gwaith ar argyfyngau sifil posibl.

**2.15** Fodd bynnag, mae rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n fwyfwy anodd sicrhau arian ar gyfer gweithgareddau ar y cyd. Mae ariannu gweithgarwch argyfyngau sifil posibl ar y cyd yn broblem am nad oes arian canolog, naill ai gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig na Llywodraeth Cymru, ar gyfer fforymau lleol Cymru gydnerth. Ym mhob fforwm lleol Cymru gydnerth, mae ymatebwyr Categori Un yn gwneud cyfraniad gwirfoddol at gost gweithredu'r fforwm. Felly, mae ariannu gweithgareddau ar y cyd, megis hyfforddiant ac ymarferion lleol, yn dibynnu ar gytundebau anffurfiol rhwng yr ymatebwyr Categori Un cynrychioliadol.

**2.16** Dengys Astudiaeth Achos 4 sut y gall gweithredu cronfa hyfforddi ac ymarfer helpu fforwm lleol Cymru gydnerth i drefnu arian ar gyfer gweithgarwch fforymau lleol Cymru gydnerth.

### Astudiaeth Achos 4 – Ariannu gweithgarwch fforymau lleol Cymru gydnerth

Mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys a Gogledd Cymru yn gweithredu cronfa hyfforddi ac ymarfer y mae pob ymatebydd Categori Un yn cyfrannu ati. Pan fydd ymatebydd Categori Un yn nodi angen hyfforddi, bydd yn cyflwyno cynnig i'r grŵp cydgysylltu i'w gadarnhau.

Enghraifft o hyn yw hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol mewn argyfwng. Ar ôl cynnal dau gwrs ar lefel Cymru gyfan o dan arweiniad Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru, comisiynodd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys ddau gwrs arall i fodloni'r galw am hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol ar draws ardal fforwm lleol Cymru gydnerth, gydag aelodau grŵp amlasiantaethol y Grŵp Hyfforddi a Chydgysylltu yn cymeradwyo'r cynnig hwn.

**2.17** Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gall fod yn fwyfwy anodd sicrhau lefel gynaliadwy o arian ar gyfer gweithgarwch asiantaethol ar y cyd ar sail wirfoddol. Gall y diffyg arian sydd ar gael ar hyn o bryd fod yn rhwystr i gydweithgarwch megis ymchwil ac ariannu ymarferion a hyfforddiant sy'n angenrheidiol i brofi cynlluniau argyfwng. Ar y cyfan, cyllidebau hyfforddi ymatebwyr Categori Un sy'n ariannu ymarferion lleol. Fel arall, mae'r gwasanaethau brys yn ariannu ymarferion gydag ymatebwyr eraill Categori Un a wahoddir. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle mae trefniadau partneriaeth da o fewn fforwm lleol Cymru gydnerth wedi helpu i sicrhau arian, megis Ymarfer Tywyllwch a hwyluswyd gan Gyngor Dinas Casnewydd yn 2010 i brofi'r gallu i wagio canolfannau gorffwys.

**2.18** Gall cynnal ymarferion ar raddfa fawr fod yn rhy gostus oni bai bod Llywodraeth y DU, fel y digwyddodd yn achos Ymarfer Taliesin i brofi cynlluniau ar gyfer ffliw pandemig yn 2009, yn darparu swm sylweddol o arian. Yn Ymarfer Taliesin, dim ond mân gostau a dalwyd gan Lywodraeth Cymru a'r pedwar fforwm lleol Cymru gydnerth.

2.19 Yn gyffredinol, mae sefydliadau partner yn cytuno ar lefelau ariannu ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r arian hwn yn cynnwys elfen ar gyfer hyfforddiant ac ymarferion sydd â'r nod o feithrin mwy o gydnerthedd a pharatoi sefydliadau partner yn well ar gyfer rheoli argyfyngau. Fodd bynnag, er i Fforwm Cymru Gydnerth awgrymu[52] y dylai pob fforwm lleol Cymru gydnerth lunio cynllun busnes blynyddol yn dangos gofynion cyllidebol, ni wnaed hyn yn gyson. Mae absenoldeb cynlluniau gwaith ffurfiol â blaenoriaeth ar gyfer pob fforwm lleol Cymru gydnerth yn golygu nad yw anghenion ariannu'r dyfodol yn sicr ac ni all Tîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru fynd ati'n hawdd i sicrhau arian ychwanegol o'r tu mewn i Gymru na chan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

2.20 Hefyd, nid yw rhai sefydliadau cenedlaethol pwysig, megis Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, yn cyfrannu'n ariannol, er eu bod yn aelodau hanfodol a gweithredol o fforymau lleol Cymru gydnerth. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn mynychu llawer o fforymau lleol cydnerthu ledled y Deyrnas Unedig sy'n ei gwneud yn gymhleth i ddosrannu arian.

2.21 Mae'r ymdrech hon i sicrhau digon o arian yn cymryd llawer o amser y byddai fforymau lleol Cymru gydnerth fel arall yn ei dreulio ar gynllunio at argyfwng a chyflawni gweithgareddau ar y cyd. Felly, yn ein barn ni, mae'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu yn aneffeithlon, yn fregus ac felly yn anghynaladwy o bosibl.

## Efallai nad y defnydd presennol o adnoddau dynol fydd y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau

2.22 Mae gan bob ymatebydd Categori Un dîm cynllunio at argyfwng er bod ei faint, ac felly ei adnoddau, yn amrywio. Yng Nghymru, mae 37 o dimau cynllunio at argyfwng ymatebwyr Categori Un. Ceir 20 o dimau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol, pedwar o fewn gwasanaeth yr heddlu, tri o fewn y gwasanaeth tân ac achub a 10 o fewn y sector iechyd. Mae hyn yn golygu bod bron pob ymatebydd Categori Un yn neilltuo adnoddau dynol i gynllunio at argyfwng ar hyn o bryd. Ni wnaethom adolygu adnoddau ymatebwyr Categori Un unigol fel rhan o'r astudiaeth hon, felly ni allwn nodi a yw'r lefel bresennol o adnoddau dynol yn angenrheidiol neu'n gynaliadwy.

2.23 Roeddem yn pryderu na allem ddod o hyd i unrhyw adolygiad sy'n mapio'r adnoddau dynol sydd ar gael ar gyfer cynllunio at argyfwng yng Nghymru. Heb yr adolygiad hwn, ni allwn fod yn sicr a yw pobl wedi'u lleoli yn y man cywir, eu bod ar gael yn y niferoedd cywir, eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir, a'u bod wedi'u grymuso i gyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau a ddisgwylir ganddynt. Cydnabyddwn y bydd mapio adnoddau yn rhan o'r broses o ranbartholi ac y daw'r adnoddau sydd eu hangen yn gliriach wrth i risgiau gael eu nodi a'u gwerthuso'n fwy cyson ar lefel ranbarthol. Dylai rhanbartholi hefyd gynnig cyfle i ymatebwyr Categori Un wneud trefniadau mwy cadarn i reoli a chadw staff â sgiliau a galluoedd hanfodol neu feithrin y sgiliau a'r galluoedd hyn o fewn llwybr gyrfa penodol.

52 *Model Costau Cydweithredol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth*, Tîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd, 2007



**2.24** Nid oes unrhyw ganllawiau ar gael i ymatebwyr Categori Un ynghylch nifer na galluoedd swyddogion cynllunio at argyfwng, nac adnoddau dynol eraill, sydd eu hangen i gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Fodd bynnag, mae Sgiliau er Cyfiawnder wedi cyhoeddi *National Occupational Standards for Civil Contingencies*[53]. Heb unrhyw ganllawiau eraill, mae *National Occupational Standards for Civil Contingencies* yn cynnwys gwybodaeth i ddarparu safon gyson, drwy gymwyseddau penodol, rolau diffiniedig a chymwysterau galwedigaethol, ar gyfer swyddogion cynllunio at argyfwng. Mae'r safonau hyn yn gyson â chymwyseddau a rolau'r heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub ar gyfer rheoli digwyddiadau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai nifer fach iawn o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio'r safonau ar hyn o bryd.

**2.25** Gyda'r trefniadau sefydliadol presennol, gallai fod dyblygu a bylchau mewn meysydd gwybodaeth ac arbenigedd hanfodol. Efallai mai dim ond pan fydd argyfwng mawr yn profi trefniadau y daw'r bylchau hyn i'r amlwg. Nododd Adolygiad Simpson ei bod yn bosibl na fydd gan dimau cynllunio at argyfwng bach y màs critigol angenrheidiol.

**2.26** Gall gwell systemau rheoli gwybodaeth a chyfathrebu wella mynediad at wybodaeth a sgiliau arbenigol. Nid oes un pwynt cyfeirio yng Nghymru i lywio cynllunwyr ac ymatebwyr at arfer da a'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol i'w helpu i ymateb a chynllunio'n fwy effeithiol.

**2.27** Ymddengys fod trefniadau presennol ar gyfer rheoli gwybodaeth yn anffurfiol ac yn dibynnu i raddau helaeth ar gysylltiadau lleol a rhwydweithio lleol, gan gynnwys drwy fforwm lleol Cymru gydnerth. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau o'r defnydd o dechnoleg newydd gan dimau cynllunio at argyfwng i uno â sefydliadau Categori Un eraill, megis ar gyfer asesu risg neu drefniadau i ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r Allrwyd Cydnerthu Cenedlaethol yn enghraifft dda o dechnoleg newydd a ddefnyddir gan Swyddfa'r Cabinet a llawer o bartneriaid eraill sydd ynghlwm wrth argyfyngau sifil i rannu gwybodaeth gyfrinachol ag ymatebwyr Categori Un. Dengys Astudiaeth Achos 5 sut mae Uned Cydnerthu ar y Cyd awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi creu gwefan i rannu amrywiaeth o gynlluniau a manylion cyswllt ar draws gwahanol ymatebwyr Categori Un.

53 Sgiliau er Cyfiawnder yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sectorau cyfiawnder, diogelwch cymunedol a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn ategu hyfforddiant ac asesu cymhwysedd yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae awdurdodau lleol hefyd yn cynyddu'r defnydd o'r safonau hyn, er y nodwyd bod y defnydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn dal i fod yn isel.

**Astudiaeth Achos 5 – Defnyddio technoleg gwybodaeth i wella mynediad at ddata hanfodol**

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu holl wasanaethau awdurdodau lleol Cymru yw sut i ddod yn fwy effeithlon ac arloesol gyda llai o adnoddau. Mae'r un her hefyd yn wynebu pob tîm cynllunio at argyfwng ledled ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru.

Cyfunodd awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe eu timau cynllunio at argyfwng rai blynyddoedd yn ôl i ffurfio'r Uned Cydnerthu ar y Cyd. Ym mis Awst 2011, rhoddodd trefniadau rheoli newydd fwy o bwyslais ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys gwefan gyhoeddus a rhyngweithiol a chyflwyno system ddiogel i gyfathrebu drwy ffonau symudol. Hefyd, mae gwaith datblygedig ar wefan ddiogel, sydd ar gael drwy system Gyfunol Band Eang y Sector Cyhoeddus, sef gwasanaeth cyfathrebu cenedlaethol cydweithredol a arweinir gan Lywodraeth Cymru a adeiladwyd yng Nghymru i ddiwallu anghenion penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru, hefyd wedi'i gwblhau bellach.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r wefan ddiogel i goladu a rhannu eu cynlluniau argyfwng a dogfennau eraill eu hunain ynghyd â rhai sefydliadau eraill. Hefyd, gall pob ymatebydd Categori Un gynnal ei ddogfennau a'i gynlluniau ar-lein.

Mae'r wefan yn enghraifft dda o'r ffordd y gall ymatebwyr Categori Un ddefnyddio systemau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffordd arloesol sy'n cyfrannu at eu dyletswyddau o ran argyfyngau sifil posibl i rannu gwybodaeth a chydweithredu â'i gilydd.

Mae prif fanteision y system yn cynnwys: gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth rhwng ymatebwyr Categori Un sydd wedi helpu i rannu arfer gorau a lleihau dyblygu gwaith; hwyluso mynediad i ddogfennau a chysylltiadau allweddol; a'r gallu i weithio o bell pan fo angen heb golli mynediad i ddogfennau.

## Heb drosolwg cenedlaethol o effeithiolrwydd asedau ffisegol ar gyfer ymateb i argyfwng, ni ellir gwarantu eu hargaeledd, eu cynnal a'u cadw na'u gweithredu

**2.28** Mae'r mathau amrywiol o argyfyngau a welwyd eisoes yng Nghymru, a'r amrywiaeth o risgiau a nodwyd gan ymatebwyr Categori Un, yn golygu bod angen cael mynediad i ystod eang o asedau. Yn nodweddiadol, mae'r asedau hyn yn amrywio o gyfarpar technegol arbenigol iawn, megis cerbydau arbenigol a chorffdai symudol, i asedau sefydlog megis cyfleusterau amddiffynfeydd llifogydd a chanolfannau gorffwys. Dengys ein gwaith gydag awdurdodau lleol ar reoli asedau nad oes gan lawer o awdurdodau lleol gynlluniau rheoli asedau. At hyn, cadarnhaodd ein hadroddiad yn 2009 ar erydu arfordirol a llifogydd llanw, o ran rheoli llifogydd, nad yw llawer o awdurdodau lleol yn gwybod beth yw cyflwr na gwerth disodli eu hasedau eu hunain nac yn rheoli gwaith cynnal a chadw a disodli'n effeithiol[54]. Rhoddodd adroddiad 2009 gipolwg o safon gwaith rheoli asedau argyfwng yng Nghymru ar gyfer llifogydd ac erydu morol. Heb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, credwn fod risg sylweddol y gall y sefyllfa hon fod yn debyg i'r asedau a ddefnyddir ar gyfer mathau eraill o ymateb i argyfwng.

**2.29** Mae pob ymatebydd Categori Un yn gyfrifol am ei asedau gweithredol, megis cyfarpar diogelu personol, a'r hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni gweithgarwch argyfwng gyda chyfarpar megis cyfarpar anadlu. Gall gofynion hyfforddi ac iechyd a diogelwch llymach, megis ar gyfer cyfarpar anadlu, hefyd olygu bod llai o asedau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng. Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

54 *Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru,* Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2009



wedi llunio cynllun rheoli asedau newydd sy'n ffurfio rhan o gronfa ddata gynhwysfawr o bob ased sydd gan y gwasanaeth tân ac achub, yn amrywio o adeilad unigol i nifer, lleoliad a hanes gwasanaeth camerâu delweddu thermol. Fodd bynnag, yng Nghymru nid oes darlun cenedlaethol o leoliad, argaeledd, na chynnal a chadw'r rhain nac asedau eraill.

**2.30** Mae gwybodaeth a chyfathrebu am leoliad asedau a'r defnydd o asedau yn hanfodol mewn argyfwng. Pan fo argyfwng, gall rôl technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ddod yn hanfodol yn gyflym wrth sicrhau, er enghraifft, fod yr asedau cywir yn cael eu cyflenwi i'r lleoliad cywir. Mae gan gyfarpar cyfathrebu gyfyngiadau, yn enwedig wrth ymdrin â nifer fawr o ddefnyddwyr. Bu cyfyngiadau ffonau symudol a'r rhyngrwyd yn amlwg yn ystod argyfyngau mawr, megis yr ymosodiadau terfysgol ar America ar 11 Medi 2001 a'r ymgyrch fomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2007[55]. Gyda pheth profiad o natur anwadal systemau cyfathrebu sefydledig megis ffonau symudol, mae'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd wrthi'n treialu system gyfathrebu ddynodedig newydd ar gyfer digwyddiadau. Gall effeithiolrwydd asedau felly olygu mwy na'u darpariaeth a'u cynnal a'u cadw.

**2.31** Nodwyd y gall cynlluniau argyfwng wneud tybiaethau annibynadwy ynghylch lleoliad ac argaeledd asedau. Er enghraifft, nodwyd efallai nad yw canolfannau gorffwys a mathau eraill o lety sydd eu hangen yn ystod ac ar ôl argyfwng ar gael. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o gynlluniau argyfwng p'un a brofwyd tybiaethau ynghylch argaeledd, mynediad a'r math o lety. Mae arolwg rheoli parhad busnes 2011[56] yn nodi bod 26 y cant o ymatebwyr wedi methu â chael mynediad i safle roeddent yn dibynnu arno, ond dim ond hanner y cynlluniau a oedd yn cynnwys y risg hon. Mae'r arolwg hwn yn awgrymu'n gryf y gall fod rhai cynlluniau yn hen ac, o ganlyniad, nad ydynt yn ddibynadwy.

## Nid yw ymatebwyr Categori Un yn gyson o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau a gynigir gan y sector gwirfoddol i feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau

**2.32** Ar y cyfan, cyfyngir cynrychiolaeth y sector gwirfoddol o fewn fframwaith cydnerthu Cymru i'r lefel leol. Arferai'r Groes Goch Brydeinig gynrychioli'r sector gwirfoddol ar Fforwm Cymru Gydnerth. Fodd bynnag, oherwydd yr anawsterau ynghlwm wrth gynrychiolaeth genedlaethol yn y sector amrywiol iawn a lleol hwn, rhoddwyd y gorau i fod yn aelod o Fforwm Cymru Gydnerth. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Eglwysi yng Nghymru a'r Groes Goch Brydeinig yn parhau i fod yn aelodau o Grŵp Cymunedol Cymru Gydnerth, is-grŵp o Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth a gadeirir gan Bennaeth Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Mae CGGC[57], y Groes Goch Brydeinig ac Eglwysi yng Nghymru hefyd yn aelodau o Grŵp Cymorth Dyngarol Cymru. Ar y lefel ranbarthol, y Groes Goch Brydeinig sy'n cadeirio'r grwpiau cymorth dyngarol amlasiantaethol yn ardal Dyfed Powys ac yng Ngogledd Cymru. Drwy'r grwpiau hyn, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, yn enwedig wrth gynllunio'r defnydd o ganolfannau gorffwys a hyfforddiant ar gyfer ymateb i argyfyngau. Er bod rhai enghreifftiau eraill o ymgysylltu ar y lefel ranbarthol, mae trefniadau yn anghyson ac ni wneir y gorau o'r sector gwirfoddol.

---

55 Cwestau'r crwner i'r Ymgyrch Fomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2005.

56 *Managing threats in a dangerous world*, arolwg rheoli parhad busnes 2011.

57 Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched oedd WRVS yn flaenorol.

**2.33** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllun ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru sy'n cynnig dull ffurfiol o helpu'r sector gwirfoddol i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys seilwaith o gynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli lleol a gefnogir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector; a chyfarfodydd gweinidogol rheolaidd rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol i gydgysylltu dulliau gweithredu ar lefel genedlaethol na thrwy fforymau lleol Cymru gydnerth, er bod Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi rhai canllawiau'n ddiweddar[58] ar hyn ar gyfer fforymau lleol Cymru gydnerth ac ymatebwyr.

**2.34** Mae cyfraniad posibl y sector gwirfoddol o fewn gwaith cydnerthu ymatebwyr Categori Un yn sylweddol. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau yn Lloegr sy'n dangos sut mae fforymau lleol Lloegr gydnerth wedi mynd ati i ymgysylltu â'r sector hwn mewn ffyrdd gwahanol (Astudiaeth Achos 6).

### Astudiaeth Achos 6 – Gwaith partneriaeth Swydd Lincoln â'r sector gwirfoddol

Mae fforwm lleol Lloegr gydnerth yn Swydd Lincoln wedi llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â'r sector gwirfoddol. Mae'r memorandwm yn sefydlu protocol ffurfiol sy'n darparu dealltwriaeth glir o'r hyn y gall y sector gwirfoddol ei gynnig, yn enwedig yn ystod argyfwng mawr, eang a hir. Cynhaliodd fforwm lleol Cymru gydnerth gynhadledd ddeuddydd â'r sector gwirfoddol er mwyn atgyfnerthu protocolau a threfniadau gweithio.

Mae'r trefniadau yn sicrhau bod sefydliadau gwirfoddol mwy o faint, megis y Groes Goch Brydeinig, yn gallu gweithredu ar y lefel ofynnol. Mae'r fenter hon wedi hyrwyddo'r sector gwirfoddol mewn ffordd gadarnhaol a defnyddiol, ac mae wedi codi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall ei wneud gydag uwch reolwyr ac ymatebwyr argyfwng.

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn cydgysylltu ymateb y sector gwirfoddol yn y sir ar ran fforwm lleol Cymru gydnerth ac mae cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn gweithio fel rhan o'r swyddogaethau cymorth gorchymyn a gaiff eu pennu mewn argyfwng. Mae'r trefniadau yn bwynt ffocws i fforwm lleol Cymru gydnerth ddyrannu adnoddau'r sector gwirfoddol ac mae'n fodd i asesu gallu ac adnoddau gwirfoddolwyr.

Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth â'r sector gwirfoddol yn golygu bod gan fforwm lleol Cymru gydnerth feddwl uchel ohono. Mae'r effaith yn un sylweddol, ac mae gan asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol ddealltwriaeth well o'u rôl bellach. Hefyd, mae'r sector gwirfoddol wedi cael y cyfle i brofi ei hun gan feithrin cydberthnasau a darparu sylfaen i waith yn y dyfodol.

58 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 14: *The Role of the Voluntary Sector, Paragraffau 14.11-14.15,* Swyddfa'r Cabinet, Hydref 2011



**2.35** Yn ystod gaeaf 2009-10, cofnododd y Groes Goch Brydeinig bron 600 awr o gymorth i bobl a oedd mewn perygl oherwydd y tywydd oer garw. Rhoddodd y Groes Goch Brydeinig gymorth i'r ymatebwyr argyfwng mewn sawl ffordd gan gynnwys, er enghraifft, y defnydd o gerbydau oddi ar y ffordd i gasglu staff nos ysbyty o bentrefi anghysbell yn y Gogledd. Hefyd, mae St John Cymru, gwasanaethau achub mynydd a grwpiau defnyddwyr cerbydau oddi ar y ffordd yn cynnig adnoddau ychwanegol yn ystod tywydd garw[59]. Yn ardal Abertawe, mae'r Groes Goch Brydeinig hefyd yn darparu gwasanaeth atgyfeirio i ysbytai os bydd pobl wedi torri esgyrn neu gael anafiadau i fynd â phobl ag anaf i'r ysbyty. Bu'r fenter hon gan y sector gwirfoddol yn effeithiol wrth leihau'r galw ar gyfleusterau damweiniau ac achosion brys yn ystod yr amodau garw hyn.

**2.36** Mae'r sector gwirfoddol wedi bod yn awyddus i bwysleisio'r angen am fwy o gysondeb a safonau wrth gynllunio gweithgareddau cydnerthu. Dylai'r sector cyhoeddus hefyd fod yn glir ynghylch yr ymateb sydd ei angen gan y sector gwirfoddol mewn argyfwng. Ym marn y sector gwirfoddol, prin yw dealltwriaeth rhai ymatebwyr Categori Un ac felly prin yw'r defnydd y maent yn ei wneud o'u cyfraniad posibl at feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfwng. Mae'r fath anghysondeb yn golygu y gall y sector gwirfoddol fod yn adnodd nas defnyddir yn effeithlon. Mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet[60] yn egluro'r gofynion deddfwriaethol[61] sydd ar ymatebwyr Categori Un i ystyried y cyfraniad y gall y sector gwirfoddol ei wneud i wella trefniadau cynllunio at argyfwng lleol. Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i'r sector gwirfoddol fod ynghlwm 'ar bob cam' o waith cynllunio at argyfwng, gan gynnwys hyfforddiant ac ymarferion ac wrth ymateb i argyfwng. Ar hyn o bryd, nid oes camau ffurfiol na chydgysylltiedig ar lefel genedlaethol, ranbarthol na lleol i gynnwys y sector gwirfoddol wrth ddatblygu ymateb i argyfwng nac wrth helpu gyda digwyddiadau tymor hwy ac adfer y sefyllfa. Mae lle i'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol chwarae rhan fwy effeithiol er budd trefniadau cydnerthu mwy cadarn a chynnig ymateb mwy cydweithredol i argyfwng.

59 Cyhoeddodd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru ganllaw ar gynnwys y sector gwirfoddol mewn gwaith cynllunio at argyfwng, meithrin cydnerthedd cymunedol, ymateb ac adfer y sefyllfa ym mis Mai 2012.

60 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 14: *The Role of the Voluntary Sector, Paragraffau 14.4-14.8,* Swyddfa'r Cabinet, Hydref 2011

61 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (Cynllunio wrth Gefn) 2005, Rheoliad 23: Sefydliadau gwirfoddol

# Rhan 3 – Mae'r camau a gymerir gan ymatebwyr Categori Un i weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn anghyson ac nid yw ymatebwyr yn monitro eu gweithgareddau'n effeithiol

**3.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y camau gwahanol y mae ymatebwyr Categori Un yn eu cymryd i weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Yn yr adran hon, edrychwn ar y ffordd y mae'r ymatebwyr hyn yn asesu risgiau, yn llunio cynlluniau argyfwng, ac yn monitro ac yn craffu ar eu gwaith cydnerthu.

## Mae'r ffordd y caiff risg ei hasesu ledled Cymru yn anghyson, sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud cymhariaeth

**3.2** Un o brif rolau fforymau lleol Cymru gydnerth yw llunio cofrestr risg gymunedol, sef asesiad o'r risgiau lleol a wynebir gan y cymunedau yn ardal y fforwm. Ceir pedair cofrestr risg o'r fath yng Nghymru, un ar gyfer pob fforwm lleol Cymru gydnerth. Mae deddfwriaeth hefyd yn bwriadu i gofrestrau risg cymunedol hysbysu'r cyhoedd am y mathau o risgiau a allai effeithio ar eu cymuned, a'i gwneud yn bosibl i gyflawni gwaith paratoi sy'n cynyddu cydnerthedd ac yn lleihau canlyniadau argyfyngau.

**3.3** Rydym yn pryderu bod fforymau lleol Cymru gydnerth yn mynd ati i lunio cofrestrau risg cymunedol mewn ffyrdd gwahanol. Gall hyn beri i'r sawl sy'n rheoli neu'n dioddef argyfyngau gymryd camau gwahanol sy'n arwain at amrywiadau mewn rolau, lefelau gwasanaeth a disgwyliadau. Gall anghysondeb o ran asesu risgiau hefyd olygu bod y gallu i wrthsefyll risgiau penodol yn datblygu mewn ffyrdd gwahanol ac i raddau gwahanol. Nodwyd hefyd fod cofrestrau risg cymunedol yn asesu risgiau'n unigol, ond prin y maent yn asesu'r tebygolrwydd o sawl risg yn digwydd ar yr un pryd[62]. Yn ogystal, nid yw'r cofrestrau risg cymunedol yn asesu faint o amser y mae rhai digwyddiadau yn eu cymryd, er enghraifft effaith hirdymor trychineb niwclear Chernobyl yn 1986 ar rai ffermwyr defaid.

**3.4** Er bod ystod eang o ganllawiau a chyngor ar gael i helpu ymatebwyr i asesu risgiau[63], nid ymddengys fod un ffordd gyffredin o asesu risg yn lleol. Byddai dull mwy cyson o asesu risg yn sicrhau bod risgiau o'r un fath yn cael eu hystyried mewn ffordd debyg. Drwy wella cysondeb asesiadau risg, caiff cynllunwyr argyfyngau well gwybodaeth am y tebygolrwydd o argyfwng, ac y bydd canlyniadau'r fath ddigwyddiad i'r cymunedau dan sylw yn eithaf tebyg.

**3.5** Yn ddiau, bydd amgylchiadau lleol megis daearyddiaeth, dwysedd poblogaeth a pha mor agos ydyw yn effeithio ar asesiadau risg lleol. Fodd bynnag, gwelsom amrywiadau mewn asesiadau risg cymunedol y mae'n anodd eu hegluro. Nid oedd ychwaith yn glir a yw cofrestrau risg cymunedol yn rhoi cyfrif llawn am risgiau a nodir ar lefel genedlaethol a allai gael effaith yn lleol. Er enghraifft, absenoldeb asesiad risg ar gyfer safleoedd niwclear y tu allan i ardal gyfagos fforwm lleol Cymru gydnerth.

62 Cydnabyddwn ei bod yn anodd ac yn gymhleth asesu cyfuniadau risg lluosog ac mai'r adeg orau i fynd i'r afael â hynny yw wrth bennu tybiaethau cynllunio.

63 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 4: *Local responder risk assessment duty,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012.



3.6 Drwy asesu risg mewn ffordd anghyson, mae tybiaethau gwahanol iawn ynghylch risg yn llywio'r gofrestr risg gymunedol. O ganlyniad, gall cynlluniau fod yn annigonol i ddelio â chanlyniadau argyfwng. Gall goramcangyfrif effaith risg benodol arwain at y defnydd diangen ac aneffeithlon o adnoddau, gan olygu nad ydynt ar gael i'w defnyddio mewn meysydd â mwy o flaenoriaeth. Dengys Arddangosyn 11 rai enghreifftiau a welsom o anghysondeb asesiadau risg. Mae'n anodd deall amrywiadau o ran y risg sy'n gysylltiedig â methiant y rhwydwaith trydan gan mai prin yw cydberthynas hyn â daearyddiaeth, yn yr un modd fethiant seilwaith dŵr. Er bod Cofrestr Risg Gymunedol De Cymru yn cynnwys asesiad o lifogydd mewndirol, nid yw'n cynnwys asesiad o lifogydd mewndirol difrifol yn digwydd yng Nghymru a rhan arall o'r Deyrnas Unedig ar yr un pryd. I'r gwrthwyneb, mae amrywiadau o ran risg sy'n gysylltiedig â methiant argae yn adlewyrchu risg leol o ran nifer yr argaeau, eu hoedran a thopograffi lleol.

3.7 Byddai mwy o gysondeb rhwng asesiadau risg lleol yn galluogi Fforwm Cymru Gydnerth i fod yn fwy hyddysg gan asesu anghenion o ran adnoddau yn fwy cywir yn erbyn capasiti presennol. Byddai mwy o gysondeb hefyd yn helpu i lunio casgliadau defnyddiol ynghylch perfformiad gwasanaethau ymateb brys a, lle y bo angen, i Fforwm Cymru Gydnerth gymryd camau lle nodir materion o ran perfformiad. Fodd bynnag, rôl gynghori sydd gan Fforwm Cymru Gydnerth, er ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol a'i fod yn cael ei hwyluso gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes ganddo'r statws statudol i gymryd y camau hyn.

**Arddangosyn 11 – Enghreifftiau o amrywiadau ym maes dosbarthu risg o fewn cofrestrau risg cymunedol[64]**

| | | Gradd risg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Fforwm lleol Cymru gydnerth** | Blwyddyn cyhoeddi'r gofrestr | Llifogydd mewndirol difrifol yn effeithio ar fwy na dau ranbarth yn y DU | Ffliw pandemig | Methiant technegol y rhwydwaith trydan | Methiant y seilwaith dŵr neu halogi damweiniol â halogydd nad yw'n wenwynig | Methiant/ cwymp argae mawr |
| **Dyfed Powys** | 2010 | Uchel iawn | Uchel iawn | Uchel | Uchel | Uchel |
| **Gwent** | 2010 | Uchel | Uchel iawn | Uchel | Uchel | Canolig |
| **Gogledd Cymru** | 2012 | Uchel iawn | 'Asesiad risg yn yr arfaeth' | Uchel | Uchel | Uchel iawn |
| **De Cymru** | 2012 | Heb ei restru | Uchel iawn | Canolig | Canolig | Canolig |

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gofrestrau Risg Cymunedol*

64 Mae cofrestrau risg cymunedol yn seiliedig ar Ganllawiau Asesu Risg Lleol Swyddfa'r Cabinet.

**3.8** Gwnaethom hefyd nodi nad yw’r rhan fwyaf o’r setiau presennol o gofrestrau risg cymunedol yn hawdd eu darllen na’u deall. Yn ôl canllawiau[65] gan Swyddfa’r Cabinet mae’r gofrestr risg gymunedol, y mae’n ddyletswydd i ymatebwyr Categori Un ei chyhoeddi, yn ffordd effeithiol o wneud cymunedau a busnesau yn fwy ymwybodol ac yn fwy abl i baratoi i chwarae eu rhan mewn argyfwng. Mae Swyddfa’r Cabinet hefyd wedi llunio canllawiau[66] ar sut i ymgysylltu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i gyfleu risg.

**3.9** Mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth De Cymru a Dyfed Powys wedi cydnabod yr angen i rybuddio a hysbysu’r cyhoedd am risgiau ac maent wedi llunio llyfryn sy’n crynhoi’r prif risgiau yn eu cofrestrau risg cymunedol. Yn Swydd Lincoln, mae fforwm lleol Lloegr gydnerth wedi datblygu cofrestr risg y mae’n hawdd i aelodau’r cyhoedd ei darllen a’i deall (Arddangosyn 12), er mwyn iddynt feithrin gwell dealltwriaeth a chymryd camau i allu gwrthsefyll y risgiau tebygol a wynebir ganddynt yn well. Mae’r gofrestr risgiau yn darparu rhai camau y gall y cyhoedd eu cymryd, megis cofrestru i fod yn rhan o rwydwaith rhybuddio rhag llifogydd a storio eiddo gwerthfawr yn ddiogel lle nad yw’n debygol y bydd llifogydd yn achosi difrod. Hefyd, mae’r gofrestr risg yn nodi’n glir y camau a gymerir gan eraill ar eu rhan, megis cynnal a chadw cylfatiau, systemau draenio ac amddiffynfeydd llifogydd, er mwyn lleihau canlyniadau llifogydd.[67]

**Arddangosyn 12 – Mae’r gofrestr risg gymunedol a luniwyd gan Swydd Lincoln yn rhoi gwybodaeth hygyrch i’r cyhoedd am risgiau a sut y gallant eu gwrthsefyll yn well**




*Ffynhonnell: Cofrestr Risg Gymunedol Swydd Lincoln*

65 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 4: *Local responder risk assessment duty,* Swyddfa’r Cabinet, Mawrth 2012.

66 *Communicating Risk Guidance,* Swyddfa’r Cabinet

67 http://www. lincolnshireprepared.co.uk/section.asp?catid=24235/



**3.10** Gall fod hefyd ffordd well o asesu tebygolrwydd a chanlyniadau'r risgiau unigol a nodir mewn cofrestrau risg cymunedol. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf[68] o ymatebwyr Categori Un yn asesu effaith pob risg unigol, ond asesiad cul yw hwn nad yw efallai'n rhagweld yr holl ganlyniadau. Efallai fod ymchwil[69] i 'ddull gweithredu ar sail adnoddau a chanlyniadau', a eglurir yn fanylach yn Arddangosyn 13, yn ffordd well o ddatblygu'r gallu i wrthsefyll risgiau a chynllunio at argyfwng. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu y dylai'r dull gweithredu gwahanol hwn annog yr asiantaethau sydd ynghlwm wrth risg a nodwyd i drafod a chydweithio er mwyn cyflawni cynllun ymateb cytûn.

**Arddangosyn 13 – Sut y gallai 'dull gweithredu ar sail canlyniadau' wella'r broses o asesu risg**

> Mae eira trwm yn enghraifft o argyfwng a nodir ym mhob cofrestr risg. Mae gan 'ddull gweithredu ar sail canlyniadau' y potensial i newid yr asesiad risg a'r ymateb i eira trwm o asesiad ynysig unigol i asesiad llawer ehangach a mwy realistig o'r holl ganlyniadau.
>
> Drwy greu darlun llawer gwell o'r effaith y gallai eira trwm ei chael ar ardal, gall cynllunwyr argyfwng lunio cynlluniau sy'n fwy strategol ac integredig, a gwneud defnydd gwell o adnoddau. Felly, gall cynlluniau ar gyfer eira trwm nodi'r llwybrau trafnidiaeth hanfodol a'r dulliau o'u cadw'n agored. Ond mae'r cynlluniau hyn yn mynd ymhellach byth, a gallant ddangos, er enghraifft, rôl bosibl y sector preifat wrth ddarparu cerbydau oddi ar y ffordd ac integreiddio hyn â rôl i'r sector gwirfoddol wrth helpu i nodi a diogelu dinasyddion agored i niwed.
>
> Gall y dull gweithredu ar sail canlyniadau hefyd helpu i gyfleu ac atgyfnerthu disgwyliadau i'r cyhoedd i wella'r gallu i wrthsefyll risgiau a lleihau'r galw ar adnoddau brys.

*Ffynhonnell: Dehongliad Swyddfa Archwilio Cymru o ymchwil a wnaed gan Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig*

**3.11** Yn ogystal ag asesiad risg lleol a gynhelir drwy'r cofrestrau risg cymunedol, mae Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi'r Gofrestr Risg Genedlaethol a Chanllawiau Asesu Risg Lleol. Rhydd y Gofrestr Risg Genedlaethol a Chanllawiau Asesu Risg Lleol wybodaeth am beryglon ac asesiadau o fygythiadau i fforymau lleol Cymru gydnerth. Mae canllawiau[70] a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gofrestr Risg Genedlaethol yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio ei hasesiad risg ei hun i ymatebwyr yng Nghymru, ond dim ond gyda chaniatâd Gweinidog y Goron.

**3.12** Mae Llywodraeth Cymru a Fforwm Cymru Gydnerth wedi penderfynu peidio â llunio cofrestr risg genedlaethol oherwydd ni chredant y byddai hyn yn ychwanegu llawer o werth, gallai wanedu blaenoriaethau risg lleol a defnyddio adnoddau'n ddiangen. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Busnes Fforwm Cymru Gydnerth sy'n cynnwys crynodeb o risgiau yn y papur *Gwybodaeth Gymunedol am Risgiau yng Ngymru*[71] yn seiliedig ar y Gofrestr Risg Genedlaethol a gaiff ei llunio gan Swyddfa'r Cabinet.[72] Dim ond asesiad risg lefel uchel iawn a ddarperir gan y cynllun busnes ac nid yw'n ceisio'n benodol sicrhau cysondeb o ran asesu risg. Mae'r cynllun hefyd yn crynhoi'r dull o ymdrin ag argyfyngau yn hytrach na throsolwg at ddiben arweinyddiaeth strategol neu reoli perfformiad.

68 Mae Cofrestr Risg Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru bellach yn cynllunio risg ar sail canlyniadau.

69 *Combined Effect: A New Approach to Resilience 2010*, papur ymchwil a luniwyd ar y cyd gan Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig a SERCO.

70 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 4: *Local responder risk assessment duty, Paragraff 4.18,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012.

71 *Gwybodaeth Gymunedol am Risgiau yng Nghymru*, Fforwm Cymru Gydnerth, Mai 2012

72 http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/national-risk-register

## Mae gan ymatebwyr Categori Un gynlluniau argyfwng ond nid yw gweithdrefnau yn gyson ac mae'r ansawdd yn amrywio, a gallai hyn effeithio ar eu gwerth mewn argyfwng

**3.13** Fel rhan o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rhaid bod gan bob ymatebydd Categori Un gynlluniau argyfwng a chynlluniau parhad busnes ar waith. Mae cynlluniau argyfwng yn amlinellu swyddogaethau i atal neu reoli argyfyngau, neu gymryd camau eraill mewn argyfwng. Mae cynlluniau parhad busnes yn sicrhau, os bydd argyfwng yn digwydd, y gall y sefydliad barhau i ddarparu gwasanaethau. Mae canllawiau[73] Swyddfa'r Cabinet sy'n gysylltiedig â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i gynlluniau argyfwng ei gynnwys.

**3.14** Fel rhan o'n hastudiaeth, gwnaethom ofyn am gopi o brif gynllun argyfwng pob ymatebydd Categori Un. Anfonodd pob sefydliad iechyd ei gynllun cyfredol atom, fel y gwnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Gwnaeth y gwasanaethau brys naill ai anfon eu cynlluniau atom neu adael i ni gynnal adolygiad ar eu safle.

**3.15** Dengys ein hadolygiad o gynlluniau argyfwng ymatebwyr Categori Un, er bod cynlluniau argyfwng ar waith, nid ydynt yn gyson ac mae llawer yn amrywio o ran eu hansawdd a'u cynnwys. Nodwyd mai prif fylchau rhai o'r cynlluniau a adolygwyd oedd:

- **a** nid oeddent yn bodloni'r gofyniad i gyfeirio'n benodol at y risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg gymunedol nac yn integreiddio cynlluniau argyfwng â hwy;
- **b** nid oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth am rôl y tîm cynllunio at argyfwng mewn argyfwng;
- **c** nid oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth am y weithdrefn i'w dilyn i gwblhau digwyddiad ac i roi'r gorau i weithdrefnau argyfwng;
- **ch** nid oeddent yn cynnwys amserlenni i sicrhau bod hyfforddiant ac ymarferion yn cael eu cynnal.

**3.16** Nodwyd bod meysydd o arfer da, megis y cynlluniau argyfwng a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'i ddefnydd o 'gardiau gweithredu' sy'n sbarduno camau gweithredu gan swyddogion penodol mewn argyfwng. Fodd bynnag, nid oes llawer o gynlluniau gan ymatebwyr Categori Un eraill yn cydymffurfio'n llawn â'r cynnwys gofynnol fel y nodir yn y canllawiau statudol. Efallai fod dogfennau ategol yn cynnwys y wybodaeth hon yn achos rhai ymatebwyr Categori Un, ond nid oedd hyn yn glir o'r cynlluniau a adolygwyd gennym. Hefyd, nid oedd yn glir pam nad yw cynlluniau'n cynnwys yr hyn sydd ei angen fel y disgrifir yn y canllawiau statudol i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

**3.17** Yn y cynlluniau argyfwng a adolygwyd gennym, roedd cyfeiriadau at 57 o ddeddfau ar wahân, yn ogystal â rheoliadau a chylchlythyrau niferus. Mae'r manylion hyn wedi gwneud rhai o'r cynlluniau hyn yn rhy gymhleth a gall effeithio ar eu defnydd fel canllawiau effeithiol mewn argyfwng. Mae rhai cynlluniau hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth nad yw bellach yn gyfredol neu nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r sefydliad dan sylw. Felly, nid yw'n glir a fyddai gan rywun a oedd yn defnyddio un o'r cynlluniau argyfwng hyn ddarlun cywir o'r pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar gael.

73 *Emergency Preparedness* – Canllawiau ar Ran 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (Atodiad 5B), Swyddfa'r Cabinet (dim dyddiad)



**3.18** Ychydig iawn o gynlluniau sy'n cynnwys diffiniadau o rôl aelodau etholedig, cydberthnasau rhwng ymatebwyr Categori Un, rôl y Crwner neu sut i gynnwys y sector gwirfoddol. Mae'r canllawiau yn awgrymu y dylai rôl aelodau etholedig a'r rhyngweithio rhwng ymatebwyr fod yn glir fel y gall y partneriaid hyn gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflawni cydnerthedd, rheoli digwyddiadau neu wrth adfer y sefyllfa ar ôl digwyddiad.

**3.19** Y fersiwn cyntaf oedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau a ddarparwyd ar gyfer ein hadolygiad gan ymatebwyr Categori Un, ac roeddent yn dyddiedig 2009 neu 2010. Hefyd, gwelsom rai cynlluniau a oedd wedi'u dyddio'n gynharach. Felly, gan fod lawer o gynlluniau bellach yn ddwy neu'n dair oed, mae'n rhesymol disgwyl adolygiad yn ystod y cyfnod hwn sy'n canolbwyntio ar ansawdd, cyflawnrwydd a chysondeb. Prin y gwelsom dystiolaeth o'r fath adolygiadau.

**3.20** Mae ansawdd anghyson cynlluniau argyfwng yn bryder ac mae'n adlewyrchu diffyg trefniadau rheoli perfformiad diffiniedig. Yn ein barn ni, dylai fod yn ofynnol cadarnhau cydymffurfiaeth â chanllawiau statudol, a dylai hynny fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cynlluniau argyfwng yn addas at y diben. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei strwythuro yn golygu bod cadarnhau ansawdd a chysondeb cynlluniau argyfwng yn dibynnu ar hunanasesiad gan ymatebwyr Categori Un.

**3.21** Nododd ein hadolygiad o gynlluniau argyfwng hefyd nad oedd ymatebwyr Categori Un wedi gwneud cyfeiriadau na threfniadau digonol i achub ar y cyfleoedd a gynigir gan gyfryngau cymdeithasol. Mae angen i gynllunwyr argyfwng ystyried y datblygiadau hyn a dewisiadau dinasyddion wrth fireinio eu cynlluniau argyfwng. Gall blogiau a systemau gwibnegeseua fel Twitter fod yn fwy effeithiol wrth roi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn argyfwng[74] na chyfryngau newyddion traddodiadol neu wasanaethau argyfwng y llywodraeth. Yn ôl ymchwil,[75] gallai defnyddio cyfryngau cymdeithasol helpu ymatebwyr i ymdrin ag argyfyngau mewn ffordd gyflymach, mwy cydgysylltiedig a mwy effeithiol. Mae ymchwil[76] hefyd yn nodi bod cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy pwysig i adfer sefyllfa ar ôl argyfwng.

## Ceir enghreifftiau da o ymarferion a hyfforddiant er nad yw cam adfer argyfyngau wedi'i brofi i raddau helaeth ac mae pwysau ariannol yn debygol o effeithio ar y graddau y cynhelir profion yn y dyfodol

**3.22** Yn ôl y cyngor a roddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei dogfen gyfarwyddyd *Emergency Preparedness* mae'n hanfodol meddu ar y sgiliau cywir[77] i reoli argyfyngau sifil posibl. Tybir, yn y canllawiau hyn, y dylai ymarferion a hyfforddiant adlewyrchu'r byd go iawn. Fodd bynnag, gall ymarferion fod yn ddrud yn aml ac mae'r broses o'u hariannu yn debygol o ddod yn anos wrth i sefydliadau ledled Cymru wynebu'r angen i wario llai.

**3.23** Mae Fforwm Cymru Gydnerth wedi sefydlu Grŵp Dysgu a Datblygu amlasiantaethol Cymru. Mae'r grŵp, a gaiff ei gadeirio gan Gydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl y Gwasanaethau Brys, yn cyfarfod bedair gwaith

---

74 Mae cydnabyddiaeth o'r angen i fonitro safleoedd cyfryngau cymdeithasol ar gynnydd. Mae gan Heddlu Dyfed Powys rolau penodol o ran y cyfryngau yn y ganolfan orchymyn 'Aur' i fonitro gweithgareddau'r cyfryngau oddi wrth leoliad y drychineb ond sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Mae rheoli'r cyfryngau mewn argyfwng yn dod yn fwyfwy heriol wrth i'r BBC ac adrannau eraill o'r cyfryngau eraill ofyn am straeon a lluniau o leoliad digwyddiadau.

75 *Integrating Social Media into Emergency-Preparedness Efforts*, The New England Journal of Medicine, Gorffennaf 2011

76 Cafodd pwysigrwydd cynyddol cyfryngau cymdeithasol yn ystod ac ar ôl argyfwng ei nodi mewn ymchwil gan *The Australian Journal of Emergency Management*, Chwefror 2012.

77 http://www.cabinetoffice.gov.uk/content/training-emergency-preparedness

y flwyddyn ac mae'n adrodd i Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth. Nod y grŵp yw cysoni hyfforddiant ac ymarferion ar draws fforymau lleol Cymru gydnerth. Mae'r grŵp hefyd yn llunio ac yn cynnal raglen dreigl dair blynedd o ymarferion a hyfforddiant, megis ymarferion Taliesin a Watermark, sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ac ymdrin â digwyddiadau mawr. Mae'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd a Llywodraeth Cymru ill dau yn cyfrannu £20,000, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfrannu £10,000 i gefnogi hyfforddiant ac ymarferion yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau brys hefyd yn cydariannu Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl y Gwasanaethau Brys, sef rôl sy'n unigryw i Gymru.

**3.24** Mae gan bob fforwm lleol Cymru gydnerth is-grŵp hyfforddiant ac ymarferion sy'n trefnu ac yn cydgysylltu digwyddiadau hyfforddi lleol. Mae'r is-grwpiau hyn yn cysylltu â Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru. Lle y bo modd, mae ymarferion yn adlewyrchu'r risgiau yn y gofrestr risg gymunedol neu maent yn ofynnol drwy reoliadau eraill megis Rheoliadau Rheoli Damweiniau Mawr a Pheryglon (COMAH). Mae ymarferion sy'n ymwneud â safleoedd COMAH yn mynd i'r afael â'r angen i asesu digwyddiad diwydiannol mawr ac ymarfer ar ei gyfer, ac maent wedi'u cynnwys ym mhob cofrestr risg gymunedol.

**3.25** Mae ymarferion yn amrywio'n sylweddol o ran graddfa a chost. Cyfraniad o £50,000 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru a ariannodd Ymarfer Talieson (Astudiaeth Achos 7), gyda sefydliadau unigol a oedd yn cymryd rhan yn ariannu eu cyfraniad eu hunain o'u cyllidebau eu hunain. I'r gwrthwyneb, roedd Ymarfer Watermark (Astudiaeth Achos 8), a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 yn ymarfer ar draws y Deyrnas Unedig a gostiodd £1.8 miliwn. Llywodraeth y Deyrnas Unedig a wnaeth ariannu'r ymarfer hwn yn bennaf a oedd yn cynnwys tua 10,000 o bobl; 10 o adrannau'r llywodraeth; a'r gwasanaethau brys, cwmnïau cyfleustodau a chymunedau. Mae Ymarfer Watermark yn dangos sut y gall ymarfer cenedlaethol ar raddfa fawr arwain at welliannau cydnerthu rhag llifogydd yn y dyfodol.

### Astudiaeth Achos 7 – Profodd Ymarfer Taliesin yr ymgysylltu ag ymatebwyr Categori Un yng Nghymru

Profodd Ymarfer Taliesin, a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2009, Gynllun Ymateb Cymru Gyfan a chynlluniau ffliw pandemig ledled Cymru. Roedd yr ymarfer yn rhan o waith Swyddfa'r Cabinet i feithrin cydnerthedd rhag ffliw pandemig. Yng Nghymru, cafodd yr ymarfer ei gynnal ar yr un pryd ym mhedair ardal fforwm lleol Cymru gydnerth ynghyd â'r ganolfan argyfwng ganolog o fewn Llywodraeth Cymru. Profodd yr ymarfer broses gwneud penderfyniadau strategol y Grŵp Cydgysylltu Strategol amlasiantaethol a'r broses o weithredu'r Ganolfan Cydgysylltu Strategol.

Drwy gynnal yr ymarfer fesul cam, bu modd i'r Grŵp Cydgysylltu Strategol brofi pum lefel wahanol o rybudd, yn amrywio o lefel isel i lefel gritigol. Gwnaeth yr ymarfer gynnwys llawer o ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau, ac arweiniodd at rai argymhellion defnyddiol ar gyfer rheoli digwyddiadau mawr ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ymatebwyr Categori Un.

### Astudiaeth Achos 8 – Roedd Ymarfer Watermark yn ymarfer ymateb i lifogydd cenedlaethol mawr

Roedd Ymarfer Watermark yn ymarfer llifogydd cenedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011. Profodd yr ymarfer hwn welliannau i'r dull o ymateb i lifogydd yn y dyfodol, yn enwedig y gwelliannau hynny a sbardunwyd gan adolygiad Syr Michael Pitt o lifogydd 2007. Roedd yr ymarfer yn gyfle i Gymru brofi ei gallu i wrthsefyll llifogydd yn sgil y gwersi a ddysgwyd o Adolygiad Pitt. Cydnoddodd Llywodraeth Cymru yr ymarfer ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Asiantaeth yr Amgylchedd a arweiniodd y gwaith o gyflawni'r ymarfer.

Ategodd cynllun gweithredu y 17 o argymhellion a gynhwyswyd mewn adroddiad ar yr ymarfer hwn i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r adroddiad hwn ynghyd â'r adroddiad cenedlaethol, ac mae wedi asesu'r argymhellion i Gymru. Grŵp Llifogydd Cymru sy'n goruchwylio'r broses o weithredu'r cynllun ar ran Fforwm Cymru Gydnerth.



**3.26** Nododd adroddiad ar gynllunio at argyfyngau sifil posibl o fewn heddluoedd Cymru a Lloegr gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi y gall gwneud ymarferion yn realistig ac yn ystyrlon fod yn gostus iawn a bod yr ymatebion plismona sydd eu hangen i argyfyngau sifil, drwy eu natur, yn gallu datblygu i ddefnyddio adnoddau ar raddfa fawr. Nodwyd hefyd nad yw'r costau ariannol a chyfle sy'n gysylltiedig ag ymarferion sy'n cynnwys sefyllfaoedd gwirioneddol a lle nad oes unrhyw rybudd o'r ymarfer yn ddeniadol i heddluoedd sydd eisoes yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol. Dengys Ffotograff 3 Ymarfer Gwyniad yn Llyn Tegid, Gwynedd. Cymerodd dros 300 o achubwyr o bob rhan o Gymru ran yn Ymarfer Gwyniad, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 i brofi'r ymateb i lifogydd difrifol.

**3.27** Mae rhai ymarferion lleol hefyd yn adlewyrchu risgiau cenedlaethol sylweddol. Enghraifft diweddar o hyn yw ymarfer, a gynhaliwyd ar ddechrau 2011, a brofodd yr ymateb brys i ddamwain ffordd fawr ar yr M4 yn nhwneli Bryn Glas, ger Casnewydd. Ym mis Gorffennaf 2011, aeth sawl cerbyd ar dân yn y twneli gan beri argyfwng mawr a allai fod wedi bygwth bywydau ac achosi difrod sylweddol i'r seilwaith trafnidiaeth, sefyllfa a gafodd ei hosgoi ar y cyfan gan y defnydd o gynlluniau argyfwng effeithiol a brofwyd yn dda. O ganlyniad i'r digwyddiad, cafodd y twnel gorllewinol a rhan o'r draffordd eu cau am dridiau ond gallai fod wedi bod yn llawer gwaeth heb yr hyn a ddysgwyd gan yr ymarfer diweddar. Mewn adolygiad o'r argyfwng hwn, daethpwyd i'r casgliad bod ymateb cyflym y gwasanaethau brys i achub pobl a oedd yn y twnel yn debygol o fod wedi osgoi sawl marwolaeth. Hefyd, ailagorwyd y twnel ymhen tridiau a phrin fu'r tarfu ar draffig a chafwyd effaith sylweddol is ar yr economi. Roedd hyn yn sgil yr ymateb gan y gwasanaethau brys a dangosodd werth cynnal ymarferion.



**Ffotograff 3 – Timau achub yn cymryd rhan yn Ymarfer Gwyniad yn Llyn Tegid, Gwynedd.**

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**3.28** Nododd Ymarfer Taliesin fwlch ymddangosiadol, hynny yw prin yw'r hyfforddiant a'r ymarferion sydd wedi ymdrin â cham adfer digwyddiad mawr neu faterion sydd fel arfer yn codi o ddigwyddiad tymor hwy, er enghraifft gorffwys staff allweddol ac argaeledd hirdymor cyfarpar arbenigol. Ymdriniwyd â'r bwlch hwn yn rhannol yn ystod Ymarfer Watermark, gyda chamau adfer yn cael eu profi gan ymarfer lleol a gynhaliwyd gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys ac yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru Llywodraeth Cymru.

**3.29** Mae cynllun digwyddiadau mawr Heddlu Dyfed Powys yn nodi camau argyfwng (Arddangosyn 14) ac yn dangos anhawster profi cynlluniau a chynnal ymarferion ar gyfer digwyddiad mawr. Mae'r cynllun digwyddiadau mawr yn cynnwys y manylion ychwanegol canlynol o fewn y cam 'adfer' traddodiadol, gan nodi y bydd y cam hwn fel arfer yn cael ei arwain gan awdurdod lleol:


**a** cymorth - rhoi cymorth cychwynnol i bobl y mae argyfwng neu ddigwyddiad mawr yn effeithio arnynt yn uniongyrchol;

**b** cymorth adferol - rhoi cymorth a gofal tymor canolig i hirdymor i oroeswyr a faciwîs, a gwneud yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn iawn unwaith eto;

**c** adfywio - sicrhau yr eir i'r afael ag effeithiau hirdymor yr argyfwng neu'r digwyddiad mawr.

**3.30** Mae hefyd angen i gynlluniau digwyddiadau mawr dynnu sylw at ganlyniadau posibl digwyddiad mawr o ran gwrandawiadau, cwestau a cheisiadau rhyddid gwybodaeth. Mae'r camau diweddarach hyn mewn argyfwng, a anwybyddir yn aml mewn hyfforddiant ac ymarferion, yn hanfodol i adfer y sefyllfa'n gyflym ac maent yn arwydd o effeithiolrwydd trefniadau cydnerthu. Mae'n bosibl y gall fod angen llawer iawn o staff i ddarparu ymateb ar y camau hyn, gan ychwanegu effaith ariannol arall at hyfforddiant ac ymarferion.

**Arddangosyn 14 – Diagram cynllunio yn dangos camau digwyddiad mawr**




*Ffynhonnell: Daw o Gynllun Digwyddiadau Mawr Heddlu Dyfed Powys (2010)*



3.31 Awgrymodd Adolygiad Simpson y byddai buddiannau o gyflwyno hyfforddiant ac ymarferion ar lefel genedlaethol. Os caiff yr awgrym hwn ei fabwysiadu yng Nghymru, dylai wella'r broses o gydgysylltu hyfforddiant ac ymarferion ymhlith ymatebwyr Categori Un, a dylai olygu bod hyfforddiant ac ymarferion yn cael eu cynnal yn fwy effeithlon a chosteffeithiol.

3.32 Gellir gwneud hyfforddiant yn fwy cydnaws â'r risgiau a nodir yn y ddogfen *Gwybodaeth Gymunedol am Risgiau yng Nghymru*[78] os caiff hyfforddiant ac ymarferion eu cydgysylltu a'u cyflawni ar lefel genedlaethol. Byddai proses gydgysylltu genedlaethol hefyd yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o ymarferion a hyfforddiant ledled Cymru yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith. Mae Gwasanaeth Meithrin Cydnerthedd yr Alban, sef y rhan o Lywodraeth yr Alban sy'n rhoi cymorth argyfyngau sifil posibl, yn gweithredu mewn ffordd debyg. Fodd bynnag, gyda deddfwriaeth ddatganoledig, gall yr Alban ddatblygu fframwaith cydymffurfio cryfach na'r hyn sy'n bosibl yng Nghymru. Manteision y fframwaith cydymffurfio cryfach hwn yw y gall ymatebwyr Categori Un roi safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant ac ymarferion ar waith yn haws, ac adeiladu ar y gwaith da yn y maes hwn sydd eisoes yn bodoli.

## Ar y cyfan, mae'r gwaith o graffu ar weithgarwch cydnerthedd a rheoli perfformiad yn y maes hwnnw yn aneffeithiol

3.33 Wrth gynnal unrhyw fusnes neu wasanaeth, mae angen gweithredu proses fonitro a chraffu effeithiol. Os gwneir hyn yn dda, mae'n cynnig tawelwch meddwl i sefydliadau fod busnes yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Gall proses fonitro a chraffu briodol ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

3.34 Nid oes un sefydliad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Ym mhob achos bron namyn yr amgylchiadau mwyaf eithafol ac anghyffredin, mae'r broses graffu yn dibynnu ar gynnal hunanasesiad yn erbyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet. O ganlyniad i hyn, nid yw'r modd yr adolygir y gwaith o fodloni gofynion y ddeddfwriaeth yn gydgysylltiedig. Nodwyd hefyd mai prin yw'r dystiolaeth glir o weithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn.

3.35 Mae rhai awdurdodau lleol, fel yr ymatebwyr Categori Un sy'n gwbl gyfrifol am eu perfformiad wrth gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, wedi adolygu'r broses o gyflawni eu swyddogaethau cynllunio at argyfwng fel rhan o'u swyddogaeth graffu arferol. Er enghraifft, mae pwyllgor craffu yng Nghyngor Gwynedd wedi adolygu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng yr awdurdod lleol, yn dilyn cyfres o adolygiadau cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru, craffu allanol annibynnol ac adborth yn deillio o ddau ymarfer allweddol. Mae'r dull hwn o weithredu yn pwysleisio disgwyliad Swyddfa'r

78 http://walesresilience.gov.uk/publicationsnew/6357920/;jsessionid=rHJQPt8V0LHhFxBHfwL21JsLSKy6mBLbWKPZT4ktlLbLwKMLLp4M!545803488?skip=1&lang=cy

Cabinet a'r ddibyniaeth ar ymatebwyr Categori Un i gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain.

**3.36** Mae'r gwasanaethau brys 'golau glas' wedi cydnabod nad yw dibynnu'n llwyr ar hunanasesiad yn sicrhau, efallai, y caiff gwasanaethau eu darparu'n effeithiol a'u bod yn cyrraedd y safon ofynnol. Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu cynllun adolygu cymheiriaid sydd wedi cynnwys amrywiaeth o adolygiadau sydd wedi asesu ymateb y gwasanaeth brys hwn i ddigwyddiadau mawr. Yn 2009, adolygodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ba mor gadarn y defnyddiodd yr heddlu ymarferion i brofi eu cynlluniau argyfwng. Cododd canfyddiadau'r adolygiad hwn bryderon bod ychydig dros 40 y cant o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr wedi methu â phrofi eu cynlluniau mewn ymarferion yn ddigonol; ac mai dim ond hanner a werthusodd eu cynlluniau oherwydd ymgyrchoedd amser real.

**3.37** Mae holl heddluoedd Cymru wedi ymateb i'r adroddiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac wedi rhoi cynlluniau gweithredu lleol ar waith. Mae tair blynedd bellach wedi mynd heibio ers astudiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a chredwn ei bod yn amserol iddi gynnal adolygiad i weld pa mor dda y mae'r heddlu wedi gweithredu'r newidiadau a argymhellwyd yn yr adroddiad lleol[79]. Er na wnaethom adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad a roddir ar waith wrth gynllunio at argyfwng yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae'n galonogol gweld bod grwpiau yn craffu ar berfformiad a bod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cynnal adolygiadau blynyddol ac yn llunio adroddiad blynyddol ar gynllunio at argyfwng. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol hefyd yn cynnal archwiliadau mewnol o elfennau o'i drefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl.

**3.38** Yn ystod 2011, cynhaliodd pob fforwm lleol Cymru gydnerth adolygiad cymheiriaid a arweiniwyd gan fforwm lleol Cymru gydnerth arall a Chydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl Gwasanaethau Brys Cymru. Defnyddiodd yr adolygiad y canllawiau *The Role of Local Resilience Forums: A Reference Document* a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Rhydd Atodiad 3 fwy o fanylion am y ddogfen hon. Caiff canlyniadau'r adolygiad cymheiriaid eu crynhoi yn Astudiaeth Achos 9.

### Astudiaeth Achos 9 – Adolygiad cymheiriaid o fforymau lleol Cymru gydnerth

Yn ystod 2011, cytunodd Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl Gwasanaethau Brys Cymru a phedwar fforwm lleol Cymru gydnerth i gynnal adolygiad cymheiriaid o fforymau lleol Cymru gydnerth. Cafodd canllawiau Swyddfa'r Cabinet, sef *The role of Local Resilience Forums: A reference document*, a luniwyd yn 2011, eu defnyddio ar gyfer yr adolygiad cymheiriaid hwn. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rôl fforwm lleol Cymru gydnerth a'r amrywiaeth o ddyletswyddau a ddisgwylir ganddo. Gweithredodd y Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl fel cymedrolwr gyda Fforymau Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru a Dyfed Powys yn cynnal adolygiadau cymheiriaid o'i gilydd, gyda'r un broses yn cael ei chynnal gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth De Cymru a Gwent.

Drwy'r adolygiadau, bu modd rhannu arfer da yn ogystal â darparu rhywfaint o ddadansoddi annibynnol o raglenni gwaith. Mae hyn wedi helpu'r fforymau i flaenoriaethu rhai meysydd gwaith a amlygwyd gan yr adolygiad lle mae angen datblygu ymhellach. Ymhlith y camau a flaenoriaethwyd roedd yr angen i ddatblygu gwell prosesau rhybuddio a hysbysu, a chyrraedd cymunedau agored i niwed yn well.

Tynnodd yr adolygiadau cymheiriaid sylw hefyd at rai cryfderau, gan gynnwys creu cyfeiriaduron dysgu a datblygu ac archwilio setiau sgiliau ar draws y pedwar fforwm yng Nghymru. Cafodd Fforwm Cymru Gydnerth adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiadau cymheiriaid, gan hwyluso'r gwaith o nodi'r materion ac ymateb iddynt.

*Ffynhonnell: Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl Gwasanaethau Brys Cymru*

79 Mae gan gomisiynwyr newydd yr heddlu a throseddu hefyd rôl rheoli perfformiad a fydd yn ategu trefniadau arolygu ac adolygu lleol.



**3.39** Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn cynnig rhai camau i fynd i'r afael â pherfformiad gwael ymatebwyr. Mae adran 10 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn galluogi un o Weinidogion y Goron neu unrhyw ymatebydd Categori Un neu Gategori Dau i fynd ag unigolyn neu ymatebydd i'r Uchel Lys i orfodi'r dyletswyddau o dan y ddeddf. Gall yr Uchel Lys wedyn gymryd 'unrhyw gamau sy'n briodol yn ei farn ef'. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o bryder ymhlith ymatebwyr ynghylch ansawdd ac amrywiad cynlluniau argyfwng ymhlith ymarferwyr cynllunio at argyfwng, mae amharodrwydd i ddefnyddio'r ddarpariaeth hallt hon.

**3.40** Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau ddefnyddio ei 'set disgwyliadau'[80] i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain. Y set disgwyliadau yw'r prif ddull a ddefnyddir gan Swyddfa'r Cabinet i ddibynnu ar ymatebwyr i asesu eu perfformiad. Mae'r set disgwyliadau yn cynnwys canllawiau gorfodol, materion i'w hystyried a rhai enghreifftiau o arfer da. Ceir crynodeb o'r tri chategori o 'ddisgwyliadau' yn Atodiad 2.

**3.41** Prin y defnyddir set disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet gan ymatebwyr Categori Un yng Nghymru. Gwnaethom gynnal arolwg o swyddogion cynllunio at argyfwng ac roedd yn bryder nodi bod cyn lleied o ymatebwyr Categori Un wedi defnyddio'r set disgwyliadau hwn i adolygu eu cynlluniau argyfwng. Tra nad oedd rhai ymatebwyr Categori Un yn cydnabod y ddogfen, roedd eraill o'r farn nad eu rôl na'u swyddogaeth hwy fel swyddogion cynllunio at argyfwng oedd asesu perfformiad eu sefydliad cyflogi. Ymateb cyfyngedig iawn a gafwyd i'n harolwg, gyda dim ond 18 o ymatebion i'r 39 o geisiadau a anfonwyd gennym.

**3.42** Ymhlith y sylwadau mewn ymateb i'n harolwg o ddefnydd swyddogion cynllunio at argyfwng o'r set disgwyliadau roedd:

- **a** dim digon o amser i ddefnyddio'r set disgwyliadau;
- **b** diffyg adnoddau yn atal defnydd o'r det disgwyliadau;
- **c** nid rôl swyddogion cynllunio at argyfwng yw adolygu eu perfformiad eu hunain;
- **ch** ymatebwyr i'r arolwg yn anymwybodol o'r ddogfen set disgwyliadau.

**3.43** Mae methiant llawer o ymatebwyr Categori Un i roi tystiolaeth, drwy'r set disgwyliadau, o'u gallu i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn bryder mawr. Mae ein canfyddiadau yn ein harwain at y casgliad nad yw llawer o ymatebwyr yn cydnabod eu dyletswydd i gynnal hunanasesiad[81], er bod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dibynnu ar hyn i gynnal safonau perfformiad derbyniol. Ni wnaethom gynnal arolwg o ymatebwyr Categori Dau.

**3.44** Ni ddylai'r defnydd o'r set disgwyliadau fod ar wahân i drefniadau rheoli perfformiad effeithiol. Fel y dywedodd un ymatebydd Categori Un wrthym, 'ni ddylai'r defnydd o'r set disgwyliadau ddigwydd ar wahân i fesur cynnydd ac mewn gwirionedd dylai ond digwydd fel rhan o ddull gweithredu mwy pragmataidd sy'n delio â gwelliannau ac yn helpu i gyflawni gwelliannau drwy ansawdd darpariaeth gwasanaeth'. Mewn geiriau eraill, er y gall y defnydd o set disgwyliadau ddatgelu'r angen i wella perfformiad, mae angen i hyn fod yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad ehangach.

---

80 *Expectations and Indicators of Good Practice Set for Category 1 and 2 Responders*, Swyddfa'r Cabinet, Rhagfyr 2010

81 *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 13: *Support and challenge* – yn cyfeirio at y defnydd o Expectation Set and Indicators of Good Practice for Category 1 and 2 Responders fel offeryn asesu.

3.45 Mae ein canfyddiadau yn ein harwain at y casgliad nad oes, ar gyfer ymatebwyr Categori Un, fframwaith rheoli perfformiad sefydledig, a phrin yw'r gwaith craffu a hunanasesu i asesu effaith a chanlyniadau gweithgarwch cydnerthu ledled Cymru.

3.46 Gallai dadansoddiad o'r adolygiadau a gwblhawyd yn unol â'r set disgwyliadau helpu Fforwm Cymru Gydnerth ac ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau i gael darlun cliriach o'r cryfderau a'r gwendidau ar draws pob sector a rhanbarth sy'n ymwneud â dyletswyddau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Byddai gwybodaeth am y graddau y mae ymatebwyr wedi paratoi hefyd yn helpu i greu darlun mwy cyflawn, gan ei gwneud yn bosibl i sicrhau trosolwg strategol mwy hyddysg o arweinyddiaeth, a thargedu camau gweithredu ac adnoddau ar adegau a nodwyd. Fodd bynnag, nid oes fframwaith perfformiad, ar wahân i fframwaith gwirfoddol sy'n debyg i'r trefniadau presennol, i ddefnyddio'r wybodaeth hon wedi'i bennu.

3.47 Yn ogystal, defnydd bach iawn yn unig a wnaed gan ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau o wasanaethau archwilio mewnol ac allanol, a awgrymwyd yn y canllawiau statudol[82], i nodi eu cryfderau a'u gwendidau. Pan wnaethom siarad â Swyddfa'r Cabinet[83], nododd y diffyg her allanol hwn yng Nghymru. Hefyd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw adborth ar y defnydd o'r set disgwyliadau nac adnoddau asesu perfformiad eraill, gan Swyddfa'r Cabinet i ymatebwyr Categori Un yng Nghymru. Mae Swyddfa'r Cabinet yn cynnal arolwg o ymatebwyr Categori Un bob dwy flynedd ond gwnaethom nodi nad yw hyn yn monitro perfformiad ymatebwyr na'r graddau y maent yn gydnaws â'r set disgwyliadau. Hefyd, nid oedd Swyddfa'r Cabinet yn gallu didoli na dadansoddi'r data a gasglwyd gan yr arolwg hwn sy'n gymwys i Gymru[84].

3.48 Gwnaethom hefyd nodi mai prin yw'r gwaith craffu o'r rhan uniongyrchol y mae aelodau etholedig yn ei chwarae wrth gyflawni Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu protocolau, neu wrthi'n gwneud hynny, i gysylltu ag aelodau lleol os oes rhywbeth yn digwydd yn eu ward. Fodd bynnag, mae'r rhan a chwaraeir gan aelodau etholedig ar ôl yr argyfwng yn llai sicr. Ceir ychydig o enghreifftiau o waith ymgysylltu arferol da ag aelodau ar faterion cynllunio at argyfwng. Un enghraifft o'r fath yw'r Cyd-bwyllgor Cynllunio at Argyfwng a weithredir rhwng Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Sonnir am y cyd-bwyllgor hwn yn Astudiaeth Achos 10. Mae'r pwyllgor hwn yn darparu cyswllt rhwng aelodau etholedig a thîm cynllunio at argyfwng ar y cyd y ddau awdurdod lleol i ffurfio Uned Cydnerthu ar y Cyd. Chwaraeodd yr Uned Cydnerthu ar y Cyd ran bwysig yn yr argyfwng mawr a ddeilliodd pan aeth gwastraff teiars ar dân mewn depo yn Abertawe, y cyfeiriwyd ato ym Mharagraff 2.9.

**Astudiaeth Achos 10 – Y Cyd-bwyllgor Cynllunio at Argyfwng rhwng awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot**

Y Cyd-bwyllgor Cynllunio at Argyfwng a ffurfiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yw'r unig un o'i fath yng Nghymru. Mae buddiannau'r cyd-bwyllgor hwn yn cynnwys:

- gwell ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn argyfwng;
- darparu 'seinfwrdd' ar gyfer cynigion gweithredu gan Uned Cydnerthu ar y Cyd y ddau awdurdod lleol;
- darparu cyswllt rhwng aelodau etholedig a'r ymateb brys mewn argyfwng.

82 Rhaglen Wella Argyfyngau Sifil Posibl, *Revision to Emergency Preparedness,* Pennod 13: *Support and challenge,* Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2012

83 Cyfweliad ffôn Swyddfa Archwilio Cymru â Swyddfa'r Cabinet ar 22 Mai 2012.

84 Dywed Swyddfa'r Cabinet wrthym y gall bellach ddadagregu data ar gyfer Cymru o'r arolwg o ymatebwyr Categori Un a'i bod yn ystyried cynnal yr arolwg hwn bob blwyddyn.



**3.49** Gwelir enghraifft arall o awdurdod lleol yn ceisio cynnwys aelodau etholedig yn fwy mewn materion cynllunio at argyfwng arferol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi dogfen gyfarwyddyd i aelodau etholedig sy'n amlinellu'r rhan a chwaraeir ganddynt mewn argyfwng mewn meysydd megis:

- **a** cynorthwyo a thawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd  y mae argyfwng yn effeithio arnynt;
- **b** darparu cymorth mewn canolfannau gorffwys;
- **c** rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau lleol yn ystod argyfwng ac ynghylch argyfwng;
- **ch** cynnig arweinyddiaeth wleidyddol wrth adfer y sefyllfa ar ôl argyfwng;
- **d** darparu cynrychiolaeth effeithiol i'r llywodraeth wrth geisio adnoddau a chymorth ariannol.

**3.50** Mae deddfwriaeth newidiol yn golygu bod absenoldeb prosesau craffu a monitro effeithiol yn cynyddu'r risg bosibl i ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau. Yn arbennig, mae Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007 yn ei gwneud yn bosibl i erlyn cwmnïau a sefydliadau eraill lle y bu methiant difrifol, ar draws y sefydliad, wrth reoli iechyd a diogelwch a bod hyn wedi achosi marwolaeth. Mae hyn yn peri risg gynyddol i ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau o ran y ffordd y maent yn defnyddio eu staff a'r atebolrwydd sydd ganddynt am eu penderfyniadau mewn argyfwng.

**3.51** Yn ein barn ni, gall dull mwy effeithiol o graffu ar weithgareddau cynllunio at argyfwng, ynghyd â gwell dealltwriaeth drwy ganllawiau cymeradwy ar yr hyn y mae deddfwriaeth yn ei ddisgwyl gan ymatebwyr, hefyd helpu'r sawl sy'n paratoi ar gyfer argyfyngau ac yn eu rheoli i ddiogelu eu hunain.

# Atodiad 1 – Sefydliadau yng Nghymru sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn cynnwys rhestr o'r mathau o sefydliadau ac enwau'r sefydliadau sydd wedi'u dynodi'n ymatebwyr Categori Un neu Gategori Dau. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r ymatebwyr sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn dangos yr ymatebwyr hynny lle, heblaw am Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau swyddogaethol datganoledig.

| Cwmpas y sefydliad | Ymatebwyr Categori Un | Ymatebwyr Categori Dau | Eraill |
|---|---|---|---|
| **Wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru** | • Awdurdodau tân ac achub<br>• Awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd)<br>• Byrddau iechyd lleol<br>• Ymddiriedolaethau acíwt y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (ysbytai)<br>• Ymddiriedolaeth Gwasanaethau GIG Ambiwlans Cymru<br>• Unrhyw ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth iechyd cyhoeddus<br>• Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) | • Awdurdodau harbwr | • Iechyd Anifeiliaid |
| **Heb ei ddatganoli** | • Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig<br>• Heddluoedd<br>• Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau<br>• Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd | • Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | • Y Lluoedd Arfog<br>• Yr Asiantaeth Safonau Bwyd<br>• Y Swyddfa Dywydd<br>• Yr Heddlu Niwclear Sifil |
| **Sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r sector cyhoeddus** | | • Dosbarthwyr a thrawsyryddion trydan<br>• Dosbarthwyr nwy<br>• Network Rail<br>• Cwmnïau trenau (teithwyr a nwyddau)<br>• Cwmnïau darparwyr gwasanaethau ffôn (sefydlog a symudol)<br>• Gweithredwyr meysydd awyr<br>• Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth<br>• Yr Asiantaeth Priffyrdd | |

*Ffynhonnell: Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, atodlen 1, Rhestr o ymatebwyr. Canllaw Swyddfa'r Cabinet i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.*

# Atodiad 2 – Disgwyliadau a dangosyddion arfer da ar gyfer ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau

Ym mis Ebrill 2009, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet *Expectations and Indicators of Good Practice Set for Category 1 and 2 Responders* (y set disgwyliadau). Bwriad Swyddfa'r Cabinet yw i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan ymatebwyr er mwyn darparu eglurder a chanllawiau ychwanegol ynghylch eu dyletswyddau a'i nod yw helpu ymatebwyr i barhau i feithrin eu gallu i ymateb i argyfyngau sifil posibl a pharatoi ar gyfer argyfwng.  Mae'n dwyn ynghyd yr ystod eang o gyngor a chanllawiau ynghylch Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn un ddogfen gyfeirio ddefnyddiol.

Dengys y tabl canlynol y prif gategorïau o'r set disgwyliadau, a noda nifer y disgwyliadau yn y canllawiau hyn sy'n orfodol ac iddynt sail statudol, ynghyd â disgwyliadau eraill nad ydynt yn orfodol ond sydd 'i'w hystyried' gan ymatebwyr neu i'w hystyried yn arfer da.

### Set disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer ymatebwyr Categori Un

| | Gorfodol | Mater i'w ystyried | Arfer da |
|---|---|---|---|
| A: Dyletswydd i asesu risg | 9 | 3 | 6 |
| B: Dyletswydd i gynnal cynlluniau - y cynllun argyfwng | 14 | 2 | 8 |
| C: Dyletswydd i gynnal cynlluniau - parhad busnes | 13 | 5 | 9 |
| CH: Dyletswydd i gyfathrebu â'r cyhoedd | 16 | 12 | 8 |
| D: Hyrwyddo parhad busnes | 11 | 7 | 8 |
| DD: Rhannu gwybodaeth | 6 | 1 | 3 |
| E: Cydweithredu - ymatebwyr categori 1 | 9 | 8 | 12 |
| F: Cydweithredu - ymatebwyr categori 2 | 2 | 0 | 3 |
| Cyfansymiau | 80 | 38 | 57 |

# Atodiad 3 – Rôl fforymau lleol Cymru gydnerth

Ym mis Ebrill 2011, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet *The role of Local Resilience Forums: A reference document* fel canllaw i fforymau lleol Cymru a Lloegr gydnerth mewn perthynas â dyletswyddau yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'r ddogfen gyfeirio hefyd yn gymwys i Reoliadau Cynllunio Argyfyngau Sifil Posibl 2005 a chanllawiau cysylltiedig; y Rhaglen Galluoedd Cydnerthu Genedlaethol; a'r ddogfen gyfarwyddyd anstatudol Emergency Response and Recovery sy'n gymwys i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Fel y set disgwyliadau ar gyfer ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2, mae *The role of Local Resilience Forums: A reference document* yn nodi'r gofynion ar gyfer pob fforwm lleol Cymru gydnerth, materion i'w hystyried a dangosyddion arfer da. Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer y meysydd i'w hystyried gan bob fforwm lleol Cymru gydnerth ym mhob un o brif ddyletswyddau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

### Rôl fforymau lleol Cymru gydnerth

| | Gorfodol | Materion i'w hystyried | Dangosyddion arfer da |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau cyffredinol** | | | |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 4 | 9 | 4 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 4 | 7 | 6 |
| **Dyletswydd i asesu risg** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 4 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 2 | 4 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 3 | 6 |
| **Cynlluniau argyfwng** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 6 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 7 | 6 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 3 | 5 |



| | Gorfodol | Materion i'w hystyried | Dangosyddion arfer da |
|---|---|---|---|
| **Parhad busnes** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 4 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 3 | 2 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 2 | 5 |
| **Cyfathrebu â'r cyhoedd** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 3 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 5 | 5 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 4 | 4 |
| **Hyrwyddo parhad busnes** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 2 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 4 | 5 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 3 | 4 |
| **Dyletswydd i rannu gwybodaeth** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 9 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 3 | 5 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 3 | 3 |
| **Dyletswydd i gydweithredu** | | | |
| Aelodau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth | 3 | 0 | 0 |
| Arweinyddiaeth a strwythur | 0 | 5 | 7 |
| Systemau, prosesau a gwybodaeth | 0 | 2 | 4 |
| **Cyfansymiau** | **39** | **65** | **75** |

# Atodiad 4 – Methodoleg

Nid oedd ein hastudiaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o ymatebwyr Categori Un unigol, ond gwnaethom ddefnyddio rhywfaint o waith archwilio lleol penodol Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiadau cymheiriaid o fewn y gwasanaeth tân ac achub a gwaith rheoleiddwyr eraill gyda'r ymatebwyr hyn. Cafodd cryn dipyn o'n hymchwil a'n gwaith maes ei gwblhau cyn mis Ebrill 2010, felly gall fod achosion lle mae materion wedi datblygu ers hynny. Lle y bo modd, rydym wedi nodi'r newidiadau hyn wrth glirio'r adroddiad.

## Adolygu llenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- Dogfennau polisi a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chydnerthedd yng Nghymru
- Gwefan Fforwm Cymru Gydnerth
- Cynlluniau argyfwng a chynlluniau parhad busnes ymatebwyr Categori Un yng Nghymru
- Y pedair cofrestr risg gymunedol
- Ymchwil a chanllawiau perthnasol gan Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Roedd ein hadolygiad o lenyddiaeth hefyd yn cynnwys Adolygiad Simpson, yr adolygiadau cymheiriaid a gynhaliwyd gan y gwasanaeth tân ac achub a'r arolygiadau thematig o drefniadau ymateb i argyfwng yr heddlu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.

Cafwyd ei bod yn anodd nodi data ac ystadegau a oedd yn berthnasol i'r astudiaeth hon.  Fodd bynnag, gwnaethom adolygu costau cynllunio at argyfwng o gyfrifon awdurdodau lleol a'r *Model Costau Cyffredin ar gyfer Fforymau Lleol Cymru Gydnerth*. Hefyd, adolygwyd peth data cyfyngedig ar arbedion cyllidebol arfaethedig gan wasanaethau brys.

## Arolwg o swyddogion cynllunio at argyfwng

Arolygodd Swyddfa Archwilio Cymru swyddogion cynllunio at argyfwng ym mhob ymatebydd Categori Un er mwyn asesu p'un a oedd eu sefydliad wedi defnyddio'r Set Disgwyliadau ar gyfer ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet.



## Cyfweliadau

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau, gan gynnwys rhai â'r canlynol:

- Cyfarwyddwr yr Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl yn Swyddfa'r Cabinet
- Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol a Phennaeth Cydnerthu, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru
- Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Posibl Gwasanaethau Brys Cymru
- Uned Cynllunio at Argyfwng Iechyd Llywodraeth Cymru
- Cadeiryddion a chydgysylltwyr pedwar fforwm lleol Cymru gydnerth a Grŵp Cydgysylltwyr Fforymau Lleol Cymru Gydnerth
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Is-grŵp ymatebwyr Categori Dau o Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth
- Y Groes Goch Brydeinig
- Cyngor Asiantaethau Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Gwnaethom hefyd fynd i Gynhadledd Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ym mis Chwefror 2012 a chyfrannu at Grŵp Cynghori Astudiaeth Audit Scotland ar gyfer yr adroddiad Improving civil contingencies planning, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2009.

## Grŵp Cyfeirio Astudiaeth

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Astudiaeth rhithwir fel panel o arbenigwyr i'w ddefnyddio fel 'seinfwrdd' i brofi ein canfyddiadau a'r argymhellion. Roedd y grŵp yn cynnwys cymysgedd o ymarferwyr cynllunio at argyfwng ac uwch gynrychiolwyr o sefydliadau â chefndir mewn argyfyngau sifil posibl, rheoleiddio neu ymgysylltu â'r cyhoedd. Manteisiwyd ar brofiad yr arbenigwyr hyn o Gymru, Lloegr a'r Alban; o awdurdodau lleol a gwasanaethau brys; ac o'r sector preifat.

Roedd ein Grŵp Cyfeirio Astudiaeth yn cynnwys:

- Mick Giannasi (cyn-Brif Gwnstabl Heddlu Gwent a bellach yn Gomisiynydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn)
- Vivienne Sugar (cyn-Brif Swyddog Gweithredol yn Ninas a Sir Abertawe a bellach yn Gadeirydd Llais Defnyddwyr Cymru)
- Jennifer Cole (Cymrawd Ymchwil, Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig - melin drafod sector preifat annibynnol ar gyfer materion diogelwch ac amddifyn)
- Miranda Allcock (Rheolwr Portffolio ar gyfer Cyfiawnder, Audit Scotland)
- Helen Braithwaite OBE (Pennaeth yr Is-adran Cydnerthu - Is-adran Canolog, Cydnerthu ac Argyfyngau, Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol)
- David Powell (Pennaeth Cynllunio at Argyfwng, Cyngor Sir Swydd Lincoln)

# RISGIAU CYNLLUNIO ARGYFWNG GOFAL CWSMER

| Rhif | Risg (Bygythiad neu gyfle) | Sgôr risg heb fesurau rheoli | Mesur sydd yn ei lle | Sgôr risg presennol | Materion sydd angen sylw | Sgôr risg gyda mesurau rheoli pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Tywydd garw (Eira) | | 1. Derbyn rhybuddion tywydd garw gan y Swyddfa Dywydd.<br>2. Trefniadau Priffyrdd a Bwrdeistrefol i raeanu, sef y Cynllun Gweithredol Gwasanaeth Gaeaf.<br>3. Polisi Tywydd Garw yn ei le yn cynnwys darpariaeth cerbydau 4x4 i gludo staff i gyflawni swyddogaethau allweddol.<br>4. Cynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. | | 1. Mwy o hyfforddiant gyrru 4x4.<br>2. Sefydlu rôl casglu a chyd-lynu gwybodaeth yn ein trefniadau.<br>3. Hysbysu staff a'r cyhoedd fel yn briodol.<br>4. Hyrwyddo'r templed Cynllun Cydnerthedd Cymunedol am Argyfwng. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Llifogydd yn creu risg i fywyd, difrod i is-adeiledd ac eiddo, ac amharu ar barhad busnes | | 1. Rhybuddion llifogydd penodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).<br>2. Llifogydd wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth yng Nghynllun Strategol y Cyngor;<br>3. Cynllun Llifogydd Sirol yn ei le a chynlluniau lleol ar gyfer ardaloedd arfordirol Porthmadog, Fairbourne; Abermaw; afonydd Mawddach; Wnion a Thref Dolgellau; Y Bala a Dyfrdwy Uchaf; Dyfi; Glaslyn; a Dwyryd; a Chronfeydd Dalgylch Dyffryn Ogwen; Blaenau Ffestiniog; Y Bala.<br>4. Cynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor.<br>5. Casglu gwybodaeth ac adrodd ar eiddo a lifogwyd. | | 1. Sefydlu cynlluniau ar gyfer ardaloedd yn derbyn rhybuddion o'r newydd.<br>2. Sefydlu rôl casglu a chyd-lynu gwybodaeth yn ein trefniadau.<br>3. Angen adolygu trefniadau o ran darparu bagiau tywod.<br>4. Casglu gwybodaeth pan mae lonydd wedi cau.<br>5. Hysbysu staff a'r cyhoedd fel yn briodol.<br>6. Hyrwyddo'r templed Cynllun Cydnerthedd Cymunedol am Argyfwng. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Salwch heintus (Ffliw) | | 1. Cynllun Pandemig Ffliw<br>2. Codi ymwybyddiaeth am hylendid.<br>3. Trefniadau imiwneiddio cenedlaethol.<br>4. Cynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor.<br>5. Cynllun Rheoli Marwolaethau Niferus a threfn Darpariaeth Gwasanaeth Uned Gwarchod y Cyhoedd. | | 1. Sefydlu trefn ar y cyd hefo iechyd i fod yn casglu data a monitro y sefyllfa pe byddai pandemig.<br>2. Adnabod y staff dylai cael ei imiwneiddio.<br>3. Cynnig trefnu iddynt gael brechiad priodol.<br>4. Capasiti y trefnwyr angladdau (a mynwentydd nad sydd dan reolaeth y Cyngor) i ymdopi.<br>5. Adolygu trefniadau yn ôl arweiniad newydd a ddisgwylir gan Lywodraeth. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Llygredd ar raddfa fawr mewn dyfroedd wedi eu rheoli | | 1. Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r cyfrifoldeb blaen i ymateb.<br>2. Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd i fonitro a rheoli llygredd ac i reoli heintiau.<br>3. Bas data am yr arfordir. | | 1. Trefniadau glanhau traethau/ arfordir a gwaredu'r gwastraff.<br>2. Adolygu trefniadau yn ôl arweiniad newydd a ddisgwylir gan Lywodraeth.<br>3. Adnabod llefydd mae Dŵr Cymru yn tynnu dŵr o ddyfroedd wedi eu rheoli. | |
| 5 | Colli gweithlu neu arbenigedd prin; colli lleoliad gwaith; neu colli defnydd offer neu gwasanaethau hanfodol | | 1. Cynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor.<br>2. Polisïau Adnoddau Dynol.<br>3. trefniadau rheolaethol.<br>4. Cynllun Parhad Gwasanaeth Swyddfeydd. | | Sylw i ymdopi â cholled cyfleustodau dŵr a thrydan.<br>Ymarferiad pen desg ar adleoli swyddfeydd wedi ei gynnal a rhaglen o welliannau yn digwydd o ganlyniad i'r ymarferiad hwnnw. | |
| 6 | Colli technoleg (technoleg gwybodaeth neu ffonau) fel ei fod yn amharu ar allu i gyflawni gwasanaeth | | Cynllun Parhad Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Profi Cynllun Parhad Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer i gynnal gwasanaeth mis Mawrth pan fu toriad i'r cyflenwad | | Technoleg wedi ei uwchraddio a rhywfaint o waith profi cychwynol wedi cymryd lle.<br>Gwaith technegol wedi ei gwblhau ac un ymarferiad wedi | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | trydan. | | ei gynnal i ail-godi systemau yn Penrhyn a bu hwnnw yn llwyddiannus, ymarferiadau pellach wedi eu rhaglennu. Gwelliannau yn deillio o wersi profiad trosglwyddo'r derbyn galwadau ffôn i'r Pencadlys pan gollwyd trydan yn Galw Gwynedd. | |
| 7 | Cyflenwadau tanwydd yn cael eu hatal i'r fath raddu fel ei fod yn amharu a'r gallu i gyflawni gwasanaethau | | Cynllun Rhanbarthol yn ei le. Wedi gofyn Adrannau i nodi pwy sydd rhaid teithio i gyflawni swyddogaethau hanfodol a chasglu data am ddefnydd tanwydd. Datblygiad o feddalwedd "System Swyddi" ar y gweill er nodi mwy o ddata priodol i barhad gwasanaeth. | | Cynllun rhanbarthol wedi ei ddatblygu eleni i ddod i gytundeb hefo gorsafoedd petrol er mwyn sicrhau blaenoriaeth i weithwyr allweddol. Gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pa weithwyr fyddai angen tanwydd ar gyfer parhau a dyletswyddau allweddol. Sefydlu trefn ar gyfer blaenoriaethau cyflenwadau tanwydd y Cyngor mewn argyfwng. | |

TREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Y gallu i ymateb yn effeithiol i argyfwng mawr | | Cynlluniau Argyfwng wedi eu dogfennu. Mae tri ymarfer o'r Grŵp Ymateb Corfforaethol wedi ei gynnal ac ymarferion eraill ar agweddau penodol Dirprwyon wedi eu hadnabod ac yn trefnu hyfforddiant/ ymarfer iddynt. | | Angen adolygu ac addasu rhai trefniadau (strwythur y grŵp ymateb i argyfwng, trefniadau cofnodi/logio, casglu a rhannu gwybodaeth) yn unol â'r dysgu. | |
| 9 | Capasiti staff i gynnal ymateb i argyfwng dros gyfnod hir a thrwy'r cyfnod adferiad | | Dirprwyon wedi eu sefydlu ar gyfer y Grŵp Ymateb i Argyfwng; a mwy nag un wedi cael hyfforddiant ar gyfer mynychu Canolfannau Aur ac Arian. | | Adnabod y swyddogaethau allweddol; sefydlu faint o gapasiti sydd ar gael; adnabod a hyfforddi swyddogion all ymgymryd â'r gwaith mewn argyfwng. | |
| 10 | Ffurfioli trefniadau i adrodd wedi ymarferiad neu ddigwyddiad argyfyngus (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru). | | Adroddiadau wedi bod yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli. | | Sefydlu trefn ffurfiol i adrodd i'r Grŵp Rheoli a'r Aelod Cabinet (ac o bosibl i'r Cabinet). | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Gallu i gyflawni ein rôl o ran Adferiad | | Cynllun Adferiad yn ei le. Profiad o weithredu adferiad wedi llifogyn Tachwedd 2012. | | Sicrhau bod yr unigolion sydd â chyfrifoldebau arweiniol yn deall eu cyfrifoldebau; Dysgu o brofiad llifogydd 2012. Sefydlu yn lle mae y sgiliau a'r capasiti ar gyfer gallu cefnogi adferiad cymunedol. | |

**Fersiwn 3.00 16 Ebrill 2013**

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD | YMCH 6 |
| Grŵp AELODAU ARWEINIOL<br>o'r Pwyllgor Craffu | Cynghorwyr:<br><br>1 Gwynfor Edwards<br>2 Trevor Edwards<br>3 Alan Evans<br>4 Eryl Jones-Williams<br>5 Dafydd Meurig<br>6 Mair Rowlands |
| SWYDDOG ARWEINIOL | Janet Roberts<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cefnogi a Chyflawni Newid |
| CEFNOGAETH a GWEINYDDIAETH | Ann E Roberts<br>Swyddog Gwella Perfformiad a Chraffu |

1 <u>Cefndir</u>

Nod y Polisi Caffael Cynaliadwy yw cyflawni gweithgareddau caffael mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy ac uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir.

Yn benodol, mae'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn anelu at:

1. sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyflenwyr priodol i geisio am gytundebau'r Cyngor;
2. leihau effaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith;
3. sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn cael eu seilio, lle'n briodol, ar gostau gydol oes.

2 <u>Pwrpas yr Ymchwiliad</u>

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu i berfformiad caffael cynaliadwy'r Cyngor ar gontractau rhwng £50k a £500,000 fydd edrych ar y materion canlynol:

- addasrwydd y Polisi Caffael Cynaliadwy a'r trefniadau presennol
- cydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hynny
- edrych ar yr effaith, o ran pecynnu gwaith, ar gytundebau o dan £50k
- adnabod ymarfer dda o ran polisi yn y maes caffael cynaliadwy yn fewnol yn y Cyngor a thu allan i'r Cyngor
- cynnig argymhellion ar sut i wella perfformiad y Cyngor yn y maes hwn.

Draft

3 Sut

- Casglu sylwadau y swyddogion hynny yn yr Adrannau sydd yn paratoi cytundebau rhwng £50k a £500k, ar y Polisi Caffael Cynaliadwy a'r trefniadau presennol
- Rhoi asesiad clir o gydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hynny
- Rhoi ystyriaeth briodol i rwystrau a adnabuwyd a sut i'w datrys
- Nodi cryfderau, llwyddiannau a gwersi i'w dysgu
- Nodi ymarfer da yn fewnol ac allanol, a chyfleoedd i wella
- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'r Aelod Cabinet eu hystyried

4 Cyfnod yr Ymchwiliad

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Diwedd Ebrill 2013 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Medi 2013 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 14 Tachwedd 2013 |
| Adroddiad oddi wrth Craffu at y Weithrediaeth | Rhagfyr 2013 |

5 Rhaglen

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad gan Nicola Day, Rheolwr Caffael Corfforaethol ar y Polisi Caffael Cynaliadwy |
| 2 | Edrych dros restr o'r holl gytundebau newydd rhwng £50k a £500k yn ystod y flwyddyn 2012-13 i adnabod yr adrannau sydd yn datblygu'r cytundebau hyn, y symiau, y meysydd a chydymffurfiaeth. |
| 3 | Sesiwn Cynllunio<br>• Y Grŵp Ymchwiliad i fynd drwy'r Polisi i weld pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio<br>• Cytuno ar gwestiynau ac amserlen ymweliadau â swyddogion perthnasol yn y Cyngor. |
| 4 | Sesiynau cwestiynu a thrafod gyda swyddogion perthnasol y |

Draft

| | |
|---|---|
| | Cyngor |
| 5 | Casglu a chrynhoi'r sylwadau |
| 6 | Adnabod ymarfer da yn fewnol ac yn allanol |
| 7 | Sesiwn Cynllunio<br>• Ystyried yr wybodaeth a gasglwyd a chynllunio gweddill y rhaglen |
| 8 | Sesiwn cwestiynu a thrafod y prif ganfyddiadau gyda'r<br>• Aelod Cabinet<br>• Rheolwr Caffael Corfforaethol<br>• Pennaeth Strategol a Gwella |
| 9 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad |
| 10 | Llunio'r adroddiad |
| 11 | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion i'r Aelod Cabinet |

Drafft

**Nodiadau Cyfarfod Grŵp Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy**
**18 Mawrth 2013**

Presennol: Cynghorydd Dafydd Meurig a Mair Rowlands.
Swyddogion: Janet Roberts, Uwch Reolwr Cefnogi a Chyflawni Newid, ac Ann Roberts, Swyddog Gwella Perfformiad a Chraffu.

Eraill a wahoddwyd: Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet.

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Gwynfor Edwards

## 1 Ethol Cadeirydd:

1.1 Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Mair Rowlands yn gadeirydd yr ymchwiliad craffu hwn.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Derbyniodd yr aelodau eglurhad byr ar

- bwrpas y Polisi Caffael Cynaliadwy
- y rheswm dros sefydlu'r Ymchwiliad Craffu hwn, a'r
- angen i gyflwyno briff drafft i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 25 Ebrill 2013.

2.2 Yn y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2012, eglurwyd bod 97 cytundeb newydd rhwng £50k - £500k wedi eu gosod gyda dim ond 14% ohonynt wedi cydymffurfio â'r Polisi Caffael Cynaliadwy sef defnyddio'r rhestri gwirio caffael cynaliadwy.

## 3 Cynllunio'r Briff

3.1 Adroddodd Aelod bod y Polisi Caffael Cynaliadwy 2011 sydd ar wefan y Cyngor yn nodi mai drafft ydyw.

3.2 Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet os oedd yna drefniadau i sicrhau bod yr Adrannau yn dilyn y drefn.

3.3 Adroddodd yr Aelod Cabinet

a) bod gofyn i'r Adrannau ddefnyddio'r Rhestr Gwirio Cynaliadwyedd ar gyfer cytundebau rhwng £50k a £500k ond nad oedd gofyn iddynt gyflwyno'r ddogfen i unlle.
b) nad oedd yn siŵr faint o'r adrannau sydd yn cydymffurfio â'r drefn a bod 14% yn ymddangos yn isel iawn.
c) ei fod yn bryderus bod cyfleoedd i gadw'r budd yn lleol yn cael eu colli a bod gwario diangen yn digwydd os nad yw'r Adrannau yn defnyddio'r Rhestr Gwirio Cynaliadwyedd.
ch) bod llawer o'r cytundebau yn dod dan gyfrifoldeb Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd.
d) ei bod yn bwysig i gydymffurfio â'r drefn i sicrhau gwerth gorau a gwerth am oes yn ogystal.
dd) mai'r Adran Strategol a Gwella sydd yn gyfrifol am arwain a hwyluso gosod cytundebau ar draws y Cyngor.



DRAFFT

e) nad oes cyfiawnhad dros newid strwythur caffael y Cyngor cyn ceisio cael y strwythur presennol i weithio gyntaf

3.4 Trafodwyd y pwyntiau uchod a nodwyd bod cysylltiad gyda rhai o'r gwelliannau yn y Cynllun Strategol, sef 'Cadw'r Budd yn Lleol', a 'Grymuso Cymunedau'.

3.5 Nodwyd bod mesuryddion perfformiad wedi'u datblygu ar gyfer Caffael Cynaliadwy a bod angen gwella'r perfformiad.

3.6 Trafodwyd sut i ymgymryd â'r ymchwiliad a chytunwyd bod y Grŵp Ymchwiliad Craffu angen:

a) siarad efo rhywun oedd wedi mynd drwy'r broses am y tro cyntaf yn ddiweddar, a hefyd siarad efo amrywiaeth o bobl am gytundebau o wahanol feysydd.
b) gwybod sut mae'r Adrannau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Polisi Caffael Cynaliadwyedd yn paratoi cytundebau a sut maent yn cyrraedd penderfyniad ar ffurf cytundeb.
c) rhestr o'r cytundebau newydd a osodwyd yn ystod y flwyddyn 2012-13, yn nodi swm, maes, adran a'r swyddog perthnasol.
ch) gwybodaeth gymharol ar draws Cymru
d) Y Rheolwr Caffael Corfforaethol i arwain trwy'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn ei gyfarfod nesaf.
dd) ystyried cyfweld cwmni hefyd.

3.7 Eglurodd yr Aelod Cabinet bod yr Uned Eiddo, yn y broses o anfon fframweithiau 3 blynedd allan i'r Adrannau'r Cyngor (sef rhestr o gwmnïau sydd i'w defnyddio am gyfnod o 3 blynedd ar gyfer gwaith trydan, plymwr yn yr ysgolion). Nodwyd bod y Fframweithiau hyn a rhai 5 mlynedd yn cael eu hannog gan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn annog yr Awdurdodau i ddod at ei gilydd i osod un contract mawr, fel er enghraifft, un cwmni yn cyflenwi cyfrifiaduron i bob awdurdod ar draws Cymru.

3.8 Eglurwyd bod y drefn yn cael ei gweld yn annheg iawn i gwmnïau eraill gan na allant geisio am waith am gyfnod hir ac y bydd cwmnïau bychain yn colli allan.

3.9 Awgrymodd yr Aelod Cabinet bod 2,000 o swyddi yn cael eu creu am bob % o wariant cytundebau.

3.10 Cadarnhawyd mai Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu sydd i gyflwyno'r briff drafft i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 25 Ebrill.

**4. Penderfynwyd**

- Gofyn i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol i arwain y Grŵp Ymchwiliad Craffu drwy'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn ei gyfarfod nesaf.
- Gofyn am gopi terfynol o'r Polisi, rhestr o'r cytundebau newydd yn ystod 2012-13, a gwybodaeth gymharol i'w dosbarthu cyn y cyfarfod.
- Diweddaru'r briff a'i rannu efo'r aelodau.

Ann Roberts
19 Mawrth 2013

DRAFFT

Blaenraglen Craffu Mehefin 2012 ymlaen – Fersiwn 3.00 (18.03.13)

**Noder – mae hon yn raglen fyw sy'n cael ei diweddaru'n gyson**

A Pwyllgor Craffu Corfforaethol

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth Gymunedol | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 2 | Strategaeth Arbedion | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 3 | Meddylfryd Systemau (Ymchwiliad Craffu) | 14.06.12 | 31.01.13 |
| 4 | Cynllun Gwella | 06.09.12 | 02.10.12 |
| 5 | Cydbwysedd Gwledig a Threfol | 06.09.12<br>02.10.12 | 13.12.12<br>07.03.13 |
| 6 | Partneriaethau a Chydweithio<br>Asesu cynnydd | 19.12.12 | |
| 7 | Caffael Cynaladwy | 19.12.12 | 31.01.13<br>07.03.13 |
| 8 | Cynllun Strategol y Cyngor | | |
| 9 | Y Cyngor a'r Cyhoedd<br>Trefniadau Ymgysylltu | | |
| 10 | Gweithlu<br>Cadw morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | |
| 11 | Cydweithio gydag Ynys Môn | | |
| 12 | Polisi ôl-troed Carbon<br>Asesu cyrhaeddiad | | |
| 13 | Cynllunio Argyfwng<br>Asesu cynnydd ar Adroddiad SAC | | |

18.03.13

B Pwyllgor Craffu Cymunedau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 14 | Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai | 18.07.12 | 04.09.12 |
| 15 | Ymchwiliad Craffu Tai | 18.09.12 | 05.02.13 |
| 16 | Ffordd Osgoi | 30.10.12 | 04.12.12 |
| 17 | Strategaeth Wastraff | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 18 | Cludiant<br>Cysondeb darpariaeth i Fyfyrwyr ar draws y Sir | 30.12.12 | 04.12.12<br>26.03.13 |
| 19 | Ynni Gwynt<br>Trefniadau ymgynghori | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 20 | Grymuso Cymuned<br>Cydweithio gyda phartneriaid yn lleol | | |
| 21 | Balchder Bangor<br>Ystyried cynnydd a gwersi i'w dysgu a'u rhannu ar draws y Sir | 04.09.12 | 26.03.13<br>10.12.13 |
| 22 | Defnydd o Eiddo gwag<br>Ystyried effaith polisïau'r Cyngor a'i bartneriaid | | |
| 23 | Ffioedd Parcio<br>Ystyried cysondeb ar draws y Sir | | |
| 24 | Defnydd o lwybrau beicio<br>Ystyried cynnydd ar safon a defnydd | | |
| 25 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn<br>Ystyried cynnydd | | |
| 26 | Rhandiroedd<br>Herio cyflawniad ar y polisïau cyfredol a'r is-ddeddfau perthnasol | | |
| 27 | Parthau Cadwraeth Morol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cynllun Prentisiaeth<br>Ystyried cynnydd | | |
| 29 | Cyflwr Ffyrdd Cefn Gwlad<br>Ystyried problemau a datrysiadau posibl | | |
| 30 | Twristiaeth<br>Asesu effaith ar economi Gwynedd | | |
| 31 | Casgliadau Ysbwriel<br>Angen gwybodaeth | | |
| 32 | Rheoli Carafanio Dros Nos<br>Angen gwybodaeth | | |
| 53 | Tai Cymdeithasol | 30.12.12 | 05.02.13 |
| 54 | Cyfnod Meddiannu Carafanau Sefydlog | 19.02.13 | |
| 55 | Noddfa, Deiniolen | | |
| 56 | Cynllun Hurio Ceir | | |

C Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Cynnydd ar Raglen Wella'r Adolygiad | 25.06.12 | 31.07.12 |
| 34 | Strategaeth Addysg<br>Ystyried cynnydd hyd yn hyn<br>Sefydlu Gweithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet<br>Cadarnhâd o'r goblygiadau | 25.06.12 | 31.07.12<br><br>13.09.12<br>15.11.12 |
| 35 | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg | 25.06.12 | |
| 36 | Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | 13.09.12 |
| 37 | Canolfannau Hamdden<br>Ystyried cynnydd ar yr Adolygiad Strategol | 11.10.12 | 15.11.12 |



18.03.13

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol<br>Ystyried Cynnydd y Cynllun | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 39 | Anabledd ac Awtistiaeth<br>Ystyried gwybodaeth | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 40 | Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn<br>Ystyried gwybodaeth 'Urddas mewn Gofal' | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 41 | Plant mewn Gofal | | |
| 42 | Tiroedd a drosglwyddwyd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 43 | Darpariaeth Gwasanaethau'n Lleol | | |
| 44 | Llwybr i Gyflogaeth | | |
| 45 | Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 46 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd | | |
| 47 | Pobl Ifanc<br>Cynnydd ar ddarparu cyfleoedd i rai sy'n ddiwaith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith | | |
| 48 | Cynllun Tlodi Plant | | |
| 49 | Cefnogaeth i Ofalwyr | | |
| 50 | Panel Rhiant Corfforaethol | | |
| 51 | Materion o Gynllun Gwella 2011-12<br>- Cynlluniau Gwella Iechyd (Tud 79)<br>- Gwelliannau Iaith (Tud 84-86)<br>- | | |
| 52 | Adroddiad Gwasanaethau Plant Sir Benfro | 17.01.13 | 21.02.13 |
| 57 | Y Gwystl – trefniadau ymgysylltu | | |

18.03.13